

Bundle BCU Health Board - Welsh 30 July 2026

- 1 09:30 - MATERION RHAGARWEINIOL
- 1.1 09:30 - 26.133 Gair o groeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 1.2 09:33 - 26.134 Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 1.3 09:35 - 26.135 Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mai 2026 a 25 Mehefin 2026
Dyfed Edwards, Cadeirydd
26.135.1 CYM Minutes from Health Board Meeting 28.05.26 V0.3 (Public)
26.135.2 CYM Minutes from Health Board Meeting 25.06.26 V0.3 (Public)
- 1.4 09:40 - 26.136 Materion yn Codi a Chofnod o'r Camau Gweithredu
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 1.5 09:45 - 26.137 Eitem Profiad
Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
26.137 CYM iCAN - Patient Story Board - Welsh
- 1.6 10:00 - 26.138 Adroddiad y Cadeirydd
Dyfed Edwards, Cadeirydd
26.138 CYM Chair's Report
- 1.7 10:10 - 26.139 Adroddiad y Prif Weithredwr
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
26.139 CYM Chief Executive Report
- 1.8 10:20 - 26.140 Adroddiad yr Is-gadeirydd
Gareth Williams, Is-gadeirydd
26.140 CYM Vice Chairs Report
- 2 10:25 - EITEMAU STRATEGOL
- 2.1 10:25 - 26.141 Ysbyty Cymunedol Tywyn - Yr Achos Dros Newid
Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol
- 2.2 10:40 - 26.142 Adroddiad Iechyd Meddwl
Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
- 2.3 10:55 - EGWYL
- 2.4 11:05 - 26.143 Achos Busnes Amlinellol (Amodol) – Atebion Digidol ar gyfer Iechyd Cymuned Bob Oed
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
26.143 CYM All Ages Community Health Digital Solution OBC V1.0
- 2.5 11:15 - 26.144 Cynnig Cynaliadwyedd Practisau Meddygon Teulu Gogledd Sir Ddinbych
- 3 11:30 - PERFFORMIAD INTEGREDIG

- 3.1 11:30 - 26.145 Gofal wedi'i Gynllunio
Tehmeena Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu
- 3.2 11:45 - 26.146 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
Caroline Turner, Aelod Annibynnol
26.146 CYM AAA Report for QSE Committee 02.07.26 V1.1
- 3.3 11:50 - 26.147 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys ac Argyfwng
Tehmeena Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu
- 3.4 12:05 - 26.148 Adroddiad Ansawdd Integredig
Clara Day, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
26.148 CYM Integrated Quality Report - July 26
- 3.5 12:15 - 26.149 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth
Gareth Williams, Is-gadeirydd
26.149 CYM AAA Report for PFIG Committee 23.06.26 V1.0
- 3.6 12:20 - 26.150 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig
Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
- 3.7 12:30 - 26.151 Adroddiad Ariannol
Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol
26.151 CYM Finance Report Coversheet - Month 3
- 3.8 12:40 - CINIO
- 4 13:10 - LLYWODRAETHIANT, RISG A SICRWYDD
- 4.1 13:10 - 26.152 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Archwilio
Paul Lambert, Cadeirydd y Pwyllgor
- 4.2 13:15 - 26.153 Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
- 4.3 13:20 - 26.154 Ymateb i Ymchwiliad Covid-19 y DU
Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
26.154 CYM Response to UK Covid 19 Inquiry
- 4.4 13:30 - 26.155 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
26.155 CYM Corporate Governance Report V1.0
- 4.5 13:35 - 26.156 Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori
Pwyllgor Taliadau, Dyfed Edwards
Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, Clare Budden
Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Dyfed Jones
Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, Dyfed Jones
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Peter Lewis
Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, Emma Adamson
Pwyllgor Gweithredol, Carol Shillabeer
26.156.1 CYM AAA Report for Remuneration Committee 14.07.26 v1.0
26.156.2 CYM AAA Report for PPHP Committee 02.07.2026 V2.0

26.156.3 CYM AAA Report for P&C Committee 09.04.26 V1.0

26.156.4 CYM AAA Report for CFC Committee V1.0

26.156.5 CYM AAA Report for SRG 01.06.26 V1.0

26.156.6 CYM AAA Report for HPF 05.06.26 V1.1

26.156.7 CYM Executive Committee Report (Public)

5 13:40 - MATERION I GLOI

5.1 13:40 - 26.xx Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod
Dyfed Edwards, Cadeirydd

5.2 13:42 - 26.xx Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Iau, 24 Medi 2026
Dyfed Edwards, Cadeirydd

5.3 13:44 - 26.xx Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd
Dyfed Edwards, Cadeirydd



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd Iechyd
a gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 28 Mai 2026
yn Venue Cymru, Llandudno

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol	
Enw	Teitl
Dyfed Edwards	Y Cadeirydd
Emma Adamson	Aelod Cyswllt: Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Tehmeena Ajmal	Prif Swyddog Gweithredu
Clare Budden	Aelod Annibynnol
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Clara Day	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol
Urtha Felda	Aelod Annibynnol
Paul Lambert	Aelod Annibynnol
Yr Athro Mike Larvin	Aelod Annibynnol
Peter Lewis	Aelod Cyswllt: Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Dr Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Billy Nichols	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
Fôn Roberts	Aelod Cyswllt (Cynrychiolwr Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol)
Carol Shillabeer	Y Prif Weithredwr
Caroline Turner	Aelod Annibynnol
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol
Gareth Williams	Yr Is-gadeirydd
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Yn Bresennol	
Laura Jones	Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol
Stuart Keen	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
Emma Lea	Cyfarwyddwr Cynorthwyl, Cynllunio Corfforaethol (rhan o'r cyfarfod)
Phylis Makurunje	Darpar Aelod o'r Bwrdd
Llinos Parry	Rheolwr Rhanbarthol, Maethu Cymru (rhan o'r cyfarfod)
Philippa Peake-Jones	Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Geoff Ryall-Harvey	Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llais, Gogledd Cymru
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol

MATERION RHAGARWEINIOL

26.81 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Aelodau'r Bwrdd, aelodau o'r cyhoedd, a'r rhai a oedd yn gwylio ar-lein i'r cyfarfod. Croesawyd Llinos Parry o Maethu Cymru i'r cyfarfod hefyd.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Paolo Tardivel, Dyfed Jones, Chris Lothian-Field a Justine Parry.



26.82 Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda

Datganodd Fôn Roberts fuddiant ym Maethu Cymru oherwydd y gwasanaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn.

26.83 Cofnodion, heb eu cymeradwyo, o gyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYTUNO** bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026 yn gofnod gwir a chywir yn amodol ar un diwygiad ar dudalen saith mewn perthynas â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol. Gofynnwyd i'r frawddeg gael ei diwygio i ddarllen 'y nod yw lansio *datblygiad* y Cynllun' yn hytrach na 'lansio'r Cynllun'.

Cyfeiriwyd at eitem 26.59 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth y cofnodion gan nodi bod eitem ar Ofal wedi ei Gynllunio wedi cael ei derbyn gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2026.

26.84 Materion yn Codi a Chofnod o'r Camau Gweithredu

Cyflwynwyd y cofnod o'r camau gweithredu i'r aelodau, a nodwyd y cynnydd a wnaed.

Mewn perthynas â chofnodion y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026, tynnwyd sylw at y canlynol:

Eitem 26.54 Adroddiad Cynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig: Cyfeiriwyd at y drafodaeth ynghylch yr arbedion a gyflawnwyd mewn perthynas â **Gwerth a Chynaliadwyedd** a'r cytundeb i wneud hyn yn fwy gweladwy wrth symud ymlaen. Awgrymwyd bod hyn yn dod yn weithred sy'n cael ei holrhain drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth.

Eitem 26.67 Adolygu Effeithiolrwydd Cyfarfodydd: Holwyd a oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud tuag at gytuno ar agenda cydsynio ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd. Cadarnhawyd bod hyn yn cael ei drafod ymhellach gan **Grŵp Cyngori'r Cadeirydd** i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu bod yn fodlon bod y gwaith craffu gofynnol wedi cael ei wneud ar adroddiadau perthnasol ar lefel Pwyllgor a chytunwyd i gynnwys hyn fel cam gweithredu ychwanegol.

Cam Gweithredu:

- **26.84.1** Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth i adolygu sut gellir cyflawni arbedion mewn perthynas â Gwerth a Chynaliadwyedd i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn dod yn fwy gweladwy.
- **26.84.2** Grŵp Cyngori'r Cadeirydd i drafod ymhellach y broses o roi agenda cydsyniad ar waith ar gyfer eitemau perthnasol, gan adrodd o'r Pwyllgorau i'r Bwrdd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **CYTUNO** i gau'r camau gweithredu y cynigiwyd eu cau.



26.85 Eitem Profiad

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu yr eitem profiad a rhannwyd cyflwyniad fideo gyda'r Bwrdd:

- Nodwyd bod y fideo yn cynnwys Uwch Ymarferydd Nyrsio sydd wedi bod yn **Ofalwr Maeth** am y deng mlynedd diwethaf ac mae'n tynnu sylw at yr heriau y gallai staff eu hwynebu wrth ymgymryd â rôl maethu.
- Mae'r stori'n tynnu sylw at rôl bwysig y Bwrdd Iechyd fel un o'r cyflogwyr mwyaf yng ngogledd Cymru i helpu i gynyddu capasiti maethu a chefnogi staff sy'n dymuno bod yn **Ofalwr Maeth**.

Tynnodd Llinos Parry, Rheolwr Rhanbarthol Maethu Cymru, sylw at bwysigrwydd y gwaith:

- Diolchodd Llinos Parry i'r Bwrdd am wahodd diweddariad gan **Maethu Cymru** ac am ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn.
- Mae sefydliadau fel y Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan bwysig o ran cynorthwyo staff i allu helpu pobl ifanc mewn gofal, gan nodi bod angen cynnydd mewn gofalwyr maeth i sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu aros yn agos at ysgolion a chymunedau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael cyfle i ddangos arweinyddiaeth fel sefydliad angor i helpu gofalwyr maeth gan nodi, os caiff y cynnig ei gymeradwyo, y gellir creu perthynas waith agos i droi'r cynnig yn gamau gweithredu.
- Bydd cael cymeradwyaeth gan y Bwrdd Iechyd yn newid bywydau plant lleol a diolchwyd i'r Bwrdd am y gwaith a wnaed gyda **Maethu Cymru** hyd yma.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- NODI**r eitem Profiad.

26.102 Cynnig i ddod yn un o Bartneriaid Maethu Cymru ac yn Gyflogwr sy'n Ystyriol o Faethu

Trafodwyd yr eitem hon yn dilyn yr Eitem Profiad oherwydd perthnasedd y pwnc.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol sylw at y canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd, fel sefydliad angor, mewn sefyllfa dda i wneud ymrwymiad i ddod yn **Bartner Maethu Cymru** ac yn **Gyflogwr sy'n Ystyriol o Faethu** i helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- Mae'r adroddiad wedi dod i law'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a gymeradwyodd y cynnig i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Croesawu'r cynnig a'r angen i fod yn ymwybodol o'r elfennau pwysig sy'n gysylltiedig gan gynnwys y profiadau a wynebwr gan blant, yr ymrwymiad sydd ei angen gan deuluoedd maeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar staff sy'n dymuno ymgymryd â rôl maethu.
- Holi a yw hyn yn cysylltu ag absenoldeb mabwysiadu. Cadarnhawyd bod deddfwriaeth cyflogaeth wedi newid mewn perthynas ag absenoldeb gofalu a bod angen adolygu'r holl bolisiau i sicrhau eu bod yn cefnogi gofalwyr maeth yn llawn.
- Cadarnhau'r angen i annog a chynnig cyfleoedd i staff ddod yn ofalwyr maeth a darparu cymorth gan y byddai hyn yn cynyddu nifer y staff sy'n gallu ymgymryd â rôl maethu, yn

cyfoethogi bywydau plant a phobl ifanc ac yn rhoi modd i ddysgu ar y cyd ddigwydd ar draws y sefydliad.

- Holi sut gallai'r gwaith hwn gysylltu â gwasanaethau eraill ledled gogledd Cymru a chael gwared ar unrhyw rwystyr yn ogystal â'r angen i gostio'r cynnig yn llawn er mwyn galluogi rheolwyr i gefnogi ceisiadau. Cytunwyd y dylai'r gwaith ddatblygu drwy'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn y dyfodol.
- Tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y Bwrdd mewn modd mwy cynhwysfawr, gan nodi bod gan y sefydliad gyfrifoldeb partneriaeth gorfforaethol i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac awgrymu bod hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod gan y Bwrdd ffocws yn y maes hwn.
- Diolchwyd i Barry Graham-Jones, Uwch Ymarferydd Nyrsio, am rannu ei stori ac i Llinos Parry am ymuno â'r cyfarfod a gofynnodd bod y neges gadarnhaol am ymrwymiad y Bwrdd yn cael ei rannu â **Maethu Cymru**.
- Cytunwyd i gefnogi'r argymhellion fel Bwrdd Iechyd.

Cam Gweithredu:

- **26.102.1** Bydd y gwaith i ddatblygu'r Bwrdd Iechyd i fod yn Bartner Maethu Cymru ac yn Gyflogwr sy'n Ystyriol o Faethu yn symud ymlaen drwy'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn y dyfodol.
- **26.10.2.2** Rhagor o waith i'w gwblhau i ddatblygu ffocws ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y Bwrdd mewn modd mwy cynhwysfawr.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **CYMERADWYO'R** bwriad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod yn Bartner Maethu Cymru, sy'n cyd-fynd â Phythefnos Gofal Maeth.
- **NODI** bod dod yn Bartner Maethu Cymru yn adlewyrchu rôl y Bwrdd Iechyd fel Sefydliad Angori, gan gefnogi llesiant plant a phobl ifanc a chyfrannu at gapasiti maethu rhanbarthol ledled gogledd Cymru.
- **NODI** bod gan BIPBC eisoes sylfaen gref drwy fabwysiadu polisïau Gwasanaethau Pobl Cymru Gyfan, sy'n cynnig hyblygrwydd a chefnogaeth i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys gofalmwyr maeth.
- **CEFNOGI** rhagor o waith yn 2026/27, dan arweiniad Pobl a Datblygu Sefydliadol, i symud ymlaen i ennill statws Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu Maethu, gan gynnwys adolygu polisïau perthnasol, canllawiau ategol, ac arferion sefydliadol.
- **CYTUNO** y bydd cynnydd sefydliadol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant er sicrwydd.

26.86 Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Profiadau

Roedd y Bwrdd wedi cael yr adroddiad, a thynnodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg strategol o adborth dinasyddion a chymunedau gan ganolbwyntio ar y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o feysydd sy'n cynnwys rhyngweithio â chleifion, arolygon a thrafodaethau cymunedol.
- Mae'r wybodaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod angen rhagor o gynnydd mewn meysydd fel profiad cleifion ac amodau sy'n ymwneud â **Gofal Brys ac Argyfwng**, amseroedd aros ac oedi ar draws llwybrau cyfan, mynediad at **Ofal Sylfaenol a Deintyddiaeth** yn ogystal ag atal ac ymyrryd.



- Ochr yn ochr â'r materion hyn, mae dinasyddion yn parhau i gydnabod caredigrwydd eithriadol staff, gofal tosturiol, adborth cadarnhaol am wasanaethau a negeseuon o ddiolch i staff.
- Mae'r adroddiad yn dangos sut mae'r adborth a gafwyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer newid ac yn tynnu sylw at y camau sy'n cael eu cymryd a chynlluniau tymor hwy sy'n cael eu rhoi ar waith.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi bod yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn rhoi darlun llawn o brofiadau cleifion gan dynnu sylw at rwystredigaeth a phryder wrth gael gafael ar wasanaethau ond gan gydnabod bodlonrwydd staff sy'n darparu gofal.
- Gofyn i bob pennawd nodi lle mae gwaith yn cael ei ddatblygu drwy raglenni eraill gan gynnwys yr amserlenni disgwylidig ar gyfer cyflawni, i gynorthwyo â gwaith goruchwyllo a nodi unrhyw fwlch. Nodi bod yr awgrym hwn hefyd wedi cael ei godi yn y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau mewn perthynas â llinellau golwg ar draws y Bwrdd Iechyd, ac y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn fersiwn nesaf yr adroddiad ac y bydd yn parhau i esblygu.
- Tynnu sylw at y gwaith rhanbarthol sy'n cael ei wneud gydag **Awdurdodau Lleol** i gryfhau gwaith atal a helpu pobl i fyw'n iachach. Cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid i gynyddu camau ataliol gan nodi y bydd hyn yn cymryd amser i wreiddio, ond mae cynnydd yn cael ei wneud ac mae momentwm yn cynyddu.
- Cwestiynu sut mae'r adborth a gafwyd yn cyfrannu at berfformiad gwell. Cadarnhau bod adborth yn cael ei rannu â thimau unigol ar lefel gwasanaeth a bod gwaith yn cael ei wneud i ganfod problemau, rhoi camau gweithredu ar waith a monitro canlyniadau. Mae gwaith gyda'r **Adrannau Achosion Brys** hefyd yn cael ei wneud ynghylch profiad cleifion.
- Cadarnhau bod angen gwreiddio'r gwaith hwn yn y dyfodol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau arferol er mwyn sicrhau bod newid yn cael ei ddatblygu drwy'r arferion a'r rhaglenni gwaith presennol. Mae angen canolbwyntio'n ddiwyro ar y meysydd lle mae adborth yn tynnu sylw at ddiffyg bodlonrwydd a bydd gofyn i'r Bwrdd fwrw ymlaen â'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI'R** themâu allweddol yn yr adborth gan ddinasyddion.
- **SICRHAU** ei hun bod llais y dinesydd yn llywio penderfyniadau ac amcanion ar lefel sefydliadol a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â gwelliannau gweithredol.

26.87 Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cadeirydd sylw at y canlynol:

- Arweiniodd **etholiadau mis Mai** ar gyfer y **Senedd** at ffurfio llywodraeth newydd, ac mae'r manylion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysbyty Glan Clwyd ddoe gyda **Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal** a oedd yn cynnwys ymweliad â'r **Adran Achosion Brys**, a bydd cyfarfodydd gyda'r **Gweinidogion** ychwanegol yn cael eu cynnal maes o law.
- Erbyn hyn, mae 24 Aelod o'r Senedd ar draws pob plaid wleidyddol yng ngogledd Cymru a bydd gwaith yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol i gynorthwyo â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn etholaethau'r cynrychiolwyr i fynd i'r afael â phryderon trigolion ac ategu'r gwaith ataliol sy'n cael ei wneud.



- Mae dathliadau wedi cael eu cynnal i nodi 25 mlynedd ers recriwtio nyrsys Ffilipino yn y Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod cyfraniad ac ymrwymiad y nyrsys yn eithriadol, gan dynnu sylw at y diwylliant rhyngwladol yn ein gweithlu.
- Cynhaliwyd **Drama Shackleton** yn Nhŷ Llywelyn, Bryn y Neuadd gyda chefnogaeth **Tîm y Celfyddydau mewn Iechyd**, sef prosiect i gynorthwyo trigolion a staff. Mae hyn yn ein hatgoffa o'r cymorth y gall gwasanaethau ei ddarparu mewn perthynas ag **Iechyd a Llesiant** ac mae'n faes gwaith pwysig sy'n sicrhau manteision i gleifion.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cyfeirio at **Gynhadledd Ddigidol GIG Cymru** a holi sut mae'r sefydliad yn cymharu â Byrddau Iechyd a Gwledydd eraill yn y maes hwn. Nodwyd bod angen mwy o eglurder ar sut i symud ymlaen yn y maes hwn. Mae'r **Llywodraeth** newydd yn uchelgeisiol yn y maes hwn ac yn cydnabod bod technoleg ddigidol yn alluogwr allweddol, ond ar hyn o bryd mae Cymru ar ei hôl hi mewn mannau eraill o ran cynnydd digidol. Roedd cyfraniad eraill yn y gynhadledd yn ddefnyddiol a bydd yn rhoi modd o rannu rhai elfennau o wersi a ddysgwyd. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed hyd yma ynghyd o ran uchelgaïs ddigidol y Bwrdd Iechyd, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal momentwm a sbarduno newid yn y maes hwn.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.88 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol:

- Mae **Trefniadau Uwchgyfeirio ac Atebolrwydd GIG Cymru** bellach ar waith gan nodi bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn sefydliad lefel pump, sef y lefel uwchgyfeirio uchaf. Oherwydd y lefelau uwchgyfeirio, mae **Llywodraeth Cymru** wedi cyflwyno Fframwaith Perfformiad sydd wedi cael ei nodi drwy **Adroddiad Grŵp Cyngori'r Gweinidog**.
- Gan fod y sefydliad ar lefel uwchgyfeirio pump ac yn unol â'r trefniadau newydd, bydd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr o **Lywodraeth Cymru**. Cynhaliwyd y **Bwrdd Uwchgyfeirio** cyntaf ar 14 Ebrill 2026, gyda'r cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar gyfer 29 Mai 2026. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd gael gohebiaeth ar ôl y cyfarfod a gynhelir yfory.
- Mae Aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod am yr ohebiaeth mewn perthynas â'r cyfarfodydd hyn ac roedd cyfarfod anffurfiol y Bwrdd yn gyfle i drafod hyn yn fanylach.
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol fod yr **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** bellach yn cynnwys crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfodydd anffurfiol y Bwrdd er mwyn darparu tryloywder a sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes.
- Cynhaliwyd **Digwyddiad Dathlu Arweinwyr Newid Diwylliant** yn ystod mis Ebrill 2026 gan nodi bod tua **200 o Arweinwyr** ar draws y sefydliad erbyn hyn. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod a dathlu'r gwaith hwn, clywed enghreifftiau lleol o welliant, a myfyrio ar sut mae arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol yn cael ei gwreiddio mewn ymarfer, gan nodi'r angen i barhau i gryfhau diwylliant cyson ar draws y sefydliad.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cyfeirio at y gwaith o gymdeithasoli'r **Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol** a'r Cynllun Cyflawni sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar 11 Mehefin 2026. Cytunwyd i estyn gwahoddiad y Pwyllgor i Aelodau'r Bwrdd ar gyfer yr eitem hon.
- Cydnabod y bydd cwblhau'r elfen strwythurau yn cael ei rannu ag Aelodau'r Bwrdd gan nodi y bydd y cyfnod ymgynghori yn rhoi cyfle arall i staff rannu eu safbwyntiau i'w hystyried.



Camau Gweithredu:

- **26.88.1** Y Prif Weithredwr i gyfathrebu ag Aelodau'r Bwrdd ar ôl i'r Bwrdd Uwchgyfeirio gyfarfod ar 29 Mai 2026.
- **26.88.2** Ymestyn y gwahoddiad i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant sy'n cael ei gynnal ar 11 Mehefin 2026 i Aelodau'r Bwrdd ar gyfer yr eitem Sylfeini ar gyfer y Dyfodol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.89 Adroddiad yr Is-gadeirydd

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd yr Is-gadeirydd sylw at y canlynol:

- **Uned Mamau a Babanod Seren yn Ysbyty Iarllles Caer** sydd wedi cael ei chyllido ar y cyd gan GIG Cymru er mwyn darparu gwelyau i famau a babanod o ogledd Cymru. Ymwelodd yr Is-gadeirydd â'r uned sy'n darparu amgylchedd i helpu mamau sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol a nododd hefyd fod y gwasanaeth yn darparu arwyddion a deunyddiau dwyieithog.
- Mae **cyfleuster Optometreg 'Trin a Hyfforddi'** wedi cael ei sefydlu yn **Ysbyty Treffynnon** i hyfforddi optometryddion sy'n gweithio yn y gymuned i gynnig amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol. Diolchwyd i'r rhai sy'n gyrru'r gwaith yn ei flaen.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

EITEMAU STRATEGOL

26.90 Cymunedol o'r Cychwyn

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:

- Mae sgysiau cychwynnol wedi bod yn cael eu cynnal yn y Pwyllgor Gweithredol Anffurfiol a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ynghylch y cyfleoedd i gyflawni yn y gofod cymunedol.
- Mae **Cymunedol o'r Cychwyn** yn rhaglen a gychwynnir yn genedlaethol sy'n cyd-fynd â chyfeiriad polisi hirsefydlog gan **Lywodraeth Cymru** tuag at ofal integredig, ataliol a chymunedol, ac mae'n darparu cyfleoedd sylweddol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal.
- Mae'r egwyddorion sylfaenol yn cynnwys dylunio gwasanaethau gyda chymunedau a gweithio mewn partneriaeth i symud y tu hwnt i ofal sylfaenol a chanolbwyntio ar ddull system gyfan lle mae gweithgarwch wedi ei leoli yn y gymuned yn ddiofyn ac mewn lleoliad aciwt drwy eithriad.
- Bydd ffocws ar symud tuag at **system sy'n cael ei harwain gan lesiant ac atal** i gynorthwyo dinasyddion i gymryd mwy o berchnogaeth dros eu hiechyd.
- Byddai hyn yn rhan o raglen genedlaethol gyda gwahaniaethau rhanbarthol ar draws gogledd Cymru a byddai'n darparu cyfleoedd trawsnewid sylweddol i bartneriaid a darparwyr.
- Bydd angen newid diwylliannol yn y disgwyliad o ran y ddarpariaeth gofal a bydd angen buddsoddi mewn cyfathrebu er mwyn gallu darparu gofal mor agos â phosibl i'r cartref a sicrhau mai dim ond pan fo angen y bydd dinasyddion yn defnyddio gwasanaethau aciwt.
- Roedd y diagram ar dudalen saith yr adroddiad yn tynnu sylw at sut mae **Cymunedol o'r Cychwyn** yn cyd-fynd â **Gofal wedi ei Gynllunio** a **Gofal Brys ac Argyfwng** a ategir gan y **Cynllun Gwasanaethau Clinigol**, gan nodi nad yw hon yn rhaglen waith ar wahân.

- Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gefnogi'r gwaith o fframio'r rhaglen **Cymunedol o'r Cychwyn** fel y fframwaith gweithredu craidd ar gyfer trawsnewid yn y gymuned a darparu ymrwymiad i fabwysiadu persbectif gwahanol i sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cydnabod y daith sydd ei hangen yn y maes hwn ac awgrymu y byddai'n ddefnyddiol gweld y camau o ran ble, sut a phryd y bydd y gwaith hwn yn datblygu gan holi sut bydd hyn yn trosi'n gynnydd dros y 12 mis i ddeng mlynedd nesaf. Cadarnhau bod y tîm yn wyladwrs ynghylch datblygu cynllun ar hyn o bryd gan fod angen trafodaethau pellach gyda phartneriaid i ganfod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn cymunedau a fydd yn rhoi modd i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd sy'n eiddo i bawb sy'n ymwneud â'r maes iechyd hwn.
- Cydnabod bod y Bwrdd Iechyd yn sefydliad angor ac awgrymu bod angen eglurder ynghylch rôl y Bwrdd fel aelodau o'r gymuned.
- Nodi, er mwyn sbarduno newidiadau mewn canlyniadau iechyd, bod angen canolbwyntio ar **atal rhagweithiol ac ymyriadau cynnar** i leihau risgiau rhag cynyddu a datblygu'n broblemau. Mae hyn yn gofyn am gyd-ddylunio gyda chymunedau i helpu i fynd i'r afael ag **anghydraddoldebau iechyd** a chefnogi dull ehangach, anfeddygol o ymdrin ag iechyd sy'n cyd-fynd â'r gwaith sy'n ymwneud â'r **Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal**.
- Cadarnhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch y gweithlu, gan gynnwys lleoliadau recriwtio nyrsys, a gallai'r **rhaglen cymunedol o'r Cychwyn** roi cyfle i aildychmygu dosbarthiad y gweithlu ar draws cymunedau, gan nodi bod angen cynnal gwaith cynllunio gweithlu sylweddol ar gyfer y dyfodol. Cadarnhau y bydd y gwaith darganfod yn hwyluso adolygiad manwl o ofynion adnoddau.
- Tynnu sylw at y ffaith bod y maes gwaith hwn hefyd yn cael sylw yn y **Strategaeth Deng Mlynedd** a'r **rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol**, a nodwyd y bydd angen adnoddau pwrpasol i symud hyn yn ei flaen yn ogystal â pherthynas gref â phartneriaid. Cadarnhau y bydd uwch staff a staff strategol penodol yn cael eu halinio i gyflawni'r rhaglen waith hon.
- Cyfeirio at **Ddangosyddion Perfformiad Allweddol** gan nodi nad yw'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau yn ymwybodol o hyn, ac awgrymwyd bod angen gwneud rhagor o waith ynghylch data a threfniadau adrodd. Cytuno bod rhannu data wedi bod yn broblem ac y bydd mynd i'r afael â hyn yn helpu i ddatblygu **gwasanaethau iechyd a Llesiant** ar gyfer poblogaeth gogledd Cymru.
- Holi a oes gwaith yn cael ei wneud i ddadansoddi'r rhwystrau o ran pam nad yw hyn wedi cael ei hwyluso yn y gorffennol. Cadarnhau bod cynllun wedi ei roi ar waith o'r blaen a bod angen ei adolygu'n fanylach i sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu trosglwyddo i'r rhaglen hon.
- Cydnabod bod y dylanwad a'r effaith fwyaf ar iechyd yn digwydd mewn cymunedau gan nodi'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i ddatblygu gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r faniau Awdioleg a Chardioleg sy'n bresennol mewn cymunedau. Cadarnhau y bydd y gwaith darganfod yn bwysig i nodi pa wasanaethau penodol sydd ar gael ym mha feysydd a'r hyn y gallai fod angen ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Cydnabod y bydd trawsnewid yn y maes hwn yn cymryd amser i'w gyflawni. Mae dysgu clir ar gael o brofiadau blaenorol a bydd angen cytuno ar egwyddorion sy'n cynnig darpariaeth gyson gyda hyblygrwydd o ran cyflwyno a mesurau clir i dynnu sylw at gynnydd. Bydd gwella iechyd y boblogaeth yn cymryd cenhedlaeth ac yn gofyn am uchelgais hirdymor, felly bydd buddsoddi mewn pobl a sgiliau yn hanfodol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI'R** bwriad strategol cryfach, wedi ei lywio gan ymgysylltu a thystiolaeth ar draws y system.



- **CEFNOGI'R** gwaith o fframio Cymunedol o'r Cychwyn fel y fframwaith gweithredu craidd ar gyfer trawsnewid yn y gymuned.
- **CYMERADWYO'R** ffocws ar ganlyniadau, cyd-ddylunio, atal ac integreiddio systemau.
- **CEFNOGI'R** camau nesaf arfaethedig, gan gynnwys blaenoriaethu clir ac arddangos effaith yn gynnar.
- **CYTUNO** y dylai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau arwain y gwaith o oruchwyllo a chyflawni yn unol â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

26.91 Ysbyty Cymunedol Llannerch Banna – Achos dros Newid

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:

- Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch yr angen i gau **Ysbyty Cymunedol Llannerch Banna** dros dro oherwydd pryderon sylweddol a pharhaus ynghylch cynaliadwyedd y gweithlu, diogelwch cleifion a hyfywedd y gwasanaeth.
- Mae adolygiad cynhwysfawr wedi cael ei gynnal sy'n dangos nad yw'r model gwelyau cleifion mewnol yn **Ysbyty Cymunedol Llannerch Banna** bellach yn glinigol ddiogel, yn gynaliadwy nac yn cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth.
- Mae amrywiaeth eang o waith ymgysylltu wedi cael ei wneud, gan gynnwys dwy sesiwn "Ystafell wedi ei Chydbwysu" wedi eu hwyluso'n annibynnol ac ymgysylltu'n ehangach â phreswylwyr, staff, partneriaid yn y trydydd sector, clinigwyr a chynrychiolwyr awdurdodau lleol.
- Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi cyfrannu at ddatblygu tri opsiwn gwasanaeth ymarferol ar gyfer y dyfodol drwy broses agored, gan nodi bod y tri opsiwn amgen arfaethedig a gefnogir yn glinigol i'w hystyried ymhellach wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Mae nifer o gamau nesaf sy'n cynnwys datblygu dogfennau ymgynghori, **cyfnod ymgynghori ffurfiol**, dadansoddiad ôl-ymgynghori a phenderfyniadau gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2026 / dechrau 2027.
- Nododd **Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llais Gogledd Cymru** fod y broses Achos dros Newid wedi cael derbyniad da yn lleol. Mae trigolion wedi gofyn i'r adnodd a ddyrannwyd i Llannerch Banna aros yn yr ardal a byddent yn hoffi cael gwell **gwasanaethau Gofal Sylfaenol** lleol sy'n amlswyddogaethol. Cafodd y gefnogaeth gan **Llais** ei chydabod a'i chroesawu gan y Bwrdd.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cyfeirio at yr ardal lle mae **Ysbyty Cymunedol Llannerch Banna** ac annog holl Aelodau'r Bwrdd i ymweld â'r ardal a dod i ddeall y lleoliad cymunedol gan gynnwys cysylltiadau trafndiaeth.
- Holi a yw cynaliadwyedd wedi bod yn rhan o'r asesiad opsiynau. Cadarnhau ei fod wedi datblygu cyfres o feini prawf y cytunwyd arnynt ac y gellir eu cynnal.
- Tynnu sylw at y ffaith y gallai gweithio o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd yn flaenorol fod yn anodd gan y gallai hyn fod wedi bod yn anghywir, ac awgrymodd fod y gwasanaeth yn cael ei werthuso o amgylch anghenion y boblogaeth, gofynion y gymuned ac alinio'r gwasanaeth i gyfrannu at egwyddorion **Cymunedol o'r Cychwyn** cyn adolygu'r elfen gostio.
- Nodi, gan fod hwn yn faes o newid gwasanaeth, ei fod yn **fater a gedwir yn ôl i'r Bwrdd** felly byddai angen i'r penderfyniad fod yn glir o ran penderfyniad y Bwrdd, a chynigiwyd argymhelliad ychwanegol.
- Cydnabod lefel y manylion sydd wedi ru cynnwys yn y papurau ategol sy'n hanfodol i'r ymgynghoriad a phroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd; gan gynnwys yr asesiadau effaith a'r papurau ategol perthnasol ar gyfer tryloywder.



- Nodi y gallai'r amserlen o ran pryd bydd hyn yn dychwelyd i'r Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniad, fod ym mis Ionawr 2027.
- Cadarnhau bod y Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaeth wedi bod yn goruchwyllo cynnydd yr Achos dros Newid gan nodi'r angen i sicrhau bod y Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r ymgynghoriad ymgysylltu fynd rhagddo yn ogystal â'r angen i symud ymlaen yn gyflym tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Cam Gweithredu:

26.91.1 Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i roi cyngor ar gynnwys argymhelliad ychwanegol gan fod hwn yn fater a gedwir yn ôl i'r Bwrdd a bydd yn cadarnhau gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol pryd bydd yr Achos dros Newid ar gyfer Ysbyty Cymuned Llannerch Banna yn dychwelyd i'r Bwrdd i wneud penderfyniad terfynol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **CYMERADWYO'R** opsiynau arfaethedig at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, gan nodi nad oes unrhyw opsiwn sy'n cael ei ffafrio na phenderfyniad terfynol yn cael ei geisio ar hyn o bryd;
- **CYMERADWYO** dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus a bod canlyniad yr ymgynghoriad wedi ei gynllunio ar gyfer Ionawr 2027 yn unol â'r amserlenni yn yr adroddiad.

PERFFORMIAD INTEGRDIG

26.92 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y canlynol:

- **Llais** oedd wedi darparu **Stori'r Claf** a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ac roedd yn canolbwyntio ar bobl sy'n byw gyda symptomau Deubegynol, gan dynnu sylw at yr angen i ddeall effaith pobl sy'n byw gyda chyflyrau penodol a sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu darparu. Roedd y fideo ar gael drwy'r ddolen yn yr adroddiad a nodwyd y byddai dangosiad cymunedol yn cael ei gynnal yn y Sinema Gymunedol ym Mhorthmadog ar 15 Gorffennaf 2026.
- Mae pwysigrwydd data wedi cael ei godi gan y Pwyllgor ac mae'r adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn dechrau darparu data priodol yn llawnach i'w ystyried.
- Mae'r Pwyllgor yn parhau i gael diweddariadau ar y **Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Gwasanaethau â Heriau** gan nodi lefel yr oruchwyliaeth sy'n cael ei darparu.
- Mae pwysigrwydd **gwasanaethau Cymraeg** wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor ynghyd â'r angen i gynnig gwasanaethau i gleifion yn eu dewis iaith, a chadarnhawyd bod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn goruchwyllo'r gwaith o fonitro'r Gymraeg a Diwylliant fel rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.93 Adroddiad Ansawdd Integredig

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol sylw at y canlynol:

- Mae'r newid mewn deddfwriaeth dan y teitl **Gwrandd ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn y GIG** wedi cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi galluogi mwy o sgysiaid gwrandd, ac estynnwyd llongyfarchiadau i'r

timau mewn meysydd clinigol sy'n hwyluso'r trafodaethau hyn ac yn delio â phryderon heb fod angen proses ffurfiol.

- Mae perfformiad o ran **Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol** yn gadarnhaol gan nodi bod y maes hwn yn cael ei adolygu'n gyson a bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas ag archwiliadau clinigol. Bu mwy o ffocws ar feysydd sydd wedi gweld mwy o ddigwyddiadau ac mae hyn yn cael ei fonitro.
- Mae cynlluniau gweithredu arolygiadau **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** yn dal i fynd rhagddynt, gyda rhai camau gweithredu hwyr angen cael eu monitro'r barhaus. Mae arolygiadau **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** yn cael eu cynnal yn yr **Adran Achosion Brys** yn Ysbyty Glan Clwyd ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn addas i'r diben.
- Mae cynnydd yn parhau o ran sefydlu'r **System Rheoli Ansawdd** ac mae rhagor o waith yn cael ei wneud i wreiddio hyn mewn cynllunio strategol fel busnes fel arfer yn y dyfodol.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cwestiynu sut bydd y **System Rheoli Ansawdd** yn cael ei gwreiddio a beth yw'r problemau o ran adnoddau. Cadarnhau y bydd y gwaith sy'n cael ei wneud o ran cynllunio yn cyfrannu at hyn ac yn helpu i wreiddio'r system. O ran adnoddau, mae rhai gwasanaethau'n llai aeddfed o safbwynt arweinyddiaeth ac felly mae angen cymorth cofleidiol ychwanegol, sy'n cael ei ddarparu.
- Awgrymu bod yr adroddiad yn cynnwys mwy o wybodaeth am y broses yn hytrach nag effaith a chamau gweithredu sy'n codi rhai heriau o ran camau gweithredu hwyr, a gofynnwyd am ragor o sicrwydd yn y maes hwn. Cadarnhau bod archwiliadau dwfn yn cael eu cynnal i themâu penodol a bod hyn yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ac yn cysylltu â'r Bwrdd drwy Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd. Mae angen cydbwysu hyd yr adroddiad â faint o ddata sydd wedi ei gynnwys. Mae prosesau ar waith i gwblhau'r camau gweithredu sy'n ofynnol ac mae'r timau'n gweithio i wreiddio'r camau gweithredu hyn.
- Cadarnhau bod archwiliadau **Arolygiaeth Iechyd Cymru** sy'n cael eu cynnal yn yr **Adran Achosion Brys** yn Ysbyty Glan Clwyd yn hanfodol, ac yn dilyn yr arolygiad bydd cyflwyniad yn cael ei ddarparu gyda chynllun gweithredu diwygiedig i'w asesu ar unwaith a bydd hyn yn cael ei rannu ag Aelodau'r Bwrdd a'i oruchwylio gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Cadarnhau hefyd, unwaith y bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd, y bydd angen i'r Bwrdd gael sicrwydd ynghylch yr ymateb a ddarperir a'r gwelliannau sydd eu hangen gan fod **Gofal Brys ac Argyfwng** yn faes blaenoriaeth sy'n peri pryder i'r Bwrdd Iechyd.
- Cyfeirio at gwynion ynghylch agwedd ac ymddygiad a chadarnhawyd bod cwynion o'r math hwn yn cael sylw fel mater o drefn. Darperir cymorth i'r timau perthnasol ac mae gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r **rhaglen Hyrwyddwyr Diwylliant**.
- Tynnu sylw at fenter diogelwch cleifion **Call4Concern** yng Nghymru, sy'n ddewis amgen i Reol Martha yn Lloegr. Cadarnhau bod hyn yn cael ei weithredu yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru, gan nodi bod yr amserlenni yng Nghymru yn wahanol i'r rhai yn Lloegr.
- Nodi bod gwaith yn mynd rhagddo o ran dysgu a gwreiddio newid diwylliant gan nodi bod angen integreiddio hyn yn llawn ar draws y sefydliad. Bydd **rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol** yn cynorthwyo â'r maes gwaith hwn ac yn galluogi rheolwyr i gael amser gyda'i gilydd i fyfyr. Mae hyn hefyd wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio ynghylch sut gellir gwreiddio'r maes gwaith hwn yn ymarferol a bydd yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Blyneddol.

Cam Gweithredu:



- **26.93.1** Rhannu'r cyflwyniad i Arolygiaeth Iechyd Cymru mewn ymateb i'r arolygiad yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd ag Aelodau'r Bwrdd ar ôl ei gwblhau.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **CAEL SICRWYDD** o'r adroddiad, gan nodi bod yr holl eithriadau yn yr adroddiad yn cael eu monitro a bod ganddynt gynlluniau rheoli i olrhain y gwaith o'u cwblhau.
- **NODI** bod y cynlluniau gweithredu yn cael eu holrhain drwy fforymau ansawdd craidd.

26.94 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys ac Argyfwng

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:

- Mae tôn yr adroddiad yn adlewyrchu lefel y pryder sy'n parhau fel Bwrdd Iechyd ynghylch **Gofal Brys ac Argyfwng** o ran amseroedd trosglwyddo ambiwlansys, nifer y bobl sy'n symud drwy'r adran a faint o amser mae pobl yn aros.
- Mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r **Tim Ymyrraeth a Chymorth** ar lif a thagfeydd, a bydd y canfyddiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y **Cynlluniau Gwella Gweithredol 90 diwrnod** sy'n cael eu datblygu gyda chymorth gan y Cynghorydd Gwella.
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'r pwrpas cyffredin o gyfeirio pobl at y gwasanaeth cywir.
- Mae sgysiau rhagweithiol yn cael eu cynnal gydag **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwls Cymru** ynghylch sut i reoli cleifion yn y cymunedau er mwyn osgoi dod â phobl i mewn drwy'r **Adrannau Achosion Brys**.
- Mae rhai gwelliannau'n cael eu gwneud, yn enwedig yn Ysbyty Maelor Wrecsam, ac mae gwaith yn cael ei wneud o amgylch disgyblaethau ar y safle ar gyfer nifer yr ambiwlansys sy'n aros y tu allan.
- Mae problemau sylweddol yn Ysbyty Glan Clwyd ac mae angen deall pam mae perfformiad yn amrywio bob dydd a mynd i'r afael â'r meysydd hyn sy'n peri pryder.
- Mae angen defnyddio gofod a staff, nodi adnoddau pwrpasol i sbarduno gwelliannau a sicrhau ffocws ar ddiogelwch, profiad a chanlyniadau i gleifion gan nodi bod y maes gwaith hwn yn cyd-fynd â'r **rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn**.
- Mae hefyd angen cydnabod yr amodau gwaith heriol mewn **Adrannau Achosion Brys** a darparu cymorth priodol i sicrhau bod staff yn gallu gweithio'n effeithiol.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cadarnhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau wedi derbyn yr adroddiad gan fod hwn yn faes gwasanaeth hanfodol a holwyd sut gall staff reoli'r gwasanaeth bob dydd ar yr un pryd â cheisio galluogi gwelliannau parhaus hirdymor. Cadarnhau bod hyn yn cydblethu â darpariaeth glinigol a gweithredol. Mae newidiadau graddol yn cael eu gwneud, ond mae diogelwch cleifion yn brif faes ffocws ac mae angen symud ymlaen gyda gwelliannau sy'n cael effaith uniongyrchol yn y maes hwn.
- Cyfeirio at weithdy a gynhaliwyd gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol lle cynhaliwyd trafodaethau ynghylch prosesau cymhleth a oedd yn ymestyn arosiadau ysbyty tra bod cleifion yn aros am gynlluniau gofal. Awgrymu y gallai fod angen lefel gymesur o risg er mwyn gallu rhyddhau cyn i gynlluniau gofal gael eu cwblhau. Cadarnhau bod angen cynorthwyo ymarferwyr i wneud penderfyniadau a rheoli risg. Mae hyn yn seiliedig ar ddiwylliant, ac mae angen cymorth ychwanegol.
- Nodi'r angen i adolygu'r dull system gyfan, sicrhau bod uwch benderfynwyr ar gael wrth y drws ffrynt a hwyluso proses ar draws y Bwrdd Iechyd i ddechrau mynd i'r afael â'r mater hwn.



- Holi pa gamau gweithredu fydd yn deillio o'r **Cynlluniau Gwella Gweithredol 90 diwrnod**. Cadarnhau y bydd y cynlluniau'n canolbwyntio ar gyflawni, gan gynnwys ailgyfeirio cleifion yn fewnol ac yn allanol lle bo angen. Pwysleisio pwysigrwydd nodi'n glir y camau gweithredu, yr amserlenni a'r effaith ddisgwyliedig.
- Cyfeirio at **Achos Busnes yr Adran Achosion Brys** a'r angen i fwrw ymlaen â swyddi parhaol a buddsoddi mewn staff. Cadarnhau y disgwylir hyn cyn bo hir ac y bydd yn galluogi mynd i'r afael â materion staffio gan nodi bod yr heriau ariannol wedi cael eu hamlygu i **Weinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal**.
- Holi a ddylai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad oruchwylio'r gwaith hwn gan fod **Gofal Brys ac Argyfwng** hefyd yn hanfodol i feysydd gwaith eraill. Cadarnhau bod gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad rôl i fonitro cynnydd o ran gwelliannau a chanolbwyntio ar ddiogelwch, ac mae gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth rôl i olrhain cynnydd y cynllun gan nodi ei bod yn ofynnol i'r ddau Bwyllgor roi sicrwydd yn ôl i'r Bwrdd.
- Gofyn i **Achos Busnes yr Adran Achosion Brys** gael ei gwblhau. Bydd adroddiad ar weithredu'r **Cynlluniau Gwella Gweithredol 90 diwrnod** yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2026 a bydd y Pwyllgorau perthnasol yn rhoi sicrwydd ynghylch y trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal mewn perthynas â **Gofal Brys ac Argyfwng**.

Cam Gweithredu:

- 26.94.1** Yr adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2026 i gadarnhau'r cynnydd o ran cwblhau Achos Busnes yr Adran Achosion Brys, gweithredu'r Cynlluniau Gwella Gweithredol 90 diwrnod a rhoi sicrwydd ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- NODI'R** sefyllfa risg a pherfformiad ar hyn o bryd.
- CEFNOGI'R** angen i weithredu'n gyflymach ar draws y system ar lif a rhyddhau.
- CADARNHAU'R** angen i gryfhau atebolrwydd gweithredol ar lefel safle a system.
- PARHAU I GANOLBWYNTIO** ar gyflawni gwelliannau mesuradwy dros y 90 diwrnod nesaf.

26.95 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y canlynol:

- Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Pwyllgor Gweithredol uwchgyfeirio data ar gynhyrchiant theatrau o fewn adroddiadau perfformiad gan nad oes tystiolaeth o newid cadarnhaol ac mae'r data hwn yn gofyn am rôl fwy amlwg wrth adrodd. Cadarnhawyd bod sesiwn uwch arweinwyr wedi cael ei chynnal i drafod cynhyrchiant a'r meysydd ffocws sydd eu hangen, gan nodi bod angen cymorth ychwanegol i wneud gwelliannau yn y maes hwn.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.96 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:



- Mae arddull yr adroddiad yn cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd, bydd drafft yn cael ei rannu yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth nesaf a bydd yn dod yn ôl i'r Bwrdd maes o law gan nodi y bydd copi o'r drafft yn cael ei rannu ag Aelod o'r Bwrdd ymlaen llaw i gael sylwadau arno.
- Mewn perthynas â'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, rhoddwyd sicrwydd bod llesiant staff yn parhau i fod yn faes ffocws a bydd **Adroddiad Sefyllfa Sefydliadol ar Lesiant Staff** yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant nesaf a gynhelir ym mis Mehefin 2026.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cwestiynu'r gyfradd o 7% o Feddygon Teulu sy'n atgyfeirio achosion brys lle'r amheuir cancer. Cadarnhawyd bod hon yn ganran gadarnhaol gan fod y llwybr wedi ei gynllunio i fod tua 5% neu lai. Mae angen cydbwysu capasiti brys a rheolaidd gan nodi bod llwybrau Cancer yn wahanol wrth i gleifion symud rhwng categorïau ar y llwybr.
- Nodi bod cyfradd canslo apwyntiadau wedi dirywio a holwyd a oes angen mynd i'r afael â hyn. Cadarnhawyd bod cleifion yn canslo am nifer o resymau a bod ymyriadau ar waith. Nodwyd hefyd bod gwaith manwl yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd i nodi elfennau o ddirwyd a datrys.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.97 Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig 2026-2029

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol:

- Mae nifer o sgysiau wedi cael eu cynnal mewn perthynas â thaith y Bwrdd Iechyd i ddod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda gyda'r systemau a'r prosesau perthnasol ar waith, ac mae **Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig 2026-2029** yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o feysydd.
- Cafodd y ddogfen ei hystyried ar ffurf drafft yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Mawrth 2026 ac mae'r sylwadau a rannwyd wedi cael eu hystyried gan nodi bod y ddogfen wedi cael ei diwygio i ddangos y cydbwysedd yn gliriach.
- Os caiff y ddogfen ei chymeradwyo, y cam nesaf fydd cynnal asesiad cychwynnol o wasanaethau a chyfarwyddwyr mewn perthynas â meysydd gan gynnwys diwylliant, cyllid, cynhyrchiant, llywodraethu a risg, a bydd asesiad o'r ddarpariaeth yn cael ei gwblhau.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Croesawu'r newidiadau a wnaed a nodi'r angen i weithredu ac adolygu yn unol â'r rheolaethau.
- Holi pa ddadansoddiad sydd wedi ei gwblhau mewn perthynas â'r rhwystrau a sut mae hyn yn wahanol i brosesau blaenorol. Cadarnhawyd bod y Fframwaith yn helpu i nodi pam nad yw gwasanaethau'n perfformio'n dda a lle mae problemau. Y nod yw cyrraedd sefyllfa lle mae gan staff ymreolaeth ac atebolrwydd uchel ac mae'r Fframwaith yn cefnogi timau i fynd i'r afael â pherfformiad a'i wella.
- Nodi'r angen i'r dull hwn at taith wella'r Bwrdd Iechyd gan roi modd i adolygu cynnydd yn y dyfodol.
- Cadarnhau, wrth i waith gael ei wneud ar weithredu'r Fframwaith, y bydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn goruchwyllo'r cynnydd ac yn adrodd i'r Bwrdd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:



- **CYMERADWYO** Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig 2026-2029 i'w roi ar waith.

26.98 Adroddiad Cyllid

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Mae'r sefyllfa wreiddiol o ddiffyg, sef £17.3 miliwn ar gyfer 2025/26, wedi cael ei hailddarogan i sefyllfa o £17.4 miliwn. Mae'r Archwilwyr Allanol wrthi'n cwblhau eu hasesiad ar hyn o bryd a bydd y canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Mehefin 2026 a'r Bwrdd Iechyd ar 25 Mehefin 2026 i gymeradwyo'r cyfrifon.
- Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun diffyg sy'n werth cyfanswm o £43 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. Mewn perthynas â mis un, mae diffyg o £5.4 miliwn yn ystod y mis sy'n £1.8 miliwn er gwaeth o'i gymharu â diffyg y cynllun ariannol a broffiliwyd ar gyfer Mis 1, sef £3.6 miliwn.
- Mae'r sefyllfa niweidiol yn adlewyrchu £3.2 miliwn o ddiffyg o ran cyflawni arbedion am y mis, wedi ei liniaru'n rhannol drwy barhau i ddefnyddio'r mesurau gwell o ran gafael a rheoli, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r mesurau sydd ar waith.
- Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun adfer ariannol a fydd yn canolbwyntio ar elfennau perfformiad ac yn cyd-fynd â rheolaethau **Llywodraeth Cymru**, a bydd hyn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi'r sefyllfa bresennol a'r diffyg o ran cyflawni arbedion. Cadarnhawyd, os penderfynir ar broffil i gyflawni arbedion, y gallai rhai o'r arbedion hynny ddod ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac y bydd angen ailbroffilio wrth i ni symud ymlaen. Mae'n hanfodol cael darlun clir o'r rhagamcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan.
- Tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa ariannol yn anodd ledled Cymru ac y bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau anodd. Bydd angen defnyddio cyllid ac adnoddau'n fwy effeithiol ac awgrymir darparu rhagor o fanylion i'r Bwrdd oherwydd arwyddocâd yr her.

Cam Gweithredu:

- **26.98.1** Darparu rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol i'r Bwrdd oherwydd arwyddocâd yr her.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **DERBYN SICRWYDD** ar gynnwys yr adroddiad.

26.99 Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2025/26 - Adroddiad Cynnydd a Rhaglenni Allweddol Chwarter 4

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Corfforaethol Dros Dro sylw at y canlynol:

- Mae'r eitem yn cynnwys dau adroddiad sy'n tynnu sylw at gynnydd o ran y **Cynllun Cyflawni Blynnyddol** a'r **Rhaglenni Allweddol**. Nid oedd Atodiad 2 wedi ei gynnwys yn y papurau ond bydd ar gael gan ei fod yn crynhoi'r elfennau na chawsant eu cyflawni.
- Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gymysg, mae'r adroddiad yn dangos gwell darpariaeth ac effaith o ran camau galluogi, ond nid yw'r perfformiad wedi cyrraedd y lefel ofynnol.



- Mae amrywiad o ran cyflawni yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd a gwella gwasanaethau, gan gynnwys rhai heriau sy'n ymwneud â chyfyngiadau, ac mae uchelgais cynllun 2025/26 wedi cael ei adlewyrchu yn y 140 o elfennau i'w cyflawni nad ydynt wedi cael eu cyflawni.
- Mae cynnydd wedi bod o ran gwasanaethau rheng flaen a darparu, **lechyd Menywod a Gwasanaethau lechyd Meddwl i Oedolion** sydd wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n aros yn hir.
- Ni wnaeth **Gofal wedi ei Gynllunio** gyrraedd y targedau a osodwyd ac mae heriau sylweddol o hyd o ran y galw a'r capasiti. Fodd bynnag, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn rhai meysydd ac mae gwaith yn cael ei wneud i driongli a chydbwysu gwasanaethau.
- O ran y **Rhaglenni Allweddol**, mae'r **system Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau'n Electronig (EPMA)**, y **Prosiect System Gwybodeg Radioleg (RISP)** a'r **System Mamolaeth Ddigidol** i gyd wedi cael eu rhoi ar waith, ond mae oedi a materion technegol cenedlaethol wedi effeithio ar y **Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR)** a'r **System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS)**.
- Mae gwaith yn parhau i ddatblygu **Ysbyty Brenhinol Alexandra a Chanolfan Iechyd Waunfawr** gan nodi bod y **Ganolfan Gofal wedi ei Gynllunio yn Llandudno** wedi dioddef oedi pellach oherwydd gwaith gyda chyflenwyr.
- Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud gyda'r **Hybiau Iechyd a Llesiant** ac mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r rhaglen **Cymunedol o'r Cychwyn**.
- Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd cryf mewn meysydd lle mae gan y sefydliad reolaeth gan nodi bod lefel y cynnydd yn anoddach lle mae ffactorau allanol ac mae angen canolbwyntio ar gyflymder a graddfa.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Tynnu sylw at y ffaith bod yr adroddiadau wedi dod i law'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, gan nodi'r angen am ymwybyddiaeth o uchelgais yn erbyn y gallu i gyflawni, gan awgrymu y bydd angen addasu targedau o bosibl i sicrhau cynnydd mwy cadarnhaol sy'n cael ei wreiddio a'i gynnal.
- Codi pryderon ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael y **Cofnod Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl**. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod hyn wedi cael ei godi'n uniongyrchol gyda'r **Gweinidog** ddod. Mae **Llywodraeth Cymru** yn ymwybodol o'r amserlen a'r goblygiadau a bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
- Holi a oedd yr elfennau gwreiddiol i'w cyflawni yn gywir. Cadarnhawyd bod yr elfennau i'w cyflawni yn cynnwys amrywiaeth eang o **ddisgwyliadau Gweinidogol** gan nodi bod y Bwrdd Iechyd ar lefel uwchgyfeirio pump a bod y sefyllfa bresennol yn heriol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **DERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26 a nodi'r sefyllfa o ran cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn wrth edrych ar Gynllun Cyflawni Blyneddol 2025/26.
- **NODI** y bydd y gwaith i adolygu'r broses Rheoli Newid yn cael ei wneud yn unol ag adrodd ar y Cynllun Cyflawni Blyneddol.
- **NODI'R** diweddariad ynghylch cynnydd yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys rhai cyflawniadau nodedig, tra hefyd yn cael gwybod am rai heriau sy'n dal i beri pryder ac a oedd wedi atal y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau rhag cael sicrwydd llawn.
- **CYTUNO** i integreiddio adroddiadau yn y dyfodol i'r Cynllun Cyflawni Blyneddol er mwyn sicrhau mwy o synergedd a llai o ddyblygu.



LLYWODRAETHIANT, RISG A SICRWYDD

26.100 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Archwilio

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw at y canlynol:

- Mae argymhelliad yr archwiliad i gau yn dal yn anghyson ac mae angen i Gyfarwyddwyr Gweithredol fynd ar drywydd argymhellion i'w cwblhau. Mae'r mater hwn wedi cael ei uwchgyfeirio at y Prif Weithredwr a bydd yn cael sylw er dibenion sicrwydd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.101 Adroddiad ar Arolwg Staff GIG Cymru 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn rhoi manylion canfyddiadau **Arolwg Staff 2025** a aeth yn fyw rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025.
- Mae'r data ansoddol a meintiol wedi dod i law, ond nid yw **adroddiad lechyd a Gofal Digidol Cymru** wedi cael ei rannu eto.
- Mae'r prif ganfyddiadau'n tynnu sylw at gyfradd ymateb gyffredinol o 24.9% sy'n welliant ar y blynyddoedd blaenorol.
- Tynnir sylw at yr ymgysylltiad staff a gwblhawyd yn yr adroddiad, a chyflawnodd y Bwrdd lechyd sgôr uwch na chyfartaledd Bwrdd Iechyd GIG Cymru yn elfen (cymhelliant) ymgysylltu seicolegol cynhenid y Mynegai Ymgysylltu â Staff.
- Yn yr adroddiad, tynnir sylw at y sgoriau cadarnhaol fesul thema a nodir bod y rhain wedi dirywio mewn rhai meysydd, ond cadarnhawyd bod cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith.
- Tynnir sylw at y camau nesaf manwl yn yr adroddiad a bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn adrodd ar gynnydd.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cwestiynu'r cyfeiriad at y Pwyllgorau Pobl a Diwylliant Lleol, a chadarnhawyd bod gan y Cymunedau Iechyd Integredig Bwyllgorau unigol tebyg i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant lle mae materion yn cael eu trafod ac yn cael sylw. Mae Grŵp Cyflawni Gweithredol Pobl a Diwylliant yn cael ei ddatblygu i gryfhau llywodraethu yn y maes hwn.
- Nodi'r cynnydd yn y gyfradd ymateb ac awgrymwyd bod angen annog staff i ymgysylltu â'r sefydliad. Cadarnhawyd bod y gyfradd ymateb o 24.9% yn welliant ac wrth symud ymlaen, mae angen sicrhau bod staff yn teimlo bod gwahaniaeth yn cael ei wneud o ganlyniad i lenwi'r **Arolwg Staff**.
- Nodi'r farn am dosturi a diwylliant a chwestiynwyd y gwaith sydd ei angen i hyrwyddo **Codi Llais Heb Ofn** yn ehangach ar draws y sefydliad. Awgrymwyd y bydd gwella rheolaeth ac arweinyddiaeth ansawdd yn gwella profiad staff ac yn galluogi pobl i **Godi Llais Heb Ofn** yn ôl yr angen. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r **Fframwaith Rheoli Perfformiad**.
- Dweud mai Aelodau'r Bwrdd sy'n arwain y sefydliad a gofyn i **werthoedd ac ymddygiad** gael eu hadlewyrchu a'u rhaeadu o fewn timau i fwrw ymlaen â'r elfen hon o'r gwaith.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI A THRAFOD** canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2025.
- **CEFNOGI'R** camau nesaf sydd wedi eu cynllunio.



26.103 Fframwaith Sicrwydd Comisiynu

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Pwrpas y **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu** yw rhoi cyfarwyddyd wrth osod contractau allanol ar gyfer darpariaeth y GIG, gan gryfhau'r gwaith o oruchwylio contractau'r Bwrdd Iechyd.
- Bydd cam cyntaf y gweithredu'n canolbwyntio ar ofal iechyd y GIG i'r GIG a threfniadau gofal wedi ei gynllunio yn y sector annibynnol. Er bod prosesau ar waith i oruchwylio'r sector gofal, bydd y rhain yn cael eu cryfhau ymhellach ac yn cyd-fynd â'r **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu** yn y dyfodol.
- Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn goruchwylio'r gwaith o weithredu, sgorio asesiadau ac uwchgyfeirio darparwyr. Bydd Grŵp Comisiynu a Chontractio yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith manwl a bydd y Pwyllgor Gweithredol yn adrodd ar berfformiad i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Pan fydd materion ansawdd penodol, bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.
- Mae sgiliau comisiynu ac arbenigedd y sefydliad wedi bod yn llai aeddfed na'r hyn a ddisgwyllir gan Fwrdd Iechyd Integredig, felly bydd y **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu** yn dechrau meithrin arbenigedd comisiynu a chontractio'r sefydliad.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi'r angen am eglurder o ran a yw'r ffocws ar contractau ynteu dod yn sefydliad comisiynu. Cadarnhawyd mai'r flaenoriaeth gyntaf yw sicrhau bod contractau cyfredol yn gweithredu'n effeithiol, gyda chomisiynu strategol yn cael ei ddatblygu dros amser.
- Nodi bod gwaith yn cael ei wneud gan y timau i ategu'r gwaith o oruchwylio contractau a darparu goruchwyliaeth o safon a fydd wedyn yn darparu sylfaen i adeiladu arni.
- Cyfeirio at y **trydydd sector** a'r angen i feithrin cysylltiadau hirdymor yn ogystal â chydabod ffiniau sefydliadol. Mae gwaith yn cael ei wneud i sefydlu cytundebau tymor hwy ac mae digwyddiad i fod i gael ei gynnal gyda'r **trydydd sector** a fydd yn helpu i adeiladu ar y dull gweithredu hwn.
- Tynnu sylw at yr angen am fanyleb glir ar gyfer darpariaeth glinigol a fydd yn rhoi eglurder ynghylch contractio ar lefel fwy strategol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **CYMERADWYO'R** Fframwaith Sicrwydd Comisiynu.
- **CYMERADWYO'R** trefniadau llywodraethu ac adrodd arfaethedig.
- **CEFNOGI'R** dull gweithredu fesul cam.
- **NODI** y bydd Cynllun Gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu i'r Pwyllgor Gweithredol ei oruchwylio.
- **CYTUNO** y bydd adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal 12 mis ar ôl gweithredu.

26.104 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:



- Mae'r adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgorau ac mae'n rhoi trosolwg cyfunol o'r sefyllfa bresennol.
- Mae cynnydd o ran y cynllun yn dangos lefel gymysg o gyflawni ac roedd yr adborth gan Bwyllgorau yn awgrymu bod angen cryfhau'r goblygiadau allweddol er mwyn rhoi sicrwydd.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i fapio'r holl gamau gweithredu presennol, ac sydd heb eu cwblhau, i'r pedwar **Bwriad Strategol** fel rhan o'r gwaith o ddatblygu **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** ar ei newydd wedd ar gyfer 2026–2029 wedi ei alinio â'r **Cynllun Tymor Canolig Integredig**.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi'r lefel isel o gyflawni sy'n awgrymu bod angen i'r Bwrdd arwain yn y maes hwn. Cadarnhawyd bod hyn wedi cael ei drafod gyda chydweithwyr ynghylch perchenogi lefel y risg ar y cyd. Mae archwiliadau manwl wedi cael eu cynnal yn y Pwyllgor Gweithredol a bydd fersiwn nesaf **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** yn rhoi amlinelliad cliriach o lefel y risg.
- Cadarnhau bod gwaith yn cael ei wneud i gomisiynu cymorth allanol i weithio gyda'r Bwrdd ar amrywiaeth o elfennau gan gynnwys risg, a bydd **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** yn datblygu ymhellach drwy'r **rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol**.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI'R** adborth gan Bwyllgorau yn dilyn eu hadolygiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma ar yr un pryd â thynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder, dyfnder a chymorth tystiolaethol wrth ddisgrifio camau gweithredu a chynnydd;
- **CYMERADWYO'R** broses o gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2026/27, gan ganolbwyntio'n glir ar sicrhau bod camau gweithredu yn benodol, yn fesuradwy ac yn gysylltiedig â chanlyniadau amlwg sy'n cefnogi sicrwydd cadarn;
- **CYTUNO** bod trefniadau adrodd gwell yn cael eu datblygu i ddarparu tystiolaeth gliriach o gyflawni, gan gynnwys cyfleu'n well sut mae camau gweithredu'n lliniaru risg ac yn cryfhau sicrwydd i'r Bwrdd;
- **CEFNOGI** rôl y Pwyllgor Archwilio o ran goruchwyllo a chraffu'n gryfach ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gynnwys adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd camau gweithredu'n rheolaidd a'r dystiolaeth sy'n sail i sicrwydd; a
- **GOFYN** i gynnydd yn erbyn y gwelliannau hyn gael ei adrodd i'r Bwrdd drwy'r strwythur pwyllgorau y cytunwyd arno, gan alluogi goruchwyliaeth a sicrwydd parhaus o ran cyflawni.
- **RHOI SYLW** ar y pedair prif risg arfaethedig sydd wedi cael eu datblygu i'w cynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd newydd gael ei ddiweddarau, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y sefydliad a meysydd allweddol o ran dod i gysylltiad â risg.

26.105 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o **gamau gweithredu i'r Cadeirydd** sydd wedi cynyddu o ran nifer. Mae mecanwaith ar waith yn awr i olrhain **camau gweithredu'r Cadeirydd** ac ymgorffori'r rhain mewn prosesau llywodraethu.
- Mae'r crynodeb o'r busnes a drafodwyd yn y sesiwn breifat yn awr yn cynnwys y rhesymeg dros drafod eitemau'n breifat, a bydd hyn yn rhan o'r broses ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn y dyfodol.
- Mae angen i **Fframwaith Llywodraethu diwygiedig Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.



- Cynhaliwyd sesiwn Bwrdd anffurfiol ddiwedd mis Ebrill 2026 ac mae'r meysydd allweddol a ystyriwyd wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Mae diweddariad ar yr **ymchwiliad Covid** hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Mae'r gwersi i'w dysgu'n cael eu mapio a bydd adroddiad yn cael ei rannu â'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2026.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a'r cynnydd a wnaed o ran cryfhau trefniadau llywodraethu.
- **CADARNHAU** Camau Gweithredu'r Cadeirydd a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf.
- **NODI'R** penderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat a gosod y Sêl Gyffredin.
- **CADARNHAU** cymeradwyaethau o ran Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yn unol â gofynion cenedlaethol.
- **NODI'R** sicrwydd a ddarperir drwy Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
- **CYMERADWYO** Fframwaith Llywodraethu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, wedi ei ddiweddarau, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y Cyd-bwyllgor).
- **CYMERADWYO** datblygiad parhaus effeithiolrwydd y Bwrdd, gan gynnwys gweithredu rhaglen ddatblygu'r Bwrdd ac ymweliadau'r Bwrdd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- **CEFNOGI** meysydd i'w gwella a nodwyd sy'n deillio o Hunanasesiad y Bwrdd, yn enwedig cryfhau cynaliadwyedd arweinyddiaeth weithredol, mireinio ffocws strategol a symleiddio adroddiadau'r Bwrdd.
- **CYDNABOD** yr angen am ffocws parhaus ar gryfhau sicrwydd, gan gynnwys cyfleu camau gweithredu'n gliriach ac effaith amlwg mewn fframweithiau llywodraethu a risg allweddol.

26.106 Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cyngori:

Cyflwynwyd Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cyngori canlynol i'r Bwrdd ac fe'u derbyniwyd:

- Pwyllgor Taliadau, Dyfed Edwards
- Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, Clare Budden
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Dyfed Jones
- Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Gareth Williams
- Fforwm Partneriaeth Lleol, Carol Shillabeer
- Pwyllgor Gweithredol, Carol Shillabeer

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y gwelliannau a wnaed mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a mynegodd ddiolch i'r tîm am y gwaith a gwblhawyd yn y maes hwn.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **DERBYN** yr adroddiadau ac wedi eu NODI.

ADRODDIADAU BLYNYDDOL/ DWY WAITH Y FLWYDDYN

26.107 Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Lefelau Staff Nyrsio Mai 2026

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth sylw at y canlynol:



- Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio â **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)** y mae gofyn adrodd ar y mater hwnnw ddwywaith y flwyddyn. Rhoddir sicrwydd hefyd bod asesiadau wedi cael eu cynnal yn unol â'r lefelau staff nyrsio ym mhob ward sy'n dod o dan Adran 25B o'r Ddeddf.
- Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'r codiadau y gofynnwyd amdanynt, a daethpwyd i gytundeb ynghylch y penderfyniadau a wnaed.
- Mae'r adroddiad wedi cael ei rannu â'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau er mwyn craffu arno, a bydd y wardiau nad ydynt yn dod o dan Adran 25B yn cael eu hadolygu yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad nesaf.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI'R** risgiau a amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â niferoedd staff nyrsio heb eu hariannu a chapasiti uwchgyfeirio parhaus, a chytuno bod y rhain yn parhau i gael eu goruchwyllo'n weithredol gan y Bwrdd drwy'r gofrestr risg gorfforaethol.
- **CYMRYD SICRWYDD**, yn seiliedig ar yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol a'r atodiadau cysylltiedig, bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd camau rhesymol i'w cynnal ym mhob ward Adran 25B, gan gydnabod y cyfyngiadau presennol rhag cael sicrwydd llawn.
- **CEFNOGI'R** camau gweithredu a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol, gan gynnwys y rhai sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â risgiau staffio, gweithredol ac ariannol a nodwyd.

26.108 Adroddiad Blynyddol Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol sylw at y canlynol:

- Craffwyd yn fanwl ar yr adroddiad yn y Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.
- Mae gofyniad statudol i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo'r adroddiad blynyddol oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn ymatebydd Categori 1.
- Mae cynlluniau ar waith i gynnal parhad busnes yn ogystal â'r gallu i ymateb i'r digwyddiadau sifil posibl.
- Mae'r **Tîm Ymateb, Cydnerthedd a Pharodrwydd am Argyfwng** wedi gwneud cynnydd helaeth i sicrhau bod y gwaith sylfaen wedi cael ei gwblhau a bod y Bwrdd Iechyd yn gallu ymateb i ddigwyddiad mawr.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn **CYNORTHWYO'R** Tîm Parodrwydd am Argyfyngau, Ymateb a Chydnerthedd i wneud y canlynol:

- Gweithio gyda Chymunedau Iechyd Integredig i gael rhagor o dystiolaeth i sicrhau bod cynlluniau parhad busnes a threfniadau ategol yn cael eu hadolygu, eu cynnal a'u gwreiddio'n barhaus yng ngofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a safonau / canllawiau cyson, a bod y gwersi a ddysgir o ddigwyddiadau ac ymarferion yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau hyn.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau, Cydnerthedd ac Ymateb ar draws y Bwrdd Iechyd a gyda'n hasiantaethau partner.
- Parhau i gydlyn cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd yn is-grwpiau Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd.
- Sicrhau bod staff Strategol a Thactegol ar-alwad yn mynychu hyfforddiant angenrheidiol ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymarfer.



MATERION I GLOI

26.109 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod

Myfyriodd y Bwrdd ar y trafodaethau a gynhaliwyd, gan nodi'r canlynol:

- Gall lefel y manylder yn yr adroddiadau ei gwneud yn anodd nodi'r materion sy'n cael sylw ac nid yw rhai adroddiadau'n cyfeirio at oblygiadau ariannol.
- Yr awgrym i aildrefnu agendâu'r Bwrdd i sicrhau bod eitemau sicrwydd yn cael eu trefnu'n gynharach ar yr agenda. Cadarnhawyd y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau yng Ngrŵp Cyngori nesaf y Cadeirydd.

26.110 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:

Dydd Iau 25 Mehefin 2026 am 9.30am yn Venue Cymru i gymeradwyo'r Cyfrifon a'r Adroddiad Blynnyddol.

Dydd Iau 30 Gorffennaf 2026 am 9.30am yn Venue Cymru ar gyfer Cyfarfod llawn y Bwrdd.

26.111 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd

"Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn o ystyried natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, gan y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd, yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd Iechyd
a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2026 yn Venue Cymru

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol	
Enw	Teitl
Dyfed Edwards	Cadeirydd
Clare Budden	Aelod Annibynnol
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Clara Day	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol
Dyfed Jones	Aelod Annibynnol
Paul Lambert	Aelod Annibynnol
Dr Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Billy Nichols	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
Carol Shillabeer	Prif Weithredwr (o bell)
Paolo Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro – Trawsnewid a Chynllunio Strategol
Caroline Turner	Aelod Annibynnol
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Gareth Williams	Is-gadeirydd
Yn Bresennol	
Laura Jones	Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol
Stuart Keen	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
Chris Lynes	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Justine Parry	Cyfarwyddwr Dros Dro – Digidol, Data a Thechnoleg
Philippa Peake-Jones	Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

26.124 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Aelodau'r Bwrdd, aelodau o'r cyhoedd, a'r rhai a oedd yn gwylio ar-lein i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau dros Angela Wood, Tehmeena Ajmal, Mike Larvin, Urtha Felda ac Emma Adamson.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod gan y Bwrdd Iechyd ofyniad statudol i baratoi set o Ddatganiadau Ariannol Blynnyddol ac Adroddiad Blynnyddol, ac mai hyn oedd prif ffocws y cyfarfod hwn. Mae angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r dogfennau hyn i'w cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r agenda hefyd yn cynnwys eitem frys sy'n ymwneud ag Achos Busnes yr Adran Achosion Brys.

26.125 Datganiadau o Fuddiant yn ymwneud â'r Agenda



Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

26.126 Adroddiad Sicrwydd y Pwyllgor Archwilio

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw at y canlynol:

- Mae'r Pwyllgorau perthnasol wedi ystyried y Cyfrifon Blynnyddol a'r Adroddiad Blynnyddol a chydnabuwyd y gwaith sylweddol a wnaed gan gydweithwyr Cyllid wrth baratoi'r cyfrifon.
- Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r gyllideb, gan ddechrau'r flwyddyn gyda chydbwysedd ariannol a gorffen gyda diffyg o £17.3m.
- Erbyn hyn, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei afael ar adferiad ariannol ochr yn ochr â chryfhau'r gwaith o reoli risg.
- Nid yw ymatebion rheolwyr i Archwiliadau Mewnol yn cael eu derbyn ar y lefel ofynnol, ac fe nodir bod angen rhagor o gymorth yn y maes hwn.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** bod y Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon i'w cyflwyno ymlaen i'r Bwrdd.

26.127 Cyflwyno Cyfrifon Ariannol Blynnyddol 2025-2026 wedi'u Harchwilio

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Diolchwyd i gydweithwyr am eu cyfraniad wrth gwblhau'r dogfennau ar gyfer y cyfrifon o fewn yr amserlen ofynnol, a hefyd i gydweithwyr Archwilio Cymru am eu cefnogaeth.
- Cyflwynwyd cyfrifon blynnyddol 2025-26 heb eu harchwilio i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar 1 Mai 2026 ac maent wedi cyrraedd sefyllfa o ddiffyg o £17.3m.
- Ni fu unrhyw newid i'r sefyllfa alldro a gofnodwyd sydd heb newid o'r fersiwn heb ei harchwilio i'r cyflwyniad terfynol.
- Os bydd y Bwrdd Iechyd yn cytuno i arnodi'r cyfrifon, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol i'w cymeradwyo erbyn 30 Mehefin 2026.
- Mae Archwilio Cymru wedi adrodd am ddau gamddatganiad heb eu cywiro sy'n deillio o'r ffordd y mae meddalwedd cofrestr asedau cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn cyfrifo ac yn adrodd ar rai mathau o drafodion; mae'r materion hyn wedi'u cynnwys mewn nodyn penodol o'r cyfrifon ac nid ydynt yn effeithio ar werth net cyffredinol asedau sefydlog ar y llyfrau.
- Bydd cyfrifon blynnyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26 yn cael barn gywir a theg ddiamod; mae hyn yn golygu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon eu bod yn adlewyrchu sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd a'r costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn.
- Bydd y cyfrifon yn cael barn reoleiddiol amodol gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd o 2023-24 i 2025-26.

Fel rhan o'r drafodaeth, roedd y Bwrdd wedi:

Nodi'r gostyngiad mewn gwariant mewn perthynas â Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gan gydnabod nad yw adnoddau'n cael eu trosglwyddo'n ddigonol o Ofal Eilaidd i Ofal Sylfaenol, a chyfeirio at darged Llywodraeth Cymru i gynyddu gwariant mewn Gofal Sylfaenol 0.5%. Cadarnhawyd bod y Bwrdd wedi gosod bwriad strategol i fuddsoddi yn natblygiad gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol a bod dyrannu



adnoddau ar draws y Bwrdd Iechyd yn hanfodol er mwyn ategu'r gwaith hwn. Cytunwyd ar y dyraniad Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac mae angen sicrhau gweledd clir o ran effaith y cyllid.

- Cadarnhawyd, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio, bod gofyn i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu datganiadau ariannol blynyddol 2025-26 wedi'u harchwilio.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **MABWYSIADU** datganiadau ariannol blynyddol 2025-26 wedi'u harchwilio.

26.128 Adroddiad Blynyddol 2025-2026

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Diolchwyd i'r cydweithwyr a fu'n ymwneud â pharatoi'r adroddiad a chydabuwyd y gefnogaeth a gafwyd gan yr Archwilywyr Mewnol ac Allanol, gan ddangos y perthnasoedd gwaith cadarnhaol sydd ar waith.
- Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Mehefin 2026 a chafodd gyfle i adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gan gadarnhau bod y dogfennau wedi bod drwy'r prosesau llywodraethiant priodol.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi darlun cynhwysfawr i'r Bwrdd o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.
- Bydd y cyfrifon ariannol yn cael eu cynnwys yn y dogfennau cyn eu cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol i gael eu cymeradwyo, a byddant yn rhan o Lawlyfr Cyfrifon GIG Cymru yn ôl yr angen.
- Mae cynnydd wedi'i wneud drwy gydol y flwyddyn o ran cydymffurfio â dyletswyddau statudol sy'n cael sylw yn yr Adroddiad Blynyddol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael adroddiadau rheolaidd yn ymwneud â Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Mae adolygiadau Archwilio Mewnol ychwanegol wedi cael eu cynnal mewn meysydd y nodwyd eu bod yn destun risg a phryder, gan gynnwys caffael, sy'n adlewyrchu dull rhagweithiol o gynnal safonau uchel o ran llywodraethiant a newidiadau rheoleiddiol.
- Cydnabuwyd bod rheoli risg yn elfen allweddol y mae angen canolbwyntio arni'n barhaus, a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r Adroddiad yn cyflwyno sefyllfa onest a theg, gan ddangos y cynnydd a wnaed ar yr un pryd â chydabod yr heriau gweithredol sy'n parhau ac sydd angen cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd.
- Bydd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fis Gorffennaf i roi ffocws yn y maes hwn.
- Mae Gofal wedi'i Gynllunio yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder mawr. Mae ffocws wedi bod ar leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 156 wythnos a 104 wythnos gyda gostyngiadau sylweddol yn y ddwy garfan. Nodwyd bod dros 30,000 o bobl wedi cael apwyntiadau yn ystod y flwyddyn a bod y capasiti'n cael ei gynyddu er mwyn gweithio ar ddileu cyfnodau aros mor hir â hyn.
- Yn ystod 2025/26, cafodd mwy na 55,000 o gleifion eu hatgyfeirio at y Bwrdd Iechyd gydag amheuaeth o Ganser. Bob mis mae dros 4500 o bobl yn cael eu profi ac mae tua 4000 o gleifion yn cael y newyddion cadarnhaol na chafodd Canser ei ganfod. Mae cyrraedd y



targed Cenedlaethol yn y maes hwn yn her ac mae cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i wneud gwelliannau.

- Mae perfformiad ym maes lechyd Meddwl yn parhau i fodloni safonau mynediad mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion, a nodwyd bod rhai gwelliannau wedi bod hefyd yn y Gwasanaeth Plant. Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn asesiadau niwroddatblygiad yn isel. Nodir bod hwn yn fater ledled y DU ac mae Byrddau Iechyd yng Nghymru yn gweithio i fynd i'r afael â'r maes hwn sy'n peri pryder.
- Mae Gofal Brys ac Argyfwng yn parhau i fod yn faes y mae angen canolbwyntio arno'n barhaus a bydd cymorth ychwanegol yn cael ei drafod yn fanylach yn ystod y cyfarfod.
- Mae gwelliannau'n cael eu gweld mewn perthynas â rheolaethau mewnol, ond mae angen gwneud llawer o waith i ddod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda ac sy'n cael ei ategu gan lywodraethiant cadarn.

Fel rhan o'r drafodaeth, roedd y Bwrdd wedi:

- Nodi bod y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau wedi cael copi o Adroddiad Profiadau y Bobl gan yr Adran Achosion Brys a'i fod yn croesawu'r wybodaeth a ddarparodd am brofiadau pobl o ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, ac eithrio gwasanaethau Adrannau Achosion Brys lle'r oedd profiadau pobl yn dal yn wael iawn. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd canolbwyntio ymdrechion gwella yn y meysydd hyn sy'n peri'r pryder mwyaf.
- Cyfeirio at nifer y bobl yr amheuir bod Canser arnynt a'r nifer uchel o bobl lle na chanfuwyd Canser, a holi a oes angen atgyfeiriadau mwy cywir. Cadarnhawyd bod y llwybrau amheuaeth o Ganser wedi'u cynllunio i gefnogi diagnosis cynnar neu i ddirymu'r amheuaeth o Ganser yn gynnar, gydag atgyfeiriadau'n cael eu brysbennu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn gyflymach drwy lwybrau arferol lle bo hynny'n briodol. Mae hyn wedi'i ategu gan waith parhaus gyda Gofal Sylfaenol a nyrsys arbenigol i benderfynu a oes angen uwchggyfeirio i'r llwybr brys ar gyfer amheuaeth o Ganser.
- Tynnu sylw at y ffaith bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan gynnwys gwasanaethau i bobl ifanc, wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ac ategwyd hynny gan adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod y metrigau presennol yn dal yn gyfyngedig a bod gwasanaethau cymunedol yn dal o dan bwysau sylweddol. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â dull gweithredu newydd yn y gymuned gyda chefnogaeth staff sy'n canolbwyntio ar wella mynediad amserol at ofal.
- Nodi bod Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn parhau i gael effaith niweidiol ar gleifion a'r Bwrdd Iechyd, gyda nifer cynyddol o bobl yn aros mewn gwelyau ysbyty er nad oes angen gofal aciwt arnynt mwyach. Cadarnhawyd bod enghreifftiau cadarnhaol o wasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n ôl i'r gymuned, wedi'u hategu gan newidiadau i reoliadau cyllideb gyfun a bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn.
- Tynnu sylw at yr adran sy'n cyfeirio at dor-diogelwch data gan nodi mai'r ffigur cywir yw pump ac y bydd y naratif yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r wybodaeth yn y tabl, gan nodi bod hyn wedi cael ei drafod ag Archwilio Cymru.
- Ddiolch i gydweithwyr am y gwaith sylweddol a wnaed a nodi bod yr adroddiad yn rhoi cipolwg manwl ar y sefyllfa bresennol, yn ogystal â bod yn adnodd defnyddiol i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflawni dros y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **CYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol 2025-26 yn barod i'w gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.



- **CYMERADWYO**r Datganiadau Ariannol Blynnyddol yn barod i'w cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.
- **CYMERADWYO**r Llythyr Cynrychiolaeth i'w lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar ran y Bwrdd.

ARCHWILIADAU MEWNOL

26.129 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynnyddol 2025-2026

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Cafodd Adroddiad Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ei dderbyn yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio, ac mae'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn bod yn drylwyr. Bydd hefyd yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Fel rhan o'r drafodaeth, roedd y Bwrdd wedi:

- Nodi bod cynnydd yn cael ei wneud mewn meysydd lle nodwyd sicrwydd cyfyngedig yn flaenorol, a chydabyddir hyn yn yr adroddiad. Fodd bynnag, cyfeirir at Archwiliadau Mewnol a gwblhawyd gan gyrff eraill GIG Cymru sy'n cyflwyno sefyllfa fwy negyddol. Cadarnhawyd bod yr archwiliadau a gwblhawyd yn tynnu sylw at themâu cyffredin ledled Cymru ac mae hyn yn cael ei adolygu'n fanylach.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.
- **DERBYN** Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26.

ARCHWILIADAU ALLANOL

26.130 ISA 260 Archwilio Datganiadau Ariannol

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad wedi cael ei dderbyn yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio ac fe'i cyflwynwyd i roi darlun llawn o'r canfyddiadau, gan nodi meysydd i'w gwella i gael eu datblygu drwy'r Pwyllgor dros y flwyddyn nesaf.
- Rhoddwyd sicrwydd hefyd i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag uwch benodiadau, gan gydnabod y cynnydd a wnaed yn hyn o beth dros y blynnyddoedd diwethaf.
- Roedd lefel perthnasedd Archwilio Cymru, a nodir ar dudalen saith ac sy'n seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26, wedi cael ei chyfrifo ar 1% o drosiant y Bwrdd Iechyd, gan adlewyrchu maint gwariant y sefydliad o £26.5m, gyda throthwy adrodd o 5% sy'n cyfateb i £1.3m. Byddai unrhyw feysydd sy'n peri pryder uwchben y trothwy hwn wedi cael eu nodi yn yr adroddiad.
- Bydd yr adroddiad yn cael ei ymgorffori yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.
- **DERBYN** yr ISA 260 gan nodi ei fod wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Archwilio.

GOFAL BRYN AC ARGYFWNG

26.131 Achos Busnes yr Adran Achosion Bryn



Roedd y Bwrdd wedi derbyn yr adroddiad, a thynnodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol sylw at y canlynol:

- Diolchwyd i'r holl staff sy'n gweithio ar draws Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd am yr ymrwymiad i weithio er lles poblogaeth Gogledd Cymru, gan gydnabod, er bod cleifion yn gorfod aros am gyfnodau hir, eu bod yn dal i roi adborth calonogol ar y gofal a geir.
- Mae angen staff cyson ar draws Adrannau Achosion Brys a nodwyd mai dim ond ychydig o gynnydd sydd wedi bod yn nifer y cleifion sy'n eu defnyddio, ond bod nifer y cleifion y mae angen gofal nyrsio arnynt ar unrhyw un adeg wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd amseroedd aros hir.
- Mae'r Achos Busnes yn cynnig cynnyddu nifer y nyrsys cofrestredig a'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd er mwyn darparu gofal diogel a phriodol i gleifion sy'n aros mewn Adrannau Achosion Brys am gyfnodau estynedig.
- Mewn rotas meddygol nad ydynt yn rhai ar gyfer meddygon ymgynghorol, mae angen nifer priodol o staff i adlewyrchu'r patrymau presenoldeb ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith.
- Mae argymhellion a chanllawiau cenedlaethol wedi cael eu rhoi ar waith ar draws pob maes, gyda lefelau staff yn cael eu codi ar hyn o bryd drwy drefniadau dros dro. Fodd bynnag, cydnabyddir mai defnyddio staff parhaol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi gofal cynhyrchiol a lleihau bylchau yn mewn rotas.
- Mae'r gofyniad ariannol yn sylweddol gan fod y buddsoddiad arfaethedig yn gofyn am gyfanswm gwariant o £32.9m yn erbyn y gyllideb reolaidd bresennol o £24.8m, a nodir bod cyfran o'r cyllid hwn eisoes yn cael ei adlewyrchu yng nghyllidebau'r Cymunedau Iechyd Integredig.
- Cydnabuwyd na fydd cyllid ar ei ben ei hun yn datrys yr heriau hyn a bod hyn yn rhan o raglen waith fwy eang mewn Adrannau Achosion Brys ac ar draws y system ehangach, a ategir gan y safonau gofal gofynnol.
- Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn dilyn yr argymhellion yn arolwg Ysbyty Glan Clwyd ac yn unol â'r safonau Gwneud Pethau'n lawn y Tro Cyntaf, sydd hefyd yn tynnu sylw at y problemau ehangach gyda llif y system.
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod y rhaglenni gwaith ehangach sydd ar y gweill, gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol. Mae cynlluniau 90 diwrnod hefyd yn cael eu rhoi ar waith a bydd angen eu haddasu yn ôl yr angen, a'u monitro drwy'r Pwyllgor Gwaith.

Fel rhan o'r drafodaeth, roedd y Bwrdd wedi:

- Diolch i'r holl staff am eu gwaith yn y maes hwn gan nodi bod hwn yn fater hirsefydlog, a holi ynghylch pa welliannau a fydd yn cael eu gwneud yn sgil y buddsoddiad pwysig hwn i wella profiadau cleifion a staff. Cadarnhwyd y byddai sefydlu gweithlu parhaol sefydlog mewn Adrannau Achosion Brys yn cefnogi darpariaeth gyson yn erbyn y safonau, yn gwella cynhyrchiant, ac yn galluogi staff medrus i ymgymryd â rolau allweddol fel brysbennu, gan gryfhau gwaith tîm a gwella gofal i gleifion a staff.
- Pwysleisio, er bod yr Achos Busnes yn canolbwyntio ar Adrannau Achosion Brys, fod yr heriau sylfaenol yn cwmpasu llwybr cyfan y claf. Mae cleifion sy'n aros mewn gwelyau ysbyty yn cyfrannu'n uniongyrchol at orlenwi Adrannau Achosion Brys ac at risgiau cysylltiedig â diogelwch cleifion, felly mae angen cymryd camau ar unwaith i wella diogelwch mewn adrannau, ochr yn ochr â gwneud newidiadau ehangach i lwybrau, creu modelau staffio sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cynnal adolygiad o'r goblygiadau ariannol a chreu



chynllun gweithredu clir, gan nodi bod y Pwyllgor Gweithredol yn cydnabod bod hyn yn flaenoriaeth allweddol.

- Croesawu'r buddsoddiad arfaethedig gan nodi bod hon yn elfen bwysig o raglen waith ehangach, a bod rhagor o gydweithio ag Awdurdodau Lleol yn ofynnol er mwyn gwella llif y system a chefnogi gwelliant cynaliadwy. Nodwyd bod hwn wedi bod yn faes heriol yn barhaus, er mai dim ond cynnydd bach mewn presenoldeb sydd wedi bod. Cydnabuwyd hefyd mai dim ond un elfen o'r camau ehangach y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau cyffredinol mewn Adrannau Achosion Brys yw hyn.
- Holi pam roedd yr Achos Busnes yn nodi'r gofyniad staffio sylfaenol yn hytrach na'r sefyllfa orau a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd, a pham nad oedd y buddsoddiad wedi cael ei ymgorffori yn y broses flynyddol o bennu'r gyllideb. Cadarnhawyd bod darpariaeth wedi'i cheisio yn y cynllun ond, wrth i'r achos ddatblygu ac wrth i ofynion ychwanegol gael eu nodi, bod y gofyniad ariannol wedi cynyddu uwchlaw'r gofyniad gwreiddiol, gan arwain at ddiffyg.
- Nodi y gellid sicrhau mwy o gynaliadwyedd drwy ddisodli trefniadau staffio dros dro â swyddi parhaol, mewn Adrannau Achosion Brys ac ar draws meysydd gwasanaeth ehangach. Cydnabuwyd hefyd bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gyson is na'r lefelau staffio a ariennir, gyda rhai bylchau'n gysylltiedig â heriau recriwtio. Nodwyd y bydd angen canolbwyntio'n benodol ar y mannau lle mae dibyniaeth ar staff dros dro drud o hyd, gan dynnu sylw at y ffaith y bydd y Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â strwythurau.
- Tynnu sylw at bwysigrwydd gwella ansawdd gofal, fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch defnyddio gofal mewn coridor. Cadarnhawyd bod hyn yn rhan o raglen waith ehangach i sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel a phriodol ym mhob maes.
- Cadarnhau y byddai angen gwarantu'r gofyniad arbedion a nodir ac y byddai'n esgor ar her arall, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Bwrdd Iechyd ddarparu llwybr clir erbyn 30 Mehefin 2026. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i gytuno arno. Nodwyd hefyd, er na fu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr ag Adrannau Achosion Brys, bod heriau'n parhau o ran llif cleifion allan o'r ysbyty. Felly, mae'r buddsoddiad hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â gwaith ehangach i wella llif, gyda'r gofyniad terfynol o hyd at £3.9m yn dibynnu ar gynnydd yn y maes hwnnw.
- Nodi bod yr Achos Busnes yn dangos dull mwy aeddfed o asesu gwasanaethau yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r System Rheoli Ansawdd, a bod angen angen adolygu lefelau staff parhaol i gefnogi'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, yr her graidd o hyd yw'r angen i wella llif ar draws y system gyfan.
- Gofyn am i Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gael eu rhannu'n ehangach. Cytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu rhannu ag Aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth.
- Cytuno bod y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth yn goruchwyllo'r gwaith hwn ac y bydd yn adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd. Nodwyd y bydd y gwaith hwn nawr yn mynd rhagddo mewn modd cynhwysfawr ar draws y Bwrdd Iechyd.

Cam Gweithredu:

- **26.131** Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i rannu Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag Aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth.

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **NODI** r risg barhaus a sylweddol i ddiogelwch cleifion mewn Adrannau Achosion Brys, fel y cafodd ei adrodd a'i atgyfnerthu'n flaenorol drwy oruchwyliaeth y Bwrdd Uwchgyfeirio a chanfyddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).



- **CYMERADWYO** buddsoddiad rheolaidd o hyd at **£3.9m** i sefydlogi capasiti gweithlu'r Adran Achosion Brys fel ymateb angenrheidiol i'r risg hon.
- **CYDNABOD** nad yw'r buddsoddiad hwn yn rhan o'r cynlluniau ariannol presennol ac y bydd angen ailflaenoriaethu sefydliadol a chynyddu'r gofyniad arbedion.
- **CYTUNO** ar ddull gweithredu fesul cam, wedi'i ategu gan ddisgwyliadau clir ynglŷn â chyflawni, gwireddu buddion, a gwella perfformiad.
- **GOFYN** i'r Weithrediaeth ddatblygu a chyflawni **cynllun gwireddu buddion** clir, gan ddangos sut bydd y buddsoddiad yn gwella perfformiad Adrannau Achosion Brys ac yn lleihau'r risg i ddiogelwch cleifion, gyda mesurau, llwybrau ac atebolrwydd clir wedi'u diffinio.
- **CYTUNO** y bydd goruchwyliaeth a sicrwydd yn cael eu darparu drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth, gyda llinellau atebolrwydd clir.
- **MYNNU** bod rhaid adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd ynglŷn â darpariaeth ac effaith, gan gynnwys diogelwch cleifion, sefydlogrwydd y gweithlu, perfformiad gweithredol a chanlyniadau ariannol.
- **CYMERADWYO**'r buddsoddiad hwn fel ymyriad angenrheidiol ar unwaith i leihau'r niwed i gleifion lle bo modd osgoi hynny, ac i gefnogi gwelliant ehangach ym maes Gofal Brys ac Argyfwng, gan gydnabod bod hyn yn mynd i'r afael â galluogwr hanfodol ond nad yw, ar ei ben ei hun, yn datrys y cyfyngiadau sylfaenol o ran llif y system.

MATERION I GLOI

26.132 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026 ym Marchnad y Frenhines, y Rhyl ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol

Dydd Iau 30 Gorffennaf 2026 am 9.30am yn Venue Cymru ar gyfer Cyfarfod y Bwrdd.

Bwrdd Iechyd

iCan: Straeon go iawn, Effaith go iawn
iCan: Real Stories, Real Impact

Dyddiad y Cyfarfod	30 ^{ain} Gorffennaf 2026
Statws Cyhoeddi	Agored / Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad	Katie Hender – Uwch Reolwr Profiad y Bobl
Enw a theitl yr Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth

Pwrpas yr Adroddiad	I'w Nodi
----------------------------	----------

Crynodeb Gweithredol

Cyflwynir hanes claf neu hanes gofalwr i'r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu yn uniongyrchol i'r cyfarfod.

Bydd y stori ddigidol yn cael ei chwarae yn y cyfarfod. Mae crynodeb byr o'r profiad a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r stori wedi'i gynnwys yn y papur.

Yr ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion	Dyddiad	Canlyniad, Tystiolaeth a Data
Amherthnasol		

Byrfoddau / Rhestr Termiau

[iCAN FINAL v1 CYM.mp4](#)



1. Trosolwg o straeon y cleifion

Mae'r stori'n tynnu sylw at effaith cymorth iechyd meddwl iCAN yn y gymuned, sy'n newid bywydau. Drwy adroddiadau profiad bywyd, mae unigolion yn disgrifio sut mae ymyrraeth gynnar, cefnogaeth gan gymheiriaid a gwasanaethau cymunedol hygyrch wedi eu helpu i oresgyn unigrwydd, magu hyder, gwella llesiant a dod o hyd i ymdeimlad newydd o bwrpas. Mae'r straeon yn dangos gwerth cymorth wedi'i gyd-gynhyrchu gan y trydydd sector fel elfen allweddol o ddull system gyfan o ymdrin â gofal iechyd meddwl.

1.1 Negeseuon allweddol

- Mae iCAN yn dangos pwysigrwydd dull system gyfan o ymdrin â chymorth iechyd meddwl, gan ddarparu amrywiaeth o ymyriadau yn y gymuned sy'n ategu gwasanaethau statudol.
- Mae'r trydydd sector yn bartner hanfodol o ran darparu cymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol hygyrch ledled Gogledd Cymru.
- Mae ymyrraeth gynnar a chymorth mynediad agored yn galluogi pobl i gael cymorth cyn cyrraedd argyfwng, gan wella canlyniadau a lleihau'r pwysau ar wasanaethau ehangach.
- Gall ymyriadau bach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gael effaith drawsnewidiol ar hyder, annibyniaeth, cysylltiad cymdeithasol a lles cyffredinol.
- Mae cydgynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn hanfodol i ddylunio a darparu gwasanaethau effeithiol.
- Mae cymorth gan gymheiriaid yn helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u cysylltu, gan gyfrannu'n sylweddol at adferiad a llesiant.
- Mae cymorth yn y gymuned yn galluogi pobl i feithrin perthnasoedd, arferion a chyfleoedd cynaliadwy ar gyfer adferiad.

2. Crynodeb o ddysgu a gwelliannau

Mae'r straeon yn dangos gwerth sylweddol darparu cymorth iechyd meddwl hygyrch yn y gymuned cyn gynted â phosibl. Disgrifiodd unigolion welliannau mewn hyder, cysylltiad cymdeithasol, annibyniaeth a lles drwy ymgysylltu'n gynnar â gwasanaethau iCAN, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae'r profiadau'n atgyfnerthu pwysigrwydd cydgynhyrchu a chymorth gan gymheiriaid mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cael eu cefnogi gan unigolion a oedd yn deall eu profiadau ac yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, yn eu derbyn ac yn eu grymuso. Mae'r dulliau hyn yn cyfrannu at gymorth sy'n canolbwyntio ar adferiad ac yn annog ymgysylltiad parhaus.

Mae'r straeon yn tynnu sylw at rôl bwysig partneriaid trydydd sector yn y system iechyd meddwl ehangach. Drwy ddarpariaeth leol, mynediad agored a chysylltiadau cymunedol cryf, mae iCAN yn cefnogi pobl i aros yn iach, datblygu gwydnwch a chael gafael ar gymorth cyn i broblemau waethygu. Mae parhau i weithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gynnal y canlyniadau cadarnhaol hyn i unigolion a chymunedau ledled Gogledd Cymru.

3. Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r bwrdd nodi'r adroddiad hwn.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol	3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau
Link to Strategic Intentions	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: 4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Pobl yn Gyntaf Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: Cysondeb â gwerthoedd y sefydliad.
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Ddim yn berthnasol

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Equality Act 2010 Public Sector Equality Duty: Has BCUHB provided evidence of 'Due Regard' to compliance with the three parts of the Public Sector Equality Duty (General Duty): https://www.gov.wales/public-sector-equality-duty-html Public Sector Equality Duty [HTML] GOV.WALES	Yes: ☐	No: ☒
	Outcome:	
	If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol
Equality Act 2010 - Socio-economic Duty <i>Has BCUHB provided evidence of 'Due Regard' to compliance of ther Socio-economic Duty when making strategic decisions?</i>	Yes: ☐	No: ☒
	Outcome:	
	If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol
<i>Have you completed an Integrated Equality Impact Assessment WP8a?</i> WP8a Template	Canlyniad/Outcome: Do/Yes:	Naddo/No: : ☒
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol

	Canlynaid/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Human Rights Act <i>Have Human Right based concerns been addressed within WP8a</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Ddim yn berthnasol
Compliance to the Welsh Language requirements? <i>Have you undertaken an Impact Assessment</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol
Compliance to giving 'Due Regard' to the principles of the Armed Forces Covenant <i>Have the principles of the Armed Forces Covenant been addressed within WP8a</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Galluogwyr Ansawdd Mae pob un yn berthnasol	Meysydd Ansawdd Mae pob un yn berthnasol
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru lachach	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: • Cymru sy'n fwy cyfartal. • Cymru gydnerth.	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	

Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?</i>	Yes: ☐	No: ☒
	Outcome:	
	If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol
Asesiad o Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Yes: ☐	No: ☒
	Outcome:	
	If no, please include rationale:	Ddim yn berthnasol
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	

BWRDD IECHYD

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	Gorffennaf 30, 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Cyhoeddus
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Dyfed Edwards Cadeirydd
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w nodi

Crynodeb Gweithredol **Executive Summary**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion allweddol o fewn y sefydliad a gwaith allanol gyda'r Llywodraeth a phartneriaid eraill

- Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Etholedig
- Apwyntiadau
- Manylion ymweliadau a chyfarfodydd

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol		

Adroddiad y Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gorffennaf, 2026

Mae peth o'r gwaith rydw i wedi'i wneud ers fy adroddiad i'r Bwrdd Mai yn cael ei grynhoi isod:

Bwrdd a Phwyllgorau

Mae'r **Pwyllgor Archwilio** wedi goruchwyllo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gan weithio gyda chydweithwyr Archwilio Cymru i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni ar amser ac o'r safon ofynnol. Cymeradwyodd ein cyfarfod Bwrdd ar 25 Mehefin **yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon** ac rydym yn ddiolchgar i bawb am y gwaith a wnaed a'r berthynas waith gadarnhaol â chydweithwyr Archwilio Cymru.

Mae'r **Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth** (PFIG) wedi sicrhau craffu ar y cynlluniau i wella perfformiad **Gofal wedi'i Gynllunio** a dileu rhestri aros 104 wythnos. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn cael gafael ar gyllid ychwanegol a byddant yn allweddol i sicrhau lleihau rhestrau aros. Rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau PFIG am drefnu cyfarfodydd ychwanegol ac am eu cyfraniad i'r gwaith hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gwaith gyda llawer o oriau hir iawn i sicrhau bod ein cynllun yn cael ei gyflwyno mewn pryd o fewn amserlen heriol iawn.

Ymgysylltu ag eraill

Ymwelodd Mabon ap Gwynfor AS, Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal, ag Ysbyty Glan Clwyd yn fuan ar ôl ei benodiad a chyfarfod a thrafod materion gyda staff yr Adran Achosion Brys. Ymwelodd hefyd ag **Ysbyty Gwynedd** yn gynharach y mis hwn ynghyd â swyddogion gydag eraill yn ymweld **ag Ysbyty Glan Clwyd a Chanolfan Llawfeddygol Gogledd Cymru, Llandudno**. Cawsom adborth cadarnhaol gan swyddogion ac rydym yn ddiolchgar i'r staff am hwyluso'r ymweliadau.

Roedd yr ymweliadau hyn yn rhagflaenu cyfarfod **y Bwrdd Uwchgyfeirio** gyda Gweinidog y Cabinet a swyddogion yn swyddfeydd y llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar gynnydd y Bwrdd Iechyd a'r angen i gyrraedd y targedau perfformiad sydd wedi'u gosod gan y llywodraeth. Mynychwyd y cyfarfod gan Gyfarwyddwyr Gweithredol a minnau a Chadeiryddion y Pwyllgorau fel aelodau o'r Bwrdd. Mae rhagor o wybodaeth gefndir am y cyfarfod hwn i'w gweld mewn manau eraill yn y papurau ar gyfer y Bwrdd heddiw.

Roedd Sesiynau Briffio gydag ASau / ASau a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth gyda rhai o aelodau etholedig ein rhanbarth. Roedd y sesiynau ar-lein hyn yn arbennig o ddefnyddiol fel cyflwyniad i aelodau newydd eu

hethol o bob grŵp gwleidyddol. Byddwn yn parhau i drefnu sesiynau o'r fath yn fwy rheolaidd yn y dyfodol. Yn yr un modd, daeth digwyddiad yn y Senedd ym mis Mehefin a drefnwyd gan **Gyddfederasiwn GIG Cymru â Phrif Weithredwyr** a Chadeiryddion cyrff y GIG at ei gilydd i gwrdd ag Aelodau newydd y Senedd mewn cyflwyniadau anffurfiol. Roedd hyn eto yn ddefnyddiol ac yn caniatáu rhai trafodaethau byr gyda rhai o 24 Aelod o'r Senedd yn ein rhanbarth.

Rwy'n parhau i fynychu nifer o ddigwyddiadau ledled gogledd Cymru, pob un ohonynt yn rhoi cipolwg i mi ar waith staff a phartneriaid. Rwy'n aml yn cael fy ysbrydoli a'm hatgoffa o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd yn ein Bwrdd Iechyd a'n cymunedau yn rheolaidd. Achlysur o'r fath oedd y cyfle i fod yn bresennol mewn dangosiad o **'This Too Will Pass: My Bipolar Life'**, yn Y Ganolfan, Porthmadog yn gynharach y mis hwn. Mae'r ffilm yn dal stori **Chris Eastwood** ac roedd yn ganlyniad i BIPBCB yn gweithio'n agos gyda **Llais**. Mae'r drafodaeth yn dilyn y ffilm yn tynnu sylw at ein hymdrechion i gofleidio cydgynhyrchu a chefnogi cleifion a theuluoedd i lunio gwasanaethau. Gellir gweld y ffilm yma <https://youtu.be/uliVWOgd-7o>

Dathlodd aelodau o'r gymuned Ffilipinaidd **Ddiwrnod Annibyniaeth Philippine** ar Fehefin 12 ac roeddwn yn falch o fod yn bresennol yn y digwyddiad yn Neuadd y Dref y Rhyl. Yn ogystal â dathlu'r diwrnod arbennig, roedd hefyd yn gyfle i mi ddiolch i nifer o aelodau o'r Gymuned Ffilipinaidd am eu cyfraniad i waith y Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd.

Mae bob amser yn ffrainc bod yn rhan o'r **Seremonïau Graddio ar gyfer Interniaid â Chymorth** sy'n ddigwyddiad blynyddol ledled y rhanbarth. Mae'r rhaglen interniaeth yn cefnogi pobl ifanc yn y gweithle a gall arwain at gyflogaeth barhaol i lawer o'r garfan. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cymorth ymarferol i bobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol ond hefyd yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'n rhaglen ardderchog ac mae'n elwa o gefnogaeth gadarnhaol gan bartneriaid.

Isod mae crynodeb o rai o'm cyfarfodydd a'm hymweliadau hyd at Orffennaf 22, 2026.

Dyddiad	Cyfarfod/Ymweliad
26 Mai	Grŵp Cymheiriaid Cadeiryddion Cymru Gyfan
26 Mai	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
26 Mai	Caroline Turner Arfarniad Aelodau Annibynnol
26 Mai	Cyfarfod Aelodau Annibynnol
26 Mai	Aelodau Annibynnol, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
26 Mai	Jane Farrell, Cynghorydd Gwella
27 Mai	Ymweliad Gweinidog y Cabinet ag Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad	Cyfarfod/Ymweliad
27 Mai	Rhian Watcyn Jones Arfarniad Aelodau Annibynnol
27 Mai	Datblygu'r Bwrdd
28 Mai	Cyfarfod y Bwrdd Iechyd
1 Mehefin	Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
1 Mehefin	Adolygiad Perfformiad Wythnosol
2 Mehefin	Andrew Morgan, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2 Mehefin	Tîm y Gymraeg BIPBC
2 Mehefin	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
2 Mehefin	Grŵp Cyngori'r Cadeirydd
3 Mehefin	Gareth Williams Is-gadeirydd
3 Mehefin	Paul Lambert Aelod Annibynnol
3 Mehefin	Seremoni Wobrwyo Myfyrwyr Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor
4 Mehefin	Billy Nichols Arfarniad Aelodau Annibynnol
5 Mehefin	Seremoni Raddio i Interniaid â Chymorth o Ysbyty Glan Clwyd yng Ngholeg Llandrillo
8 Mehefin	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
8 Mehefin	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
8 Mehefin	Trafodaeth Datblygu'r Bwrdd
8 Mehefin	Adolygiad Perfformiad Wythnosol
10 Mehefin	Aelod Annibynnol Dyfed Jones
10 Mehefin	Mabon ap Gwynfor Cabinet Y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol
11 Mehefin	Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
11 Mehefin	Gosod agenda ar gyfer Bwrdd Gorffennaf
11 Mehefin	Carol Shillabeer Prif Weithredwr
12 Mehefin	Kalayaan 2026 - Dathliad Diwrnod Annibyniaeth Y Philipinau, Y Rhyl
15 Mehefin	Mabon Ap Gwynfor Y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Caerdydd
16 Mehefin	Janet Finch-Saunders AS, Caerdydd
16 Mehefin	Digwyddiad Senedd i Arweinwyr y GIG, Caerdydd
17 Mehefin	Debbie Eyitayo Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a Sefydliadol
17 Mehefin	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
18 Mehefin	Jacqueline Totterdell, Prif Weithredwr GIG Cymru
19 Mehefin	Grŵp Llywio Strategol Prifysgol Bangor a BIPBC ar y cyd
22 Mehefin	Seremoni Raddio i Interniaid â Chymorth, Coleg Menai
22 Mehefin	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
22 Mehefin	Paolo Tardivel Cyfarwyddwr Arloesi a Chynllunio
22 Mehefin	Adolygiad Perfformiad Wythnosol
23 Mehefin	Pwyllgor Archwilio
23 Mehefin	Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru

Dyddiad	Cyfarfod/Ymweliad
24 Mehefin	Cyflwyniad i Staff y Switsfwrdd yn Ysbyty Gwynedd
24 Mehefin	Grŵp Cyngori Cadeiryddion
25 Mehefin	Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon a Datblygu Bwrdd, Venue Cymru
26 Mehefin	Tehmeena Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu
26 Mehefin	Sesiwn Briffio'r Bwrdd Uwchgyfeirio
6 Gorffennaf	Sesiynau briffio gydag ASau ac ASau y rhanbarth
6 Gorffennaf	Adolygiad Perfformiad Wythnosol
7 Gorffennaf	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
7 Gorffennaf	Cyfarfod Gofal wedi'i Gynllunio
8 Gorffennaf	Gweinidogion Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru ac Arweinwyr y GIG
8 Gorffennaf	Cyfarfod paratoi y Bwrdd Uwchgyfeirio
8 Gorffennaf	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
9 Gorffennaf	Ysbyty Gwynedd gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidog y Cabinet
9 Gorffennaf	Bwrdd Uwchgyfeirio â Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno
13 Gorffennaf	Chris Couchman, Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol
13 Gorffennaf	Tîm Prosiect Penygroes
14 Gorffennaf	Pwyllgor Tâl
14 Gorffennaf	Gareth Williams, Is-gadeirydd
14 Gorffennaf	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
14 Gorffennaf	Grŵp Goruchwylio Cyllid
14 Gorffennaf	Sesiwn briffio Cyfarfod Uwchgyfeirio ar gyfer y Bwrdd
15 Gorffennaf	Dangosiad o'r ffilm This Too yn pasio yn Y Ganolfan Porthmadog
15 Gorffennaf	Ffilmio ar gyfer Bwrdd Gorffennaf
15 Gorffennaf	Dyfed Jones Arfarniad Aelodau Annibynnol
15 Gorffennaf	Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
16 Gorffennaf	Matthew Edwards a Toma Haslam, Archwilio Cymru
16 Gorffennaf	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
16 Gorffennaf	Y Cyngorydd Craig Ab Iago
17 Gorffennaf	Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad
20 Gorffennaf	Panel Cyfweld ar gyfer rôl y Dirprwy Prif Swyddog Gweithredol
20 Gorffennaf	Adolygiad Perfformiad Wythnosol
21 Gorffennaf	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
21 Gorffennaf	Panel Cyfweld ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Dros Dro
22 Gorffennaf	Cyfarfod Grŵp Cadeirydd Cyrff Cyhoeddus
22 Gorffennaf	Cyfarfod Ymyrraeth gyda Llywodraeth Cymru

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	30 July 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Ddim yn berthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol

Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Ar gyfer Nodi
---	---------------

Crynodeb Gweithredol Executive Summary
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r datblygiadau a'r gweithgareddau allweddol dan arweiniad y Prif Weithredwr rhwng 14 Mai a 15 Gorffennaf 2026. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r rhyngweithiadau allweddol â Llywodraeth Cymru, datblygiadau o fewn y bwrdd iechyd a materion partneriaeth ehangach a chysylltiad â'r gymuned.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)		
Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol ar gyfer yr adroddiad hwn		

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms	

1.0 CYFLWYNIAD

Datblygwyd yr adroddiad hwn i roi trosolwg o weithgareddau allweddol, cynnydd a materion gan y Prif Weithredwr. Mae'n cwmpasu'r cyfnod 14 Mai i 15 Gorffennaf 2026.

2.0 RHYNGWYNEB Â LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Cyfarfodydd y Bwrdd Uwchgyfeirio

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i drefniadau ymyrraeth Lefel 5 Llywodraeth Cymru ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru i gefnogi adferiad a gwella sefydliadol. Ers i'r Gweinidog Cabinet dros lechyd a Gofal gyhoeddi Ymyrraeth a Gyfarwyddwyd gan y Gweinidog ym mis Mehefin 2026, mae'r gwaith wedi parhau i fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau gwella y cytunwyd arnynt, gan gynnwys paratoadau ar gyfer yr Adolygiad dan Arweiniad Da a chyflawni llwybrau adfer y sefydliad. Mae adroddiad ar wahân ar yr agenda hon yn rhoi diweddariad manylach ar drefniadau ymyrraeth, trafodaethau diweddar y Bwrdd Uwchgyfeirio, disgwyliadau'r Gweinidog a'r camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i gefnogi gwelliant parhaus a chynnydd tuag at ddad-ddwysáu.

3.0 DIWEDDARIADAU ALLWEDDOL

3.1 Tîm Gweithredol

Bydd Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn ymddeol yn fuan ar ôl 39 mlynedd yn y GIG. Mae hwn yn gyflawniad anhygoel a hoffai'r Bwrdd a minnau ddiolch yn ddiffuant i Angela am ei gwasanaeth a'i hymroddiad i'r GIG yng Ngogledd Cymru. Mae hi wedi bod yn eiriolwr pwerus dros nyrsio ac wedi goruchwyllo ystod eang o welliannau i'r ffordd y mae gofal diogel o safon yn cael ei ddarparu. Dymunwn ein dymuniadau gorau iddi am ymddeoliad boddhaol a llawen.

Byddwn hefyd yn ffarwelio a diolch cyn bo hir â Tehmeena Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu. Mae Tehmeena wedi chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ein gwasanaethau a'n timau ac wedi dangos ymrwymiad cryf i wella gofal i'r cymunedau y mae'r bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu. Mae ei hegni, ei mewnwelediad a'i dull cydweithredol wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gydweithwyr ar draws y sefydliad. Ar ran y Bwrdd Iechyd, hoffwn ddiolch i Tehmeena am ei chyfraniad a'i harweinyddiaeth, ac i ddymuno pob llwyddiant iddi ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, penodwyd Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Pherfformiad, yn ddiweddar i rôl Prif Swyddog Cyllid yn Ysbyty Athrofaol Gogledd Canolbarth Lloegr a bydd yn gadael y Bwrdd Iechyd ddechrau mis Hydref 2026. Mae Russell wedi bod gyda'r bwrdd iechyd am y tair blynedd diwethaf, gan ymuno ar adeg arbennig o heriol. Er ein bod yn parhau i wynebu heriau, bu cynnydd sylweddol o ran cryfhau ein llywodraethu ariannol a gwella perfformiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae Russell wedi chwarae rhan allweddol wrth yrru'r gwelliant hwnnw, ac

rydym yn ddiolchgar am ei gyfraniad sylweddol i'r sefydliad. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i Russell am ei arweinyddiaeth a'i ymrwymiad dros y tair blynedd diwethaf a dymuno pob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd.

Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r Tîm Gweithredol ac mae trefniadau cynnal ar gyfer y swyddi hyn. Mae trefniadau interim yn cael eu gweithredu lle bo angen i gynnal parhad arweinyddiaeth a goruchwyliaeth sefydliadol tra bod prosesau recriwtio wedi'u cwblhau. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau gwella'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gofynion Mesurau Arbennig, a'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol.

4.0 CYFARFODYDD/YMWELIADAU

4.1 Arwain y flwyddyn i ddod

Ym mis Mai cynnullais sesiwn o uwch arweinyddion o fewn y Bwrdd Iechyd i fyfyrion ar y flwyddyn flaenorol ac alinio ffocws arweinyddiaeth ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026/27. Roedd ffocws y sesiwn ar *Arwain y Flwyddyn Ymlaen* ac atgyfnerthu'r angen am ymagwedd ar y cyd at wella, gyda phwyslais ar gyflenwi cynaliadwy, gwerth, cynhyrchiant, ansawdd, iechyd y boblogaeth a mynediad amserol at ofal. Mae'r allbynnau wedi llywio trefniadau cynllunio a chyflawni'r Bwrdd Iechyd, gyda blaenoriaethau wedi'u cyfieithu i raglenni diffiniedig, llwybrau perfformiad a chamau gweithredu galluogi a fydd yn cael eu monitro trwy drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd presennol trwy gydol y flwyddyn.

4.2 Ymweliad Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal

Ddechrau mis Gorffennaf, roedd y Bwrdd Iechyd yn falch o groesawu'r Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal i Ysbyty Gwynedd ar gyfer ymweliad sy'n canolbwyntio ar wasanaethau gofal brys ac achosion brys a llif drwy'r ysbyty. Rhoddodd yr ymweliad gyfle i drafod yr heriau sy'n wynebu'r Adran Achosion Brys wrth arddangos y gwelliannau sy'n cael eu cyflawni i wella llif cleifion, cryfhau penderfyniadau clinigol uwch, gwella trosglwyddiadau ambiwlans a lleihau gofal coridor. Cyfarfu'r Gweinidog Cabinet â staff rheng flaen a chlywed yn uniongyrchol am y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella ansawdd, diogelwch a phrydlondeb gofal i gleifion ledled Gogledd Cymru. Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys cwrdd â Thîm Rhyddhau Biwro Cartref yn Gyntaf, lle dangosodd cydweithwyr y trefniadau sydd ar waith i gefnogi rhyddhau amserol a helpu cleifion i ddychwelyd adref cyn gynted ag y byddant yn ddigon iach. Yn olaf, cyfarfu Gweinidog y Cabinet â chydweithwyr clinigol yn yr Ystafell Mân Weithrediadau, lle cyflawnwyd effeithlonrwydd sylweddol, gan alluogi mwy o gleifion i gael eu gweld a'u trin yn gyflymach.

Ar yr un diwrnod, ymwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru â Chanolfan Llawfeddygol newydd Gogledd Cymru yn Llandudno i weld y gwaith adeiladu ac i gwrrdd â'r rhaglen a'r arweinwyr clinigol. Mae'r ganolfan yn parhau i wneud cynnydd

tuag at agor gyda'r amserlen bresennol wedi'i yrru gan gwblhau, profi a dilysu'r adeilad a'i systemau. Rhaid bodloni safonau atal heintiau llym cyn y gall y ganolfan groesawu cleifion, fel sy'n arferol ar gyfer unrhyw adeilad gofal iechyd newydd.

Ymwelodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gofal, Jacqueline Toterdel, ag Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd hefyd i weld y gwelliannau a'r cynlluniau i'r dyfodol. Roedd hyn yn dilyn ymweliad cynharach y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal ar 28 Mai lle cerddodd drwy'r llwybr brys. Croesewir yr ymweliadau hyn ac maent yn gyfle i gyflwyno'r cynlluniau sydd ar waith.

4.3 Cwrdd ag arweinwyr GIG Cymru – galw heibio'r Senedd

Ar 16 Mehefin, mynychodd y Cadeirydd a minnau ddigwyddiad galw heibio'r Senedd y Cydffederasiwn GIG Cymru. Daeth y digwyddiad ag arweinwyr y GIG ac Aelodau newydd y Senedd ynghyd i roi cyfle i drafod y blaenoriaethau a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd, ac i sefydlu perthnasoedd ac ymgysylltu â chynrychiolwyr etholedig yn y dyfodol. Mynychodd dros 30 o Aelodau'r Senedd, gan roi cyfle gwerthfawr i gryfhau cysylltiadau a chodi ymwybyddiaeth o waith a blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

4.4 Uwchgynhadledd Gofal Sylfaenol

Ar 18 Mehefin, ymunais â chydweithwyr allweddol eraill o'r Bwrdd Iechyd i fynychu'r Uwchgynhadledd Gofal Sylfaenol a gynhaliwyd gan Weinidog Iechyd a Gofal. Daeth yr uwchgynhadledd ag uwch arweinwyr y GIG at ei gilydd i ystyried sut y gellid cyfieithu'r uchelgeisiau a nodir drwy'r Rhaglen Trawsnewid Cymuned trwy Ddylunio yn gyflawniad ymarferol, gyda ffocws ar atal, ymyrraeth gynnar a gofal yn agosach at adref. Cafwyd cytundeb eang ar y cyfeiriad teithio strategol, gyda'r drafodaeth yn canolbwyntio ar gyflymu gweithredu, sefydlu atebolrwydd clir a chefnogi newid cynaliadwy o wasanaethau ac adnoddau tuag at leoliadau gofal cymunedol a sylfaenol. Bydd gwaith pellach nawr yn cael ei fwrw ymlaen drwy'r Rhaglen Trawsnewid Cymuned trwy Ddylunio, gan gynnwys datblygu cynlluniau i gefnogi mwy o fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol dros y blynyddoedd i ddod.

4.5 Uwchgynhadledd Graddedigion

Ar yr un dyddiad cynhaliwyd Uwchgynhadledd Graddedigion hefyd gan y Gweinidog Iechyd a Gofal, a ddaeth â sefydliadau GIG Cymru, sefydliadau Addysg Uwch a phartneriaid system ynghyd i ystyried y cyflogaeth ar gyfer graddedigion nyrsio, bydwreigiaeth a pharafeddygol sy'n gymwys yn haf 2026. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth i raddedigion, cryfhau trefniadau pontio i'r gweithlu a sicrhau cefnogaeth gyson i'r rhai nad ydynt yn sicrhau swyddi sylweddol ar unwaith. Tynnodd yr uwchgynhadledd sylw hefyd at yr angen am welliannau tymor hwy i gynllunio'r gweithlu, comisiynu addysg a modelu'r gweithlu i

alinio'n well lleoedd hyfforddi â'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Bydd dull cydgysylltiedig Cymru gyfan yn cael ei fwrw ymlaen nawr drwy Lywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a sefydliadau'r GIG

4.6 Sesiynau briffio AS ac AS

Ar 6 Gorffennaf, ymunais â'r Cadeirydd i gynnal sesiwn friffio ar-lein ar gyfer Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol Gogledd Cymru, gan gynnwys cynrychiolwyr newydd eu hethol. Roedd y sesiwn yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i ymgysylltu'n agored a thryloyw ag aelodau etholedig a rhoddodd gyfle i drafod yr heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, y cynnydd a wnaed mewn meysydd allweddol o wella perfformiad a'n cynlluniau hirdymor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal ledled Gogledd Cymru. Derbyniodd mynychwyr ddiweddariad ar welliannau mewn gofal a diagnosteg wedi'i gynllunio, gwaith parhaus i fynd i'r afael â phwysau o fewn gofal brys ac argyfwng, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gryfhau a chyflymu taith wella'r sefydliad.

Roedd y sesiwn hefyd yn gyfle i drafod cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys datblygu system iechyd a gofal cynaliadwy drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, Cymuned trwy Ddylunio a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, ochr yn ochr â sesiwn holi ac ateb agored. Cynllunir sesiynau ymgysylltu pellach i gefnogi deialog barhaus a chryfhau perthynas ag Aelodau sy'n cynrychioli cymunedau ledled Gogledd Cymru.

5.0 CYDNABYDDIAETH

5.1 Cydnabyddiaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mynediad Mewnwythiennol

Derbyniodd Gwasanaeth Mynediad Mewnwythiennol BIPBC gydnabyddiaeth genedlaethol yng nghynhadledd y Gymdeithas Trwyth a Mynediad Fasgwlaidd Genedlaethol, lle gwahoddwyd cydweithwyr i gyflwyno cyflwyniad cyweirnod i arbenigwyr o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol. Arddangoswyd y gwasanaeth fel enghraifft o ragoriaeth mewn ymarfer, gyda thystiolaeth yn dangos gwelliannau mewn canlyniadau cleifion, llai o gymhlethdodau, gwell llif cleifion ac effeithlonrwydd costau. Wedi hynny, derbyniwyd diddordeb gan nifer o sefydliadau sy'n awyddus i ymweld â'r gwasanaeth a dysgu ohono, ac mae'r tîm wedi cael gwahoddiad i gyfrannu at ganllawiau arfer gorau cenedlaethol yn y dyfodol.

5.2 Cydnabyddiaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Gwasanaeth Strôc

Derbyniodd gwasanaethau strôc y Bwrdd Iechyd gydnabyddiaeth gan GIG Cymru am eu gweithrediad o Brysbennu Fideo Cyn-ysbyty ledled Gogledd Cymru. Roedd adborth cenedlaethol yn tynnu sylw at botensial y dull o gefnogi asesu amserol a mynediad at ymyriadau arbenigol, gan gynnwys thrombolysis a thrombectomi, a chydabod ymrwymiad ac arweinyddiaeth cydweithwyr sy'n gyrru'r gwaith gwella hwn. Er bod canlyniadau strôc yn parhau i fod yn faes ffocws i'r Bwrdd Iechyd, mae'r

gydnabyddiaeth hon yn adlewyrchu'r ymdrechion parhaus sy'n cael eu gwneud i gryfhau llwybrau strôc a gwella canlyniadau i gleifion ledled Gogledd Cymru

5.3 Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng (EPRR)

Mae'n bleser gennyf adrodd bod Tîm Paratoi, Gwydnwch ac Ymateb Brys BIPBC wedi derbyn cydnabyddiaeth allanol sylweddol am ewaith i gryfhau trefniadau gwytnwch sefydliadol a pharhad busnes ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Diwylliant Tîm GIG Cymru 2026, gan gydnabod ei ymagwedd gydweithredol at ymgorffori gwytnwch fel cyfrifoldeb sefydliadol a rennir trwy arweinyddiaeth, ymgysylltu, arloesi a llywodraethu cryf.

Yn ogystal, mae Katie Spruce, Dirprwy Bennaeth Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng, wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Ewrop y Sefydliad Parhad Busnes (BCI) 2026 yn y categori Newydd-ddyfodiaid Parhad a Gwydnwch. Mae cyrraedd y rhestr fer yn adlewyrchu ei chyflawniad personol ac enw da cynyddol y Bwrdd Iechyd yn y maes yma, gyda'r gwobrau'n cydnabod rhagoriaeth ar draws sefydliadau a gweithwyr proffesiynol o bob cwr o Ewrop.

Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gryfhau gwytnwch ar draws y sefydliad ac yn darparu dilysiad allanol gwerthfawr o'r gwaith o ansawdd uchel sy'n cael ei gyflawni gan dîm EPRR. Gyda'i gilydd, maent yn tynnu sylw at ymrwymiad BIPBC i ddatblygu'n sefydliad gwydn sy'n barod i ymateb i argyfyngau, digwyddiadau mawr ac aflonyddwch ar wasanaethau tra'n cynnal parhad gofal i'n poblogaeth.

5.0 CASGLIAD

Mae'r adroddiad yn bwriadu rhoi trosolwg o'r gweithgareddau allweddol a ymgwymerir gan y Prif Weithredwr yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt a allai fod yn destun adroddiadau manylach eraill neu beidio. Croesewir adborth ar yr adroddiad.

6.0 ARGYMHELLION

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd

- **NODI'R** diweddariadau a ddarperir yn yr adroddiad hwn.

ASESIAD / ASESU	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	    
	1. Aueiadu seiyuad eieuiol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: Os yw mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch isod:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Pobl yn Gyntaf Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: Os yw mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch isod:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Gwneud/Ydw: ☐	Naddo/Nac oes: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: Os na, dylech gynnwys rhesymeg:	<i>Ddim yn ofynnol</i>
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>	Gwneud/Ydw: ☐	Naddo/Nac oes: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	<i>Ddim yn ofynnol</i>
<u>Answdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Answdd?</i>	Galluogwyr Answdd Pob Cymhwyso	Meysydd Answdd Domains of Quality All Apply

	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: Os yw mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch isod:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: Os yw mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch isod:
<u>Deddf Llesiant</u> <u>Cenedlaethau'r Dyfodol -</u> <u>Nodau Llesiant</u>	Ddim yn berthnasol	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:	Gwneud/Ydw: ☐	Naddo/Nac oes: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:	Ddim yn ofynnol
Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Gwneud/Ydw: ☐	Naddo/Nac oes: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: :	
Asesiad o Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i>	Gwneud/Ydw: ☐	Naddo/Nac oes: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: Os na, dylech gynnwys rhesymeg:	



Cyfreithiol	Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
Enw Da	Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgaredd a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol)	Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgaredd a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD YR IS-GADEIRYDD

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	30 Gorffennaf 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored / Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Gareth S Williams, Is-gadeirydd Adroddiad yr Is-gadeirydd, Gorffennaf 2026
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Gareth S Williams, Is-gadeirydd

Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w Nodi
---	----------

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r rhaglen ymweliadau, yr amrywiaeth o ddyletswyddau a'r gweithgareddau a gyflawnir gan yr Is-gadeirydd.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn		

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms

PFIG	Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
IMAD	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

CYFLWYNIAD

Fel y llynedd, bûm yn nigwyddiad **NHS Alliance/ConfedExpo ym Manceinion**, a oedd yn werthfawr dros ben er mwyn cael gwybodaeth am ddatblygiadau ym maes gofal sylfaenol a gofal cymunedol ac iechyd meddwl mewn mannau eraill.

1. CYMUNEDOL O'R CYCHWYN

Heb fawr o syndod, roedd llawer o sesiynau'n ystyried sut mae 'symud i'r chwith (left shift)' ac, yn gysylltiedig â hynny, sut mae mynd i'r afael â phroblemau Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC) o ysbytai aciwt ac atal derbyniadau ac aildderbyniadau diangen i welyau aciwt o ofal brys a gofal argyfwng (UEC).

Ymhlith y sesiynau mwyaf trawiadol (i mi) oedd un gan Hull a Dwyrain Swydd Efrog, lle mae sefydliadau'r GIG sy'n cydweithio wedi ad-drefnu gofal yn sylweddol ar gyfer cleifion sy'n ffit yn glinigol er mwyn blaenoriaethu gofal yn y cartref drwy greu gwasanaeth am ddim i gleifion – a ariennir gan y GIG – ac sy'n darparu 6 wythnos o ofal yn y cartref ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau. Mewn dim ond dwy flynedd, mae hyn wedi

- Arwain at lawer llai o achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (llai na 100 yn gyson, mewn cymhariaeth â dros 200 yn 2023);
- Ei gwneud yn bosibl i gau gwelyau aciwt a chymunedol, gyda staff yn cael eu hadleoli o ysbytai cymunedol i'r gwasanaeth gofal yn y cartref;
- Lleihau'n sylweddol nifer y cleifion blaenorol sydd angen pecynnau gofal hirdymor neu leoedd mewn cartref gofal a ariennir gan yr awdurdod lleol, oherwydd bod cleifion yn cael eu hasesu ar ôl cael cyfle i ymgyswngiadau yn ôl yn y cartref;
- gwella perfformiad gofal brys a gofal argyfwng (cyfartaledd amseroedd trosglwyddo o ambiwlansys wedi gostwng o 61 munud i 19 munud); ac
- wedi sicrhau arbedion ariannol net sylweddol.

Er ein bod wedi arbrofi â dulliau tebyg ym mhob un o'n Cymunedau Iechyd Integredig, fel Bwrdd Iechyd nid ydym eto, yn fy marn i, wedi rhoi darpariaeth gyson, sefydledig a pharhaol ar waith. O ganlyniad, mae rhai staff mewn lleoliadau aciwt yn dal yn wylidwrs ynghylch rhyddhau cleifion, sy'n ffit yn glinigol, i'w cartref: mae gennym lawer iawn i'w ddysgu o'r dull uchelgeisiol hwn o weithredu.

Bûm hefyd yn y sesiwn *'Reimagining Frailty Care: Early insights from the National Frailty Improvement Collaborative'*. Mae'r rhaglen hon gan GIG Lloegr yn canolbwyntio ar wella 'Gofal sy'n Cydweddu ag Eiddilwch' mewn saith system iechyd yn Lloegr, gan ganolbwyntio ar weithredu hyn yn ymarferol.

Gan Ganol Swydd Gaerhifryn y cafwyd un o'r cyflwyniadau, lle'r oedd dadansoddiad o amseroedd aros gofal brys a gofal argyfwng wedi dangos bod cleifion dros 65 oed a oedd yn aros i gael eu derbyn i'r ysbyty wedi aros mwy na 30 awr ar gyfartaledd,

gan arwain at niwed gwirioneddol i gleifion. Roedd gwaith o dan y rhaglen gydwethredol wedi canolbwyntio ar dri pheth: (i) deall a chwrdd â'r galw ar lefel y cyswllt cyntaf (front door), ar sail y gydnabyddiaeth bod llai na thraean y bobl hŷn eiddil sy'n mynd i leoliadau gofal brys a gofal argyfwng wedi cael cyswllt blaenorol â'r tîm eiddilwch. Cafodd rhai o adnoddau'r tîm rhyddhau eu symud i'r ddarpariaeth cyswllt cyntaf, er mwyn dod o hyd i gleifion y byddai modd gwneud dewisiadau eraill ar eu cyfer heblaw am eu derbyn i'r ysbyty (ii) canolbwyntio ar ddatblygu prosesau rhyddhau ar lefel y gymuned, ar sail gwaith partneriaeth agos rhwng y GIG ac awdurdodau lleol (a mynd ati i ddod â'r timau hyn ynghyd i drafod astudiaethau achos unigol) a (iii) datblygu gwasanaethau eiddilwch ar lefel y gymuned.

2. IECHYD MEDDWL

Bûm mewn sesiwn ar baratoi at weithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl newydd, o safbwynt awtistiaeth ac anabledd dysgu yn arbennig. Gan Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl Black Country Healthcare y cafwyd un o'r cyflwyniadau, a oedd wedi buddsoddi mewn timau cymunedol sydd ar alwad i ddelio ag argyfyngau 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, gyda'r pwyslais ar ddarparu cymorth ar unwaith i gleifion a'u teuluoedd yn hytrach nag ar asesu. Maen nhw hefyd wedi buddsoddi mewn nifer o gyfleusterau llety diogel tymor byr (crash pads) fel opsiynau yn lle wardiau cleifion mewnol, yn enwedig i'r rheini sydd ag awtistiaeth ac anhwylder iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi arwain at 62% o ostyngiad yn nifer yr achosion cleifion mewnol, ac at lai o ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a derbyniadau dros nos a thros y penwythnos. Mae hefyd wedi rhoi diwedd ar drafferthion teuluoedd wrth iddynt fynd ati ar frys i geisio dod o hyd i gymorth ar ddydd Gwener oherwydd eu bod yn ofni y bydd un o'u hanwyliaid mewn argyfwng dros y penwythnos.

Yn yr un sesiwn siaradodd Jenni Shaw, Seicolegydd Clinigol, am y Rhwydwaith Tîm Cymorth Dwys hefyd, sy'n cwmpasu nifer o Ymddiriedolaethau sydd, ers 2015, wedi bod yn datblygu model i ddarparu cymorth ataliol yn y cartref er mwyn cadw pobl sydd ag Anableddau Dysgu, ac awtistiaeth mewn rhai achosion, allan o'r ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys timau argyfwng yn gallu ymateb ar yr un diwrnod i glaf sydd mewn argyfwng yn y cartref. Awgrymodd gwerthusiad bod hyn wedi bod yn rhan allweddol o'r broses o leihau ymweliadau ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a derbyniadau, ac mewn un achos (Swydd Hertford) roedd nifer y gwelyau ar gyfer cleifion ag Anableddau Dysgu wedi gostwng o 150 i ddim ond chwech.

Roedd sesiwn arall yn canolbwyntio ar waith a wnaed ym Manceinion Fwyaf i leihau'r defnydd o leoliadau y Tu Allan i'r Ardal a lleoliadau gyda darparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG, a oedd wedi llwyddo i leihau lleoliadau Iechyd Meddwl trydydd parti a rhai y Tu Allan i'r Ardal 95%, ac wedi arwain at fwy na £30 miliwn o ostyngiad mewn costau net. Llwyddwyd i gyflawni hynny drwy greu Cronfa Cymorth Integredig sy'n helpu Timau Iechyd Meddwl Cymunedol i ddarparu cymorth personol yn y

cartref i gleifion a gwasanaeth datrys argyfwng. Cafodd y Gronfa ei hariannu i ddechrau gan y Bwrdd Gofal Integredig (ICB), ond ers hynny mae wedi cael ei hariannu drwy'r arbedion y llwyddwyd i'w cyflawni mewn cwta dwy flynedd.

Mae'r modelau hyn yn cyd-fynd yn agos iawn â syniadau presennol Llywodraeth Cymru am y ffordd y mae angen ad-drefnu gwasanaethau.

Cymerais ran hefyd mewn Sesiwn Gyfnewid wych a drefnwyd gan y rhwydwaith gwella ansawdd, sy'n ariannu saith cynllun peilot ar gyfer Canolfannau Iechyd Meddwl sydd ar gael i'r gymuned bob awr o'r dydd, bob diwrnod o'r wythnos. Gwnaeth prosiect yn Whitehaven yn Cumbria – lle bu'r gyfradd uchaf o achosion hunanladdiad yn Lloegr – argraff arbennig arnaf, wrth ystyried nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n marw drwy hunanladdiad wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r ganolfan yn darparu cymorth integredig ar yr un diwrnod – gyda phwyslais ar gymorth anfeddygol – i'r rheini sydd mewn argyfwng iechyd meddwl drwy PeaceHaven, canolfan ffisegol sy'n gweithredu drwy brif swyddfa yn ogystal â changhennau. Mae'r Ganolfan yn dwyn ynghyd amrywiaeth o fudiadau trydydd sector, gan gynnwys gweithwyr cefnogaeth gan gymheiriaid a chynghorwyr digartrefedd, gyda chymorth gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a gweithwyr cymdeithasol. Mae cyfleuster â phedwar gwely ar gael hefyd, lle gall unigolion aros am uchafswm o 72 awr gyda chymorth priodol. Mae'r prosiect yn dal yn ei ddyddiau cynnar, ond mae llwyth gwaith argyfwng y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi gostwng, ac mae wardiau cleifion mewnol hefyd yn cael llai o dderbyniadau annisgwyl. Hefyd, mae llawer llai o atgyfeiriadau gan feddygon teulu i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn cael eu gwrthod.

Yn y sesiwn hon cafwyd trafodaeth hefyd am y gofyniad i bob ymddiriedolaeth aciwt yn Lloegr sefydlu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys penodol ar gyfer Iechyd Meddwl, gyda chryn bryder ymysg ymarferwyr am y ffaith bod y cyllid a neilltuwyd ar gyfer hyn i fod i gael ei wario ar gostau cyfalaf yn unig, ac nid ar gostau rhedeg.

Rwyf wedi parhau i gael cyfarfodydd rheolaidd gyda Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am IMAD, Lou Bell, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a Vicky Jones, Pennaeth Strategaeth Integredig, IMAD.

Gyda'r Cadeirydd ac uwch staff IMAD, bûm mewn digwyddiad rhagorol ym Mhorthmadog a oedd yn dangos ffilm *'This Too Shall Pass'* am fyw gydag anhwylder deubegynol, a wnaed gyda chymorth Llais a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r ffilm hon yn addysgiadol ac yn emosiynol, ac mae ar gael ar YouTube.

Rwyf hefyd wedi parhau i fynychu Grŵp Cymheiriaid Is-gadeiryddion Conffederasiwn GIG Cymru, a gafodd gyfarfod wyneb yn wyneb defnyddiol iawn ym mis Mehefin: yn anffodus, ni allwn fod yn bresennol mewn cyfarfod ar y cyd rhwng Cadeiryddion ac

Is-gadeiryddion gan ei fod yn cyd-daro â chyfarfod y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG).

3. ATAL AC YMYRRYD YN GYNNAR

Bûm hefyd mewn ychydig o sesiynau'n ymwneud â'r newid o drin clefydau i atal clefydau, un o gonglfeini eraill cynllun 10 mlynedd GIG Lloegr. Cadarnhaodd sesiwn ar ddatblygu fferylliaeth gymunedol yr hyn rwyf wedi'i glywed gan ein timau ein hunain, sef bod Cymru ymhell ar y blaen i Loegr o ran cyflwyno mwy o wasanaethau mewn fferyllfeydd cymunedol, yn enwedig o ran fferyllwyr yn presgripsiynu. Er, roedd enghraifft ddiddorol o ogledd-orllewin Llundain lle'r oedd fferyllfeydd yn cynnig profion sgrinio pwysedd gwaed, gan dargedu'n arbennig gymunedau mwy difreintiedig ac unigolion oedd heb lawer o gyswllt, neu ddim cyswllt o gwbl, â'u practisau meddygon teulu.

Yn fwy cyffredinol, rwyf wedi parhau â'm rhaglen reolaidd o gyfarfodydd ac ymweliadau, gyda phwyslais penodol dros y ddau fis diwethaf ar ofal sylfaenol a chymunedol, sydd nawr yn cael sylw mwy dwys gan Lywodraeth Cymru.

4. GOFAL SYLFAENOL A GOFAL CYMUNEDOL

Bûm hefyd mewn ychydig o sesiynau'n ymwneud â'r newid o drin clefydau i atal clefydau, un o gonglfeini eraill cynllun 10 mlynedd GIG Lloegr. Cadarnhaodd sesiwn ar ddatblygu fferylliaeth gymunedol yr hyn rwyf wedi'i glywed gan ein timau ein hunain, sef bod Cymru ymhell ar y blaen i Loegr o ran cyflwyno mwy o wasanaethau mewn fferyllfeydd cymunedol, yn enwedig o ran fferyllwyr yn presgripsiynu. Er, roedd enghraifft ddiddorol o ogledd-orllewin Llundain lle'r oedd fferyllfeydd yn cynnig profion sgrinio pwysedd gwaed, gan dargedu'n arbennig gymunedau mwy difreintiedig ac unigolion oedd heb lawer o gyswllt, neu ddim cyswllt o gwbl, â'u practisau meddygon teulu.

Yn fwy cyffredinol, rwyf wedi parhau â'm rhaglen reolaidd o gyfarfodydd ac ymweliadau, gyda phwyslais penodol dros y ddau fis diwethaf ar ofal sylfaenol a chymunedol, sydd nawr yn cael sylw mwy dwys gan Lywodraeth Cymru.

5. UNRHYW FATER ARALL

Yn rhinwedd fy rôl fel Cadeirydd PFG, rwyf hefyd wedi bod yn ymwneud yn helaeth â gwaith ar y ddwy her o orfod aros yn hir am Ofal Brys a Gofal Argyfwng (UEC) a Gofal wedi'i Gynllunio. Rwy'n Cadeirio Grŵp Goruchwylio Adferiad UEC ac yn mynychu cyfarfodydd wythnosol gyda'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol eraill i ystyried y cynnydd a wneir o ran UEC a Gofal wedi'i Gynllunio. Ymwelais hefyd ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd gyda'n Cyfarwyddwr Meddygol, Clara Day, a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, Dr Caroline Turner. Bûm yn cymryd rhan yn y Cyfarfod Uwchgyfeirio ar 9 Gorffennaf gyda'r Gweinidog Cabinet newydd, a hefyd yn

ymweld â'r safle orthopedig newydd yn Llandudno gydag uwch swyddogion
Perfformiad a Gwella'r GIG a Llywodraeth Cymru.

ASESIAD / ASSESSMENT

Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol Link to Strategic Intentions

4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl

Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:
If more than one applies, please list below:

Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles

Pobl yn Gyntaf
Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:
If more than one applies, please list below:

Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework

Nid yw'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn arwain at unrhyw risgiau corfforaethol newydd.

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS

Cydraddoldeb

A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)

Equality

Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)

Do/Yes: ☐

Naddo/No: ☒

Canlyniad/Outcome:

Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:
If no, please include rationale:

Dim angen

Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol

A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?

Socio-Economic Impact Assessment

Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment

Do/Yes: ☐

Naddo/No: ☒

Canlyniad/Outcome:

Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:
If no, please include rationale:

Dim angen

Ansawdd

A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?

Quality

Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality
Mae pob un yn berthnasol

Meysydd Ansawdd Domains of Quality Mae pob un yn berthnasol

<i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Ddim yn berthnasol	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: Na - Ddim yn berthnasol	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog: Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome:	Naddo/No: ☒ Dim angen
Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data? Data Protection Impact Assessment Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome: Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒

Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact Assessment <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol) Resource Impact (People / Financial)	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	

Bwrdd Iechyd

ACHOS BUSNES AMLINELLOL – ATEBION DIGIDOL AR GYFER IECHYD CYMUNED BOB OED

Dyddiad y Cyfarfod	30 July 2026
Statws Cyhoeddi	Agored / Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad	Alison Kemp, Cyfarwyddwr Cyswllt, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Enw a theitl yr Aelod o'r Tîm Gweithredol Arweiniol	Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol
Pwrpas yr Adroddiad	I'w Gymeradwyo

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Achos Busnes Amlinellol hwn yn nodi'r angen strategol, clinigol a gweithredol am system ddigidol gynhwysfawr i gefnogi gwasanaethau iechyd cymunedol ar draws pob grŵp oedran yn y Bwrdd Iechyd. Mae'n cyd-fynd â'r Rhaglen Cysylltu Gofal genedlaethol, sy'n ceisio digideiddio cofnodion iechyd a gofal cymunedol a galluogi gwaith amlasiantaeth integredig ledled Cymru.

Mae'r Achos Busnes Amlinellol hwn wedi cael ei ystyried a'i gefnogi gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Mehefin a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ar 23 Mehefin 2026. Mae'r cynnig yn niwtral o ran refeniw fel y nodir yn Nhabl 16, ar yr amod bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau cymorth ariannol ar gyfer y cyfnod gweithredu gan y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF). Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Amlinellol Datrysiaid Digidol Iechyd Cymunedol Pob Oed er mwyn gallu dechrau proses gaffael ffurfiol cyn cwblhau'r Achos Busnes Llawn.

Mae gwasanaethau iechyd cymunedol - gan gynnwys nyrsys ardal, gwasanaethau plant a thimau cymunedol arbenigol, yn darparu dros 900,000 o gysylltiadau â chleifion bob blwyddyn ledled Gogledd Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn dibynnu'n helaeth ar gofnodion papur. Mae'r systemau tameidiog hyn yn cyfyngu ar fynediad amserol at wybodaeth, yn llesteirio gofal cydlynol, ac yn creu risgiau sylweddol o safbwynt diogelu a chlinigol, ac o ran llywodraethu gwybodaeth. Mae



adolygiadau cenedlaethol a lleol wedi atgyfnerthu'r angen i rannu gwybodaeth yn well er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd ymdrechion cynharach i weithredu system genedlaethol System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn aflwyddiannus o ran diwallu anghenion lleol. Mae'r Rhaglen Cysylltu Gofal newydd nawr yn cefnogi dull gweithredu "gorau o'i frîd", sy'n caniatáu Byrddau Iechyd i gaffael systemau sydd wedi'u teilwra i'w gofynion ar yr un pryd â chyfrannu at gofnod gofal integredig cenedlaethol.

Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw caffael a gweithredu System Ddigidol Iechyd Cymunedol Pob Oedran, gan ategu'r system EHR Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu a gymeradwywyd yn ddiweddar. Bydd yr ateb hwn yn gwneud y canlynol:

- Disodli nifer o hen systemau a phrosesau papur
- Galluogi mynediad amser real at gofnodion cleifion ar draws gwasanaethau
- Cefnogi gofal integredig, amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol
- Cyd-fynd â manylbau cenedlaethol a safonau rhyngweithredu

Disgwylir cyllid llawn ar gyfer y cam gweithredu drwy Lywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn amodol ar gymeradwyo cais diwygiedig am gymorth gweithredu. Byddwn yn egluro ein cynnydd o ran sicrhau'r cyllid hwn yn ystod y cam Achos Busnes Llawn.

Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau cenedlaethol a sefydliadol, gan gynnwys Cymru Iachach, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Rhaglen Plant Iach Cymru, Cymunedol o'r Cychwyn a strategaethau digidol a gwasanaeth y Bwrdd Iechyd.

Dyma rai o'r prif fanteision:

- Gofal mwy diogel o ansawdd gwell drwy wybodaeth amser real sy'n hygyrch i gleifion
- Gwell profiad y claf drwy wasanaethau cydlynol a chydgyssylltiedig
- Effeithlonrwydd y gweithlu drwy leihau baich gweinyddol a dyblygu
- Cymorth i drawsnewid gwasanaethau, gan alluogi mwy o ofal i gael ei ddarparu mewn lleoliadau cymunedol

Mae dadansoddiad economaidd yn dangos gwerth sylweddol, ac amcangyfrifir mai cyfanswm y buddion yw £47.5m (£3.6m o ryddhau arian a £37.7m o gynhyrchiant ac effeithlonrwydd, ar y cam Achos Busnes Amlinellol) yn erbyn costau o £14.4m, gan arwain at fudd economaidd cronus net o tua £33.1m yn ystod cyfnod y contract.

Ar y cam Achos Busnes Amlinellol hwn, nodir rhagolwg gros o fwllch refeniw rheolaidd o £724k y flwyddyn o Flwyddyn 4. Er y bydd y costau a'r tybiaethau hyn yn newid wrth nodi cyflenwr sy'n cael ei ffafrio, a bod rhagor o waith ar ailgynllunio prosesau busnes a gwireddu buddion yn cael ei gwblhau, mae Bwrdd y Prosiect wedi nodi ac wedi cytuno ar gamau gweithredu i sicrhau niwtraliaeth refeniw rheolaidd, fel y nodir yn Nhabl 16 yr Achos Busnes Amlinellol.

Bydd Bwrdd y Prosiect yn mynd i'r afael yn llawn ag unrhyw fwllch refeniw sy'n weddill yn yr Achos Busnes Llawn drwy wireddu arbedion cynhyrchiant, gan gynnwys cyfleoedd i reoli llwyth gwaith cynyddol o fewn adnoddau presennol wrth i'r galw am wasanaethau cymunedol dyfu, gan sicrhau bod yr Achos Busnes Llawn terfynol a gyflwynir i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd yn dangos cynnig refeniw parhaus fforddiadwy y gellir ei gyflawni, ac elw cadarnhaol ar fuddsoddiad.

Ystyrir nad yw'n gynaliadwy i gynnal y dull papur presennol, gyda risgiau cynyddol wrth i rannau eraill o'r system ddigideiddio. Gall methu â bwrw ymlaen:

- Dwysau risgiau o ran diogelwch cleifion a llywodraethu
- Effeithio ar recriwtio a chadw'r gweithlu
- Atal mynediad at gyllid cenedlaethol
- Gadael i'r Bwrdd Iechyd fod yn eithriad yng Nghymru, nad yw'n gallu cyfrannu'n llawn at y Cofnod Gofal Integredig

Ers cymeradwyo'r PFIG ar 23 Mehefin, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i Fyrddau Iechyd am ganlyniad y ceisiadau am arian o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF). Nid yw cyllid i gefnogi'r cam caffael ar gyfer y system Iechyd Cymunedol wedi cael ei gefnogi ym mlwyddyn ariannol 2026/27. Mae hyn yn effeithio ar y tybiaethau economaidd a wnaed yn Nhablau 2 a 12, a'r tybiaethau ariannol a wnaed yn Nhablau 3 a 15 yr Achos Busnes Amlinellol.

Er gwaethaf y diffyg cadarnhad o gyllid DPIF ar gyfer 2026/27, mae'r prosiect hwn yn dal i gael ei ystyried yn flaenoriaeth sefydliadol sy'n lliniaru risgiau allweddol o ran diogelwch cleifion. Felly, rydym yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn gallu symud ymlaen i gynnal proses dendro ffurfiol a gweithgarwch cysylltiedig yr Achos Busnes Llawn. Bydd y Bwrdd Prosiect yn lliniaru'r oedi hwn mewn cyllid drwy wneud y canlynol:

- Ailddyrannu adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd ac amser staff gwarchodedig i barhau â'r Achos Busnes Llawn a'i gwblhau, heb gost ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd.
- Parhau i ddefnyddio'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar gyfer Iechyd Meddwl Pob Oedran lle mae gorgyffwrdd tebyg.
- Bwrw ymlaen â Thendr i gadarnhau bod system ar gael a rhoi sicrwydd ynghylch costau prisio a gweithredu, gan reoli risg ar yr un

pryd drwy sicrhau bod unrhyw ddyfarniad contract dilynol yn gwbl ddibynol ar Achos Busnes Llawn cymeradwy a fforddiadwy.

- Lle bo'n briodol, cydweithio â Byrddau Iechyd eraill i fwrw ymlaen â'r broses dendro ar y cyd a datblygu'r Achos Busnes Llawn, gan rannu risgiau a chyfleoedd lle bynnag y bo modd.
- Ailgyflwyno cais am gyllid DPIF ar gyfer 2027/28 er mwyn cefnogi costau gweithredu.
- Gohirio cyn bwrw ymlaen â'r Achos Busnes Llawn Iechyd Cymunedol a'r amserlen weithredu i gyd-fynd ag amserlenni cyllido a chyfleoedd y cytunwyd arnynt ar gyfer 2027/28.

Casgliad yr Achos Busnes Amlinellol yw bod achos cryf dros fwrw ymlaen â chaffael system ddigidol gymunedol, wedi'i ategu gan aliniad strategol cryf, lliniaru risg yn glir, a manteision sylweddol a ragwelir.

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- **CYMERADWYO'R** Achos Busnes Amlinellol (**Atodiad A** - wedi'i atodi ar wahân) yn ei gyd-destun presennol, gan nodi'r angen i sicrhau cyllid DPIF / Llywodraeth Cymru i dalu am gostau gweithredu ac y bydd Achos Busnes Llawn sy'n fforddiadwy'n barhaus yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n llawn cyn dyfarnu'r contract a'i roi ar waith
- **CYMERADWYO'R** ymarfer tendro i nodi'r ffordd orau o fwrw ymlaen o ran caffael, gan gadw'r opsiwn ar gyfer naill ai caffael dan arweiniad lleol neu gaffael cydweithredol gyda Byrddau Iechyd eraill, gan nodi y bydd unrhyw ddyfarniad contract dilynol yn dibynnu ar Achos Busnes Llawn sy'n fforddiadwy'n barhaus.
- **CEFNOGI'R** defnydd o adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn, gyda'r cytundeb y bydd yr Achos Busnes Llawn a gyflwynir i'w gymeradwyo yn dilyn tendr caffael ffurfiol ar gyfer y system yn dangos ac yn cynnig fforddiadwyedd parhaus.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
---	--------------	---

Bwrdd Rhaglen Cofnod Iechyd Electronig	19.05.2025	Cymeradwywyd y papur, sy'n cynnig caffael systemau digidol "gorau o'i frid" ar wahân i gefnogi gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Iechyd Cymunedol. Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bresennol ac yn gefnogol.
Cyfarfod gyda Carol Shillabeer	09.04.2026	Cyflwynwyd Crynodeb o Gynnydd yr Achos Busnes Amlinellol. Sicrhau cefnogaeth y Prif Swyddog Gweithredol i fynd â'r Achos Busnes Amlinellol terfynol drwy brosesau cymeradwyo.
Bwrdd Prosiect Cysylltu Gofal	19.05.2026	Cymeradwyo
Grŵp Cyflawni Rhaglenni Digidol	19.05.2026	Goruchwyliaeth
Uwch Dîm Arwain Digidol, Data a Thechnoleg	26.05.2026	Er gwybodaeth
Y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol	26.05.2026	Cymeradwyaeth Achos Busnes Amlinellol i'r Bwrdd Gweithredol
Y Pwyllgor Gweithredol	03.06.2026	Canlyniad - Darparu brieff adolygu a gofyn am ddod â'r Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddiweddarau yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a drefnwyd ar 18.06.26 i'w adolygu ymhellach
Y Pwyllgor Gweithredol	18.06.2026	Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol i'r PFIG
PFIG	23.06.2026	Ardystiwyd i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd

Acronymau / Rhestr Termau Acronyms / Glossary of Terms	
Acronym / Term	M = Ystyr
A&E	Damweiniau ac Achosion Brys
ANP	Uwch-ymarferydd Nyrsio
API	Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiaidau
BAU	Busnes fel Arfer
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CCIO	Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol
CNIO	Prif Swyddog Gwybodaeth Nyrsio



FfLIA	Ffactor Llwyddiant Critigol
CYPSIS	System Iechyd Plant a ddefnyddir yng Nghymru
DCB0129 / DCB0160	Safonau Diogelwch Clinigol ar gyfer Systemau TG Iechyd
DDaTh	Digidol, Data a Thechnoleg
DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
DN	Nyrsys Ardal
DPIA	Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data
DPIF	Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol
DMS	System Mamolaeth Ddigidol
ECC	Gofal Cymunedol Gwell
EHR	Cofnod Iechyd Electronig
eMPI	Prif Fynegai Clefion Electronig
ePMA	Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig
EQIA	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
FBC	Achos Busnes Llawn
FHIR	Adnoddau i Ryngweithredu Gofal Iechyd Cyflym
GP	Meddyg Teulu
HL7	Lefel Iechyd Saith
HV	Ymwelydd Iechyd
ICR	Cofnod Gofal Integredig
IHC	Cymuned Iechyd Integredig
ITT	Gwahoddiad i Dendro
DPA	Dangosydd Perfformiad Allweddol
LPP	Partneriaeth Gaffael Llundain
MDT	Y Tîm Amlddisgyblaethol
MEAT	Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd
MDS	Set Ddata Sylfaenol
MH / MHL D	Iechyd Meddwl / Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
NADEX	Cyfeiriadur Gweithredol Cenedlaethol
NCV	Gwerth Cronnol Net
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NWSSP	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
OBC	Achos Busnes Amlinellol
OOH	Y Tu Allan i Orlau
PACS	System Archifo Lluniau a Chyfathrebu
PAS	System Gweinyddu Clefion
PID	Dogfennau Cychwyn Prosiect
PFIG	Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
PRINCE2	Methodoleg Rheoli Prosiectau
PTR	Gweithio i Wella
RAID	Risgiau, Tybiaethau, Materion, Dibyniaethau
RIS	System Gwybodaeth Radioleg



RPI	Mynegai Prisiau Manwerthu
SCPHN	Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Arbenigol yn y Gymuned
SLT	Uwch Dîm Arwain
SNOMED CT	Cyfundrefn Systematig o Enwi Meddyginiaeth - Termau Clinigol
SRO	Uwch Berchennog Cyfrifol
SPOA	Un Pwynt Mynediad
UAT	Profi Derbynioldeb i'r Cwsmer
TAW	Treth ar Werth
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
WCP	Porth Clinigol Cymru
WDS	Gwasanaethau Demograffig Cymru
LIC	Llywodraeth Cymru
WIS	System Imiwneiddio Cymru
WNCR	Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
WPRS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
WRDS	Gwasanaeth Data Cyfeirio Cymru
WRRS	Gwasanaeth Adrodd ar Ganlyniadau Cymru



Achos Busnes Amlinellol – Atebion Digidol ar gyfer Iechyd Cymuned Bob Oed

1. SEFYLLFA

- 1.1 Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn mynegi'r angen am System Ddigidol i gefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Iechyd Cymunedol, ar draws gwasanaethau plant, pobl ifanc ac oedolion.
- 1.2 Fel rhan o'r Rhaglen Cysylltu Gofal genedlaethol, mae Gofal Iechyd Digidol Cymru wedi cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi'r gwaith o gaffael a gweithredu System Ddigidol Iechyd Cymunedol mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i Brifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y flwyddyn ariannol hon i gefnogi systemau Iechyd Meddwl, Mamolaeth ac Optometreg Pob Oedran. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd cyllid DPIF ar gyfer y prosiect hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. Bydd cais am gymorth costau gweithredu yn cael ei ailgyflwyno ar gyfer blynyddoedd ariannol 2027/28 a 2028/29.
- 1.3 Bydd cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol hwn ar y cam hwn yn golygu bod modd bwrw ymlaen â'r tendr er mwyn hwyluso'r gwaith o gwblhau'r Achos Busnes Llawn a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn y gellir dyfarnu unrhyw gontract a bwrw ymlaen ag ef.
- 1.4 Yna, bydd Achos Busnes Llawn sy'n fforddiadwy'n barhaus yn cael ei ddatblygu i geisio cytundeb y Bwrdd Iechyd a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ymrwmo i gontract gyda'r cyflenwr sy'n cael ei ffafrio i weithredu System Iechyd Ddigidol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol.

1. CEFNDIR

- 1.1 Nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gaffael a gweithredu system TG gymunedol integredig, aml-asiantaeth dros ddegawd yn ôl, i'w chyflwyno o dan Raglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)
 - 1.1.1 Casgliad gwerthusiad cenedlaethol o Raglen WCCIS oedd bod angen dull gweithredu gwahanol. Yn 2023, cafodd Rhaglen WCCIS ei disodli gan y rhaglen Cysylltu Gofal fel y drefn o ddigideiddio cofnodion iechyd a gofal a galluogi darparu gofal amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol mewn lleoliadau cymunedol.
 - 1.1.2 Mae'r rhaglen Cysylltu Gofal yn cefnogi'r gwaith o weithredu systemau masnachol "gorau o'u brîd" ar wahân mewn Awdurdodau Lleol a Byrddau

Iechyd. Bydd gwybodaeth amlasiantaeth yn cael ei rhannu wrth i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu Cofnod Gofal Integredig.

- 1.1.3 Mae chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru wedi cydweithio ac yn gweithredu system MOSAIC i ddisodli systemau'r Cyfarwyddwr Gofal a PARIS.
- 1.1.4 Gofynnwyd i Fyrddau Iechyd a fyddent yn prynu Systemau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) a Systemau Cymunedol cyfun, neu'n rhoi systemau ar wahân ar waith. Dewisodd BIPBC gaffael systemau ar wahân.
- 1.1.5 Ar ôl i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ym mis Ionawr 2026, mae system Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Pob Oedran, sydd hefyd yn ymgorffori cleifion a chleientiaid Niwroamrywiol, yn symud ymlaen i'r cam gweithredu.
- 1.1.6 Erbyn hyn, mae angen system Gymunedol i Bob Oedran er mwyn cwblhau elfennau'r Bwrdd Iechyd o'r Rhaglen Cysylltu Gofal.
- 1.1.7 Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025, cymeradwyodd Bwrdd Rhaglen Cofnod Iechyd Electronig y Bwrdd Iechyd a chytuno ar gwmpas y system, sydd i'w weld yn y tabl isod.

Nyrsio Cymunedol

- Nyrsys Ardal
- Timau Gofal Cymhleth
- Nyrsio Hyfywedd Meinwe
- Nyrsio Ymataliaeth
- Nyrsio Lymffoedema
- Nyrsio Gofal Lliniarol Cymunedol*
- Gofal Iechyd Parhaus*
- Cyflyrau Cymhleth Cymunedol* (Gydag aliniad i gynnwys pob arbenigedd)
- Nyrsys Atal Strôc

(Bydd Bydwagedd Cymunedol yn dod o dan gwmpas y System Mamolaeth Ddigidol (DMS))

Gwasanaethau Plant Cymunedol

- Ymwelwyr Iechyd (gan gynnwys swyddi Ymwelwyr Iechyd Arbenigol)
- Nyrsio Ysgolion
- Nyrsio Plant yn y Gymuned
- Nyrsys Arbenigol yn y Gymuned - Gydag aliniad i gynnwys pob arbenigedd
- Pediatreg Gymunedol*
- Prawf Meddygol Gofal Lliniarol i Blant*
- Gofal Iechyd Parhaus i Blant*
- Plant sy'n Derbyn Gofal

Ymarferydd CAMHS - Mae Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaethau Niwroddatblygu a Gwasanaethau Anableddau Dysgu Plant i gyd wedi'u cynnwys yn y Cwmpas Iechyd Meddwl

* Yn ofynnol yn ogystal â chwmpas y gwasanaeth yn yr Achos Busnes Amlinellol cenedlaethol ar gyfer Cysylltu Gofal

- 1.1.8 Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu dros 900,000 o gysylltiadau â chleifion bob blwyddyn ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae pob un yn gweithredu gan ddefnyddio cofnodion papur, sy'n cael eu storio mewn sawl lleoliad ar draws Gogledd Cymru. Mae'r cofnodion ar wahân hyn yn llesteirio gwaith amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol amserol ac yn cyflwyno risgiau clinigol, diogelu a gweithredol.
- 1.1.9 Mae cymorth ar gyfer System Ddigidol Gymunedol yn cyd-fynd â pholisi Cenedlaethol a pholisi'r Bwrdd Iechyd, ar gyfer darpariaeth ddigidol ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o wasanaethau clinigol a gofalu am gleifion ag anghenion gofal mwy cymhleth mewn lleoliadau Cymunedol. Mae hwn yn alluogwr allweddol i gyflawni'r Rhaglen Gymunedol Drwy Ddylunio.
- 1.1.10 Mae risgiau Llywodraethu Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â defnyddio a storio cofnodion papur yn y Bwrdd Iechyd wedi cael eu cofnodi a'u huwchgyfeirio.
- 1.1.11 Tynnwyd sylw at yr angen am fynediad amserol at gofnodion a'r gallu i rannu gwybodaeth allweddol ar draws timau a sectorau mewn nifer o ymchwiliadau ac adroddiadau, yn genedlaethol ac yn lleol.
- 1.1.12 Mae timau rheoli wedi gweithio i fynd i'r afael â risgiau lle bo modd. Yn flaenorol, mae timau Nyrsys Ardal wedi gweithredu a rheoli system amserlennu electronig yn weithredol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Nid yw hwn yn gofnod electronig. Mae timau Iechyd Plant yn cael eu cefnogi i drefnu a chofnodi rhai ymyriadau gyda'r System Iechyd Plant. Mae angen cofnodion papur o hyd gan nad yw'r system ar gael i dimau ehangach ac nid oes gan staff ddyfeisiau symudol i gael mynediad i'r system. Mae cynllun peilot wedi dechrau defnyddio system Gwasanaethau Clinigol EMIS i gefnogi gwaith Uwch Ymarferwyr Nyrsio yng Nghymuned Iechyd Integredig y Canol yn dilyn beirniadaeth gan y Crwner o'r diffyg cofnodion a rennir ar gyfer cleifion ag anghenion cymhleth yn y gymuned.

2. **MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED**

- 2.1 Mae caffael system Ddigidol Gymunedol yn cyd-fynd â Strategaethau Digidol a Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd a rhai cenedlaethol, gan gynnwys y canlynol:
- Cymru Iachach
 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
 - Rhaglen Plant Iach Cymru
 - Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc
 - Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
 - Rhaglen Cysylltu Gofal
 - Rhaglen Genedlaethol Cymunedol o'r Cychwyn
 - Sefydlu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig

- IMTP BIPBC 2026-2029
 - Rhaglen Cofnod Iechyd Electronig BIPBC
- 2.2 Ystyriwyd pum opsiwn, a diystyrwyd pedwar ohonynt gan nad oedd modd eu cyflawni neu nad oeddent yn cyflawni'r Ffactorau Llwyddiant Critigol a nodwyd. Yr opsiwn i gaffael system Iechyd Cymunedol oedd yr opsiwn a ffafriwyd, naill ai drwy gaffael BIPBC yn unig, neu, fel y gwnaethom ar gyfer y System Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Pob Oedran, caffael ar y cyd â Bwrdd Iechyd arall.
- 2.3 Mae gwybodaeth am y farchnad, a gasglwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel rhan o'r Rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal, wedi dangos bod systemau masnachol ar gael yn y DU sy'n bodloni'r fanyleb graidd genedlaethol. Mae rhai o'r systemau hyn eisoes ar fframweithiau cenedlaethol.
- 2.4 Bwriedir i gostau gweithredu'r system gael eu talu drwy adnoddau a sicrhau drwy Achos Busnes cenedlaethol Cysylltu Gofal. Mae llwyddiant yn dibynnu ar sicrhau'r cyllid allanol hwn yn ystod y cyfnod gweithredu rhwng 2027/28 a 2028/29.
- 2.5 Datblygwyd Achos Busnes Amlinellol y Bwrdd Iechyd mewn partneriaeth agos ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, rhanddeiliaid gwasanaeth, y Tîm DDAT, ac arweinwyr allweddol yn y System Iechyd Meddwl i Bob Oedran.
- 2.6 Mae'r holl adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyflwyno rhaglen WCCIS yn BIPBC wedi cael eu dyrannu i ddarparu'r system Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Pob Oedran. Mae cyfleoedd i rannu neu ddefnyddio'r adnoddau hyn i gefnogi elfennau Cymuned Pob Oed rhaglen gyffredinol WCCIS wedi cael eu harchwilio ac fe'u hadlewyrchir yn yr Achos Busnes Amlinellol. Bydd rhagor o gyfleoedd yn parhau i gael eu hystyried ar y cam Achos Busnes Llawn.
- 2.7 Mae tair system; Amserlennu CIVICA, System Iechyd Plant CYPrIS a Chymuned Myrddin wedi cael eu clustnodi i'w disodli gan y System Iechyd Cymunedol Pob Oedran newydd, gan ryddhau'r adnoddau hyn i gyfrannu at gostau'r system newydd.

Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn tynnu sylw at amcangyfrif o her refeniw gros i ddarparu'r system o fewn "busnes arferol", sef £724k y flwyddyn o Flwyddyn 4 ymlaen. Amlinellir cynnig y cytunwyd arno ar gyfer cau'r bwlch hwn yn adran 5 yr Achos Busnes Amlinellol. Bydd hyn yn cael ei ddatrys yn llawn drwy'r cam caffael a'r Achos Busnes Llawn, gyda'r Achos Busnes Llawn terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd i'w gymeradwyo ar sail fforddiadwyedd a chyflawni parhaus.

Tabl Achos Busnes Amlinellol 16: Cynnig i sicrhau niwtraliaeth refeniw

Eitem Cost / Budd	10 oed Cyfanswm £000's
Bwlch refeniw gros yr Achos Busnes Amlinellol	724
Costau'r Drwydded Dendr yn unol â contract MHL EHR	(118)
Gellir hawlio TAW yn ôl ar ffioedd trwydded (yn unol â MHL EHR)	(51)
Tynnu'r Risg a'r Rhagfarn ar yr Achos Busnes Llawn	(58)
Bwlch refeniw gweithredol gweddilliol	497
Gostyngiad yng nghostau cefnogi'r system drwy gael mwy o arbedion effeithlonrwydd yn DDAT a darpariaeth Gwasanaeth. Trosi buddion Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant yn fuddion rhyddhau arian parod, gan gynnwys dileu swyddi gwag a lleihau oriau o bob rhan o wasanaeth Cymuned Oedolion a Phlant PBC	(497)
EFFAITH REFENIW ACHOS BUSNES LLAWN	0

- 2.8 Mae asesiad yn seiliedig ar feincnodau cenedlaethol a mapio prosesau lleol, wedi nodi manteision cynhyrchiant ac effeithlonrwydd nad ydynt yn rhyddhau £37m o arian parod dros oes contract System Gymunedol, yn ogystal â £3.6m o fuddion rhyddhau arian parod.
- 2.9 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r effaith economaidd dros gyfnod 10 mlynedd y contract a'r prosiect.

Tabl 2: Dadansoddiad o'r Asesiad Economaidd a'r Tybiaethau

Eitem Cost / Budd	£000's
Costau Cyflenwyr	3,940
Costau Refeniw Byrddau Iechyd	9,735
Risg a Rhagfarn	687
Cyfanswm Costau	14,362
Cyllid LIC / Iechyd a Gofal Digidol Cymru	(6,325)
Buddion sy'n rhyddhau arian parod	(3,579)
Buddiannau nad ydynt yn rhyddhau arian parod	(37,609)
Cyfanswm Manteision	(47,513)
Gwerth Cronnol Net	(33,151)

- 2.10 Os na fydd cymorth ariannol dilynol gan DPIF, mae'r asesiad economaidd yn dal i ddangos gwerth economaidd cronnus net sylweddol.
- 2.11 Mae'r achos rheoli yn dangos bod digon o allu a chymhwysedd yn y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r newid i'r gwasanaeth sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o weithredu'r system a gwireddu buddion.

3. RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO

- 3.1 Nid yw'r sefyllfa bresennol, sef cymorth digidol cyfyngedig ar gyfer amserlennu gweithgarwch a'n dibyniaeth ar gofnodion papur i ddarparu gofal clinigol yn y gymuned, yn gynaliadwy. Mae'r risgiau clinigol, diogelu, llywodraethu gwybodaeth a gweithredol o beidio â symud ymlaen i system ddigidol yn sylweddol. Mae'r risg gymharol yn cynyddu wrth i bob rhan arall o'r system iechyd a gofal symud i lwyfannau digidol.
- 3.2 Bydd methu â buddsoddi mewn system ddigidol gynhwysfawr yn cael mwy a mwy o effaith ar ein gallu i recriwtio a chadw staff a hyfforddi myfyrwyr.
- 3.3 Os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol, mae risg na fydd modd i ni gael gafael ar adnoddau cenedlaethol i gefnogi costau gweithredu. Gall methu â gweithredu system hefyd olygu mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r unig Fwrdd Iechyd nad oes ganddo system ddigidol ar waith ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a'r unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru nad yw'n gallu cyfrannu'n llawn at y Cofnod Gofal Integredig cenedlaethol.
- 3.4 Bydd y bwlch refeniw gros a amlygwyd ar y cam Achos Busnes Amlinellol yn cael ei fireinio wrth ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. Bydd Bwrdd y Prosiect yn gweithio i drosi lefel yr enillion cynhyrchiant a nodwyd i ryddhau arian parod yn ôl yr angen er mwyn sicrhau fforddiadwyedd refeniw parhaus.
- 3.5 Mae'r broses o roi'r system ar waith hefyd yn gyfle sylweddol i ryddhau capasiti i gefnogi newid gofal o leoliadau eraill i'r gymuned a chyflawni bwriad strategol y Bwrdd Iechyd.

4. ARGYMHELLION

- 4.1 Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:
- Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol (**Atodiad A** - wedi'i atodi ar wahân) yn ei gyd-destun presennol, gan nodi'r angen i sicrhau cyllid DPIF / Llywodraeth Cymru i dalu am gostau gweithredu ac y bydd Achos Busnes Llawn sy'n fforddiadwy'n barhaus yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n llawn cyn dyfarnu'r contract a'i roi ar waith
 - Cymeradwyo'r ymarfer tendro i nodi'r ffordd orau o fwrw ymlaen o ran caffael, gan gadw'r opsiwn ar gyfer naill ai caffael dan arweiniad lleol neu gaffael cydweithredol gyda Byrddau Iechyd eraill, gan nodi y bydd unrhyw ddyfarniad contract dilynol yn dibynnu ar Achos Busnes Llawn sy'n fforddiadwy'n barhaus.
 - Cefnogi'r defnydd o adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn, gyda'r cytundeb y bydd yr Achos Busnes Llawn a gyflwynwyd i'w gymeradwyo yn dilyn tendr caffael ffurfiol ar gyfer y system yn dangos ac yn cynnig fforddiadwyedd parhaus.

ASESIAD	
Cysylltiad â'r Blaenoriaethau Strategol	    
	4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad Mae'r Datrysiad Digidol Iechyd Cymunedol i Bob Oedran yn cefnogi blaenoriaethau strategol BIPBC yn uniongyrchol drwy: • Gwella Ansawdd a Safonau Gofal • Galluogi mynediad amser real at wybodaeth cleifion, gan leihau'r risg glinigol sy'n gysylltiedig â systemau tameidiog a rhai ar bapur • Gwella Profiad y Claf • Cefnogi gofal mwy cydlynol a chydgyssylltiedig ar draws gwasanaethau cymunedol • Cefnogi Cynaliadwyedd y Gweithlu • Lleihau baich gweinyddol, dyblygu ac aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â phrosesau â llaw • Sbarduno Trawsnewid Digidol • Cyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Cysylltu Gofal ac uchelgeisiau digidol ehangach
Egwyddorion Cynllunio	Digidol yn Gyntaf Mae'r ateb arfaethedig yn cyd-fynd â'r egwyddorion dylunio allweddol sy'n sail i drawsnewid digidol yn BIPBC: • Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf Systemau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi gofal di-dor ar draws ffiniau sefydliadol a gwasanaeth • Y gallu i Ryngweithredu Integreiddio â systemau cenedlaethol a lleol i alluogi rhannu gwybodaeth ar draws lleoliadau gofal • Safoni Llai o amrywiaeth drwy brosesau a llifoedd gwaith digidol cyson • Digidol yn Bennaf

	Symud oddi wrth brosesau ar bapur i wella effeithlonrwydd, cywirdeb a hygyrchedd Y Gallu i Dyfu yn Unol ag Anghenion a Diogelu at y Dyfodol Gallu ehangu ac integreiddio â gwasanaethau a thechnolegau'r dyfodol
Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Mae'r Ateb Digidol Iechyd Cymunedol i Bob Oedran yn cyfrannu'n uniongyrchol at liniaru nifer o risgiau corfforaethol presennol sy'n cael eu cofnodi yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR). CR25-03 Angen y Boblogaeth - (angen rheolaeth ychwanegol) dim digon o integreiddio digidol ar gyfer gwasanaethau cymunedol a niwroddatblygiadol BAF24-02 Peidio â chyflawni datblygiad strategol a thrawsnewid digidol BAF24-08 Peidio â gweithredu gwelliannau ac arloesi yn seiliedig ar dystiolaeth Ar lefel gwasanaeth: ID4905 (sgôr 20): Mae risg y gallai diogelwch cleifion gael ei beryglu oherwydd yr anallu i gael mynediad at gyfathrebu digidol amserol â chleifion a chynnal hynny. Gall hyn gael ei achosi gan ddiffyg cofnodion gofal integredig i gleifion ac mae wedi bod yn destun Rheoliad 28, Adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol, a gyhoeddwyd gan Grwner EF, yn ddiweddar, bod diffyg cofnodion digidol am gleifion wedi cyfrannu at farwolaeth cleifion. Gallai hyn arwain at batrwm parhaus lle mae diffyg cofnodion digidol cleifion yn cael eu nodi fel ffactor sy'n cyfrannu at yr adolygiad o ddigwyddiadau difrifol ac at ragor o Gwestau.

**Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol –
Nodau Llesiant**

Mae'r cynnig yn cefnogi nodau llesiant y Ddeddf fel a ganlyn:

- **Cymru Iachach**
Gwella canlyniadau iechyd drwy gydlyn gofal yn well a'i wneud yn fwy hygyrch
- **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**
Cefnogi mynediad teg at wasanaethau cymunedol cyson o ansawdd uchel
- **Cymru Lewyrchus**
Gyrru effeithlonrwydd a galluogi gwell defnydd o adnoddau drwy drawsnewid digidol
- **Cymru Gydnerth**
Cryfhau cadernid gwasanaethau drwy ddefnyddio systemau modern, rhyngweithredol
- **Cymru o Gymunedau Cydlynus**
Cefnogi gofal integredig yn y gymuned, yn nes at y cartref
- **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**
Lleihau dibyniaeth ar bapur a chefnogi arferion digidol cynaliadwy
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dwyieithog drwy atebion digidol modern lle bo hynny'n berthnasol



ASESIADAU O'R EFFAITH		
Cydraddoldeb <i>Ydych chi wedi ymgymryd ag Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i>	Do: ☒	Naddo: ☐
	Canlyniad:	Canfu'r asesiad effaith gadarnhaol gyffredinol ar grwpiau gwarchodedig, ac y bydd y rhaglen yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i wella mynediad ac yn gwella profiad cleifion drwy gasglu a dadansoddi data'n well, a hyrwyddo gofal unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nodwyd nifer o fân effeithiau negyddol posibl, ac mae'r rhain wedi cael eu lliniaru'n llawn, gyda'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu cofnodi yn yr asesiad ei hun.
	Os naddo, rhowch resymeg:	
Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol <i>Ydych chi wedi cyflawni Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol</i>	Do: ☒	Naddo: ☐
	Canlyniad:	Canfu'r asesiad effaith gadarnhaol gyffredinol ar grwpiau gwarchodedig, ac y bydd y rhaglen yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i wella mynediad ac yn gwella profiad cleifion drwy gasglu a dadansoddi data'n well, a hyrwyddo gofal unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nodwyd nifer o fân effeithiau negyddol posibl, ac mae'r rhain wedi cael eu lliniaru'n llawn, gyda'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu cofnodi yn yr asesiad ei hun.
	Os naddo, rhowch resymeg:	
<u>Answadd</u> <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Answadd?</i>	Galluogwyr Answadd	Meysydd Answadd
	Rhy gynnar i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd.	Rhy gynnar i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd.

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant</u>	Cymru Iachach	
Effaith Amgylcheddol/Cynaliadwyedd (5R)	Na - Ddim yn berthnasol	
Y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog Ydych chi wedi ystyried y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog?	Do: ☒	Naddo: ☐
	Canlyniad:	Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cymuned yn trin/cefnogi pob claf, gan gynnwys y rheini sydd wedi bod yn y Lluoedd Arfog. Mae'r gwasanaeth yn ystyried rhwymedigaethau unigryw'r Lluoedd Arfog, a'r aberthau a wneir ganddynt. Yn y pen draw, mae'r system yn cefnogi gofal ac yn caniatáu casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth ac effaith. Byddai'r system yn golygu bod modd cofnodi statws claf fel cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, a blaenoriaethu gofal yn unol â'r cyfamod.
	Os naddo, rhowch resymeg:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	Amh
	Os naddo, rhowch resymeg:	Rhy gynnwys i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd.
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	Amh
	Os naddo, rhowch resymeg:	Rhy gynnwys i ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd.

Cyfreithiol	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)
	Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru i ddilyn yr holl ddeddfwriaeth caffael berthnasol.
Enw da	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol)	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)
	I gyflawni'r rhaglen, bydd angen cyfuniad o gymorth cyllid cenedlaethol ac adnoddau a ddefnyddir yn lleol i gefnogi caffael, gweithredu a phontio i weithrediad busnes fel arfer. Gweithlu (Pobl): Bydd strwythur rhaglen diffiniedig yn cael ei sefydlu, gan ddefnyddio rolau prosiect, clinigol, digidol a gweithredol penodol. Bydd hyn yn cynnwys: • Adnoddau gweithredu a rhaglenni am gyfnod penodol i gefnogi caffael, datblygu Achos Busnes Llawn (FBC), ffurfwedd, profi a defnyddio systemau. Bydd adnoddau i gefnogi'r cam caffael a'r Achos Busnes Llawn yn cael eu cyrchu'n fewnol. • Arbenigedd pwnc clinigol a gweithredol i sicrhau diogelwch wrth ddylunio, alinio llwybr a mabwysiadu • Capasiti Digidol, Data a Thechnoleg i gefnogi integreiddio, seilwaith a rheoli systemau'n barhaus Lle bo'n bosibl, bydd adnoddau presennol y rhaglen, gan gynnwys y rheini sy'n cyd-fynd â'r rhaglen ddigidol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu bresennol a datgomisiynu'r hen system, yn cael eu hail-neilltuo i leihau dyblygu a chynyddu gwerth. Ariannol: Disgwylir i'r costau gweithredu cychwynnol gael eu talu drwy gyllid Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes cenedlaethol. Bydd hyn yn cael ei

egluro cyn i'r Achos Busnes Llawn gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi amcangyfrif o'r gofyniad refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Costau trwyddedu systemau a chefnogi cyflenwyr
- Capasiti DDaT a gweinyddu'r system yn parhaus
- Cymorth digidol sy'n seiliedig ar wasanaeth a gweithgarwch optimeiddio

Nodwyd bwlch refeniw gros a ragwelir o tua £724k y flwyddyn o Flwyddyn 4. Bydd hyn yn cael ei fireinio drwy'r Achos Busnes Llawn, gan gynnwys cadarnhad o gostau cyflenwyr a thybiaethau'r model gweithredu.

Mae Tabl 16 yn yr Achos Busnes Amlinellol yn dangos sut bydd y bwlch refeniw hwn yn cael sylw llawn ac yn cael ei ddatrys yn yr Achos Busnes Llawn.

Fforddiadwyedd a Lliniaru:

Bydd y rhaglen yn mynd ati i geisio lliniaru'r effaith ariannol reolaidd drwy wneud y canlynol:

- Ail-fuddsoddi adnoddau a ryddhawyd drwy ddatgomisiynu systemau a etifeddwyd a lleihau prosesau ar bapur
- Cyfleoedd i ymdopi â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau o fewn capasiti presennol y gweithlu drwy alluogi digidol
- Gwireddu manteision cynhyrchiant ac effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â llai o ddyblygu, llif gwaith symlach, a gwell mynediad at wybodaeth

Adroddiad Materion Allweddol y Bwrdd Iechyd

Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		02/07/2026	Adroddiad: Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad
Cafwyd cworwm:		Do	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) yn parhau i gyfarfod yn ddeufisol. Gwnaeth y Pwyllgor ystyried agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor QSE - BIPBC	
2a	Rhybudd	Mae'r Pwyllgor QSE yn dymuno rhybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Yn ymwneud â phroses newydd Trefniadau GIG Cymru ar gyfer Pryderon, Cwynion a Gwneud lawn. Mae Gwrando ar Bobl wedi cael ei roi ar waith, bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Pherfformiad a Gwella GIG Cymru ar y cyfnod o newid, bu oedi o ran rhai dogfennau a hyfforddiant ond roedd y Bwrdd Iechyd yn barod i roi Gweithio i Wella ar waith ac yn barod am y cyfnod o newid. Nododd Llais nad oedd cyfathrebu â'u sefydliad yr un mor effeithiol. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â'r Gwasanaethau Ymholiadau a Datrysiaidau Pobl (PEARS) dros yr Hydref. 2. Mae pwysau dealladwy a sylweddol i wella oedi o ran trosglwyddiadau ambiwlans i lefel o sero o ran tramgwyddiadau o 45 munud erbyn yr hydref. Bydd hyn yn lleihau risg gymunedol i gleifion sy'n aros am ambiwlans. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd yn hyn o beth trwy sicrhau na fydd hyn yn arwain at risg gynyddol mewn adrannau sy'n orlawn. Caiff Asesiad o Effaith Ansawdd lleol ei gynnal ochr yn ochr â gwaith parhaus i leihau lefelau defnydd yn yr Adrannau Achosion Brys. 3. Nododd y Pwyllgor y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth sicrhau bod dyfarniad diweddar y Goruchaf Lys ar Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cael ei roi ar waith yn briodol, gan gynnwys hyfforddi staff, cyfathrebu â chleifion a theuluoedd, a monitro unrhyw oblygiadau'n barhaus yn ymwneud â threfniadau diogelu. 4. Mae AGIC wedi dynodi Adran Achosion Brys YGC fel Gwasanaeth lle Bo Angen Gwelliant Sylweddol, ac mae angen i BIPBC weithredu ar nifer o gamau gweithredu dybryd. Mae cynllun ar waith i gyflawni o ran y camau gweithredu hyn, ac mae gwersi i'w dysgu yn cael eu	

		datblygu ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. Ni ddisgwylir yr adroddiad llawn tan ddiwedd yr haf.
2b	Sicrwydd	Mae'r Pwyllgor QSE yn dymuno rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd fod adborth cleifion gan amlaf yn parhau i fod yn bositif unwaith y bydd cleifion yn manteisio ar wasanaethau, gan ddangos ymrwymiad parhaus staff i gynnig gofal trugarog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, hyd yn oed yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol sylweddol. Mae'r profiad cleifion hwn yn is mewn Adrannau Achosion Brys o gymharu â gwasanaethau eraill ond mae'r rhan fwyaf o gleifion yn disgrifio eu profiad o ofal fel un positif. 2. Nododd y Pwyllgor enghreifftiau positif o ofal a chymorth cyfannol, gan gynnwys cyfraniad gwasanaethau caplaniaeth, darpariaeth y Gymraeg a dulliau gofal wedi'u personoli sy'n gallu cael effaith sylweddol ar brofiad cleifion a theuluoedd. 3. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd bod gwaith ar y gweill i symleiddio trefniadau llywodraethu ar draws y sefydliad, gan ganolbwyntio ar brosesau sicrwydd effeithiol a syml sy'n ategu darpariaeth weithredol. 4. Mae perfformiad triniaeth canser o ran archwiliadau cenedlaethol yn gadarn, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau goroesi a chydymffurfiaeth â chanllawiau clinigol. Mae rhaglenni gwella arbennig i lwybrau diagnostig a thriniaeth penodol wedi'u nodi. 5. Cafwyd sicrwydd da o'r adroddiad Gwella Ansawdd, Allbynnau a Phrofiad Mamolaeth a'r Newydd-anedig, gan nodi canlyniadau o ran mamolaeth a'r newydd-anedig. Caiff yr adroddiad hwn ei adolygu yn y QSE bob 4 mis. Mae gwersi i'w dysgu yn cael eu coladu o adroddiadau yng Nghymru ac yn Lloegr, gan gynnwys Ymchwiliad Cenedlaethol ym maes Mamolaeth a'r Newydd-anedig yn Lloegr ac adolygu ac adolygiad Ockenden ym maes gwasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham. 6. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blyneddol Eirioli ym maes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a chafodd sicrwydd bod gwasanaethau eirioli'n parhau i gefnogi hawliau, llais a chyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal a'u triniaeth.
2c	Cynghori	Mae'r Pwyllgor QSE yn dymuno cynghori aelodau'r Bwrdd am y canlynol:

		1. Y dylai adrodd ar ddiogelwch yn y dyfodol barhau i ddarparu cyd-destun priodol ochr yn ochr â data'n ymwneud â digwyddiadau a digwyddiadau "byth", gan gynnwys tystiolaeth o wersi a ddysgwyd, tueddiadau a champau gwella, gan gynnal darlun cytbwys sy'n adlewyrchu cryfderau yn ogystal â meysydd lle bo angen gwelliant. 2. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth gynnal diwylliant diogelwch positif sy'n ategu adrodd agored, dysgu a gwelliant parhaus ar draws gwasanaethau. 3. Derbyniwyd diweddariad ar y Rhaglen Gofal Brys a Gofal Argyfwng, gan nodi y bydd angen mwy o fanylion ar gyfer iteriadau pellach er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd wrth i'r darlun cyfredol esblygu. 4. Derbyniwyd diweddariad ar Ymchwil, Datblygiad ac Arloesi, gan nodi y byddai adolygiad allanol yn ymwneud â darparu safonau cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys rhai agweddau'n ymwneud â'r Ganolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas fel yr amlygwyd gan Archwilio Mewnol. 5. Derbyniwyd yr Adroddiad Llywodraethu Ansawdd gan Archwilio Cymru a chytunwyd y bydd diweddariad yn cael ei dderbyn ym mhen chwe mis.
2d	Adolygu Risgiau	Gwnaeth y Pwyllgor adolygu'r risgiau o fewn ei gylch gwaith a nododd fod archwiliadau dwfn yn parhau er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth glir rhwng Risgiau a Materion.
2e	Rhannu gwersi a ddysgwyd	Gwnaeth gwersi a ddysgwyd o stori'r claf dynnu sylw at effaith sylweddol gofal trugarog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gwerth darpariaeth y Gymraeg, a chyfraniad gwasanaethau Caplaniaeth wrth roi cymorth i gleifion a theuluoedd yn ystod amgylchiadau anodd.
3	Camau gweithredu i'w hystyried	Dim i'w grybwyll.

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD ANSAWDD INTEGREDIG

Dyddiad y Cyfarfod Dyddiad y Cyfarfod	30 Gorffennaf 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored / Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	• Diogelwch Cleifion: Chris Lynes, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Diogelwch Cleifion) a Tracey Radcliffe, Pennaeth Diogelwch Cleifion • Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd: Michelle Denwood, Cyfarwyddwr Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd • Atal a Rheoli Heintiau: Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Atal Heintiau a Dihalogi • Profiad Cleifion a Gofalwyr: Chris Lynes, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Profiad Cleifion) a Leon Marsh, Pennaeth Profiad Cleifion • Effeithiolrwydd Clinigol: Joanne Shillingford, Pennaeth Effeithiolrwydd Clinigol • Sicrhau Ansawdd: Jo Kendrick, Pennaeth Ansawdd, Erika Dennis, Prif Reolwr Ansawdd, Sarah Musgrave, Rheolwr Dysgu Busnes Ansawdd • Cyfraith Gofal Iechyd: Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Debbie Kumwenda, Prif Reolwr Cyfraith Gofal Iechyd
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	• Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth (Aelod Arweiniol) • Dr Clara Day, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol • Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd • Dr Jane Moore, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd

Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w Nodi
---	----------

Crynodeb Gweithredol Crynodeb Gweithredol
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd – sy'n seiliedig ar waith dadansoddi – ar faterion ansawdd pwysig, ochr yn ochr â gwybodaeth a data tymor hwy am y gwelliannau sydd ar y gweill.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)		
Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	2-7-26	Wedi trafod a nodi'r adroddiad.

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms	
NRI	Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol
IO	Swyddog Ymchwilio
PST	Tîm Diogelwch Cleifion
IHC	Cymunedau Iechyd Integredig
DoL	Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
ECHR	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
HCAI	Haint sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd
AWTTC	Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan.
WHC	Cylchlythyr Iechyd Cymru
IPC	Rheoli ac Atal Heintiau
FMT	Trawsblaniad Microbiota Ysgarthol
PIR	Adolygiad ar ôl haint
HLD	Diheintio Lefel Uchel
ATP	Adenosin Trifosffad
PSOW	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
PEARS	Gwasanaeth Ymholiadau a Datrys y Bobl
PES	Gwasanaeth Profiad y Bobl
NICE	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

CET	Tîm Effeithiolrwydd Clinigol
AMaT	Rheoli ac Orlhain Archwiliadau
SCEG	Grŵp Effeithlonrwydd Clinigol Strategol
BAT	Offeryn Asesu Sylfaenol
SSNAP	Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel
CHKS	Gwasanaeth gwybodaeth am ofal iechyd a gwella ansawdd
RAMI	Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru
CAF	Fframwaith Sicrwydd Comisiynu
PET (sganio)	Sganio Tomograffeg Allyrru Positronau
PFD	Atal Marwolaethau yn y Dyfodol
LFERs	Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau
WRP	Cronfa Risg Cymru



ADRODDIAD ANSAWDD INTEGREDIG

1. Y SEFYLLFA / SITUATION

- 1.1 Ar gyfer y GIG yng Nghymru, mae ansawdd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy.
- 1.2 I gyflawni hyn, dan y Ddyletswydd Ansawdd statudol, bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn **ddiogel**, yn **amserol**, yn **effeithiol**, yn **effeithlon**, yn **deg**, ac yn **canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae chwe galluogwr yn sail i'r meysydd hyn, sef **arweinyddiaeth**, **gweithlu**, **diwylliant**, **gwybodaeth**, **dysgu ac ymchwil** a **dull sy'n edrych ar systemau cyfan**.
- 1.3 Mae'r meysydd a'r galluogwyr hyn yn ffurfio'r **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal** ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023 drwy ganllawiau statudol.

2. Y CEFNDIR / BACKGROUND

- 2.1 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ar draws pob maes gofal. Er mwyn rhoi sicrwydd a sbarduno gwelliannau parhaus, mae BIPBC yn monitro amrywiaeth o fetrigau ansawdd yn rheolaidd. Mae'r mesurau hyn yn rhoi'r gallu i wneud penderfyniadau doeth, yn cefnogi dysgu sefydliadol, ac yn sail ar gyfer twf a datblygiad.
- 2.2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi sefyllfa bresennol BIPBC o ran perfformiad ansawdd ac yn nodi'r camau allweddol sydd eu hangen i gryfhau canlyniadau a sicrhau gwelliannau parhaus.

3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

- 3.1 **Digwyddiadau "Byth"**: Rhoddwyd gwybod am un Ddigwyddiad Byth yn ystod y cyfnod hwn; cofnodwyd un ar ddeg yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae ymchwiliadau llawn ar y gweill ac mae adolygiad dysgu system wedi'i gynllunio.
- 3.2 **Cynnydd mewn digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol** yn ystod y cyfnod hwn (8 o'i gymharu ag 20). Yr amser cwblhau canolrifol yw'r gorau yng Nghymru o hyd (75 diwrnod), ac mae'r gyfran sydd ar agor ers >90 diwrnod wedi gostwng. Mae ffocws parhaus ar brydlondeb ac ansawdd ymchwiliadau.
- 3.3 **Digwyddiadau Diogelwch Cleifion**: Mae ôl-groniad digwyddiadau yn parhau'n uchel (5084 ar agor; 59.3% yn hwyr). Methu cyflawni'r targed lleihau; cytuno ar lwybrau adfer wedi'u hadnewyddu gyda'r Cymunedau



Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau. Mae hyfforddiant PST gwell a gwelliannau i ymchwiliadau cam cynnar ar y gweill.

4. **RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO** **KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION**

- 4.1 Mae **camau gweithredu hwyr AGIC a cheisiadau cynyddol am sicrwydd** yn dangos pwysau rheoleiddiol parhaus, yn enwedig mewn adrannau brys.
- 4.2 **Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon [2026] UKSC 16**
Mae'r dyfarniad hwn gan Oruchaf Lys y DU a gyflwynwyd ar 2 Mehefin 2026 yn debygol o arwain at oblygiadau sylweddol a phwysig i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- 4.3 **Mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi cael ei nodi fel 'allanolyn ffiniol'** ar gyfer marwolaethau wedi'u haddasu yn ôl cymysgedd achosion yn Archwiliad Cenedlaethol Strôc Sentinel, sy'n meincnodi cyfradd marwolaethau safonedig a dangosyddion perfformiad allweddol eraill mewn canolfannau ledled y DU.
- 4.4 **Arolygiad AGIC - Adran Achosion Brys, YGC (5 i 7 Mai 2026)**
Cafwyd camau gweithredu ar unwaith gan AGIC a chytunwyd ar y cynllun gwella cychwynnol.

5. **ARGYMHELLION / RECOMMENDATIONS**

- 5.1 Gofynnir i'r Bwrdd:
- **NODI** cynnwys yr Adroddiad Ansawdd Integredig a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y meysydd ansawdd.
 - **MABWYSIADU** sicrwydd o'r gwelliannau a ddisgrifir yn yr adroddiad tra'n cydnabod nifer o feysydd sy'n gofyn am oruchwyliaeth well a gweithredu rheoli parhaus;
 - **CADARNHAU'r** ffocws parhaus ar leihau risgiau rheoleiddiol a diogelwch cleifion, gan gynnwys cyflawni cynlluniau gwelliant HIW, cwblhau camau droseddol, a cryfhau trefniadau dysgu corfforaethol; a
 - **CYMREDDU** bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch ac Profiad yn cadw golwg ar yr ardaloedd allweddol eithriadol a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn darparu esgyniad i'r Bwrdd pan na chaiff y rhychwantau gwelliannau eu cyflawni

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: 4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	BAF-SP18 a CRR-24-04 – Ansawdd, Arloesi a Gwella Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd)

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol): https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus.html Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os nad ydyw, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.
Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh.
	Os nad ydyw, dylech gynnwys y rheswm:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i

<i>Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?</i>	If no, please include rationale:	cyflwynir er gwybodaeth yn unig.
<i>Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?</i> Templed WP8a	Canlyniad/Outcome: Ydw/Yes:	Nac ydw/No: ☒
	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.
Deddf Hawliau Dynol <i>A yw pryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn cael sylw yn Wp8a?</i>	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.
Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg? <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?</i>	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Nac ydw/No: ☒
	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.
	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cydymffurfiad o ran rhoi 'Sylw Dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh.
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.

<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Ydw/Yes: ☐	Nac ydw/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh.
<u>Ansawdd</u> <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Mae pob un yn berthnasol Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant</u>	Cymru Iachach	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Ydw/Yes: ☐	Nac ydw/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh.
	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll</i>	Ydw/Yes: ☐	Nac ydw/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh.
	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig.

Cyfreithiol Legal	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)
	Diogelu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
Enw Da Reputational	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)
	Gweler yr adroddiad am fanylion.
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol) Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol)	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Diogelwch Cleifion

1. Digwyddiadau Diogelwch Cleifion

1.1 Digwyddiadau

Ar hyn o bryd mae 5084 o achosion agored o'r rhain, mae 59.34% yn hwyr, sy'n sefyllfa gyson â'r cyfnod adrodd blaenorol. Mae nifer y digwyddiadau a gaewyd o'i gymharu â nifer y digwyddiadau a agorwyd yn debyg bob wythnos.

1.2 Mae perfformiad rheoli digwyddiadau yn parhau i ddangos amrywiaeth ar draws gwasanaethau. Mae rhai meysydd yn dangos prydlondeb cymharol gryf, er enghraifft Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (21% yn hwyr) a Chymuned Iechyd Integredig y Dwyrain (43% yn hwyr). Fodd bynnag, mae gwasanaethau eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Corfforaethol (88% yn hwyr) a Diagnosteg a Gwasanaethau Cymorth Clinigol Arbenigol (76% yn hwyr), yn dangos bod angen gwella'n sylweddol er mwyn cyrraedd y safonau disgwylidig. Mae achosion hierarchaeth hanesyddol a hen (cyfanswm o 128) yn dal yn 100% hwyr, sy'n parhau i ddylanwadu ar berfformiad cyffredinol. Er mwyn cefnogi dull mwy cyson, mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn ymgysylltu â'r holl Gymunedau Iechyd Integredig ac Uwch Adrannau i adolygu ac adnewyddu'r llwybrau presennol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bob maes gynllun gwella pwrpasol y gellir ei gyflawni, sy'n cyd-fynd â'i gyd-destun gweithredol ac sy'n cefnogi gwelliant parhaus o ran perfformiad rheoli digwyddiadau.

1.3 Mae medrusrwydd a meithrin gallu yn parhau'n ffocws allweddol, gyda'r Tîm Diogelwch Cleifion yn darparu hyfforddiant rheoli digwyddiadau misol, hyfforddiant Swyddog Ymchwilio bob deufis, a sesiynau galw heibio Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI) wythnosol yn cael eu darparu ar sail dreigl. Hyd yma, mae 105 aelod o staff wedi cwblhau'r rhaglen hyfforddi Swyddogion Ymchwilio yn llwyddiannus, gan ddangos ymrwymiad sefydliadol parhaus i gryfhau ansawdd a gwydnwch ymchwiliadau.

1.4 Drwy gydol mis Ebrill 2026, mae'r PST hefyd wedi darparu gweithdai llwybr digwyddiadau wythnosol sy'n newid i bob pythefnos o fis Mai 2026 ymlaen, gan ganolbwyntio'n benodol ar gwblhau a chyflwyno Adolygiadau Cyflym yn brydlon ochr

yn ochr ag adroddiadau o ansawdd uwch a gaiff eu llunio drwy gael mwy o wybodaeth. Mae nifer dda wedi dod i'r sesiynau hyn, gyda 155 o staff yn cymryd rhan hyd yma, ac mae adborth cynnar wedi bod yn gadarnhaol, gan ddangos gwell dealltwriaeth o brosesau a mwy o hyder wrth lywio llwybrau digwyddiadau.


1.5 Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol

Rhwng 01 Ebrill 2026 a 31 Mai 2026, cyflwynwyd 11 o Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (yn ôl dyddiad digwyddiad) o'i gymharu â 30 ar gyfer y cyfnod adrodd blaenorol (D.S. gall y niferoedd hyn newid oherwydd adroddiadau ôl-weithredol am friwiau pwyso cleifion y gellir eu hosgoi a chwympiadau cleifion sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn.) Gellir categoraiddio'r rhain fel a ganlyn: -


BCU UHB top 10 NRI categories occurring by volume (incident dates between Apr-26 and May-26) as of 15/06/2026

NRI category	Total
Diagnostic testing - Radiology	2
Neonate	2
Treatment or procedure issues	2
Assessing and recognising patient/service user deterioration	1
Healthcare Acquired Infection (community, primary care or hospital)	1
Infection outbreak / period of increased incidence	1
Medical devices	1
Monitoring errors	1


Cyfanswm yr ymchwiliadau NRI a oedd ar agor ddiwedd mis Mai 2026 oedd 45, gyda 7 achos hwyr o gau.



- 1.6 Mae cyfran y digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol sy'n aros ar agor am fwy na 365 diwrnod calendr yn fesur newydd yn nangosfwrdd Beacon. Nid oes gan BIPBC unrhyw rai o fewn y trothwy hwn.



Y diwrnodau gwaith canolrifol hyd at gwblhau yw'r ffigur isaf yng Nghymru ar 108 diwrnod, o'i gymharu â ffigur canolrifol o 180 diwrnod ar gyfer Cymru Gyfan.



- 1.7 Cyflwynwyd cyfanswm o 37 o ffurflenni canlyniadau NRI i dîm Perfformiad a Gwella GIG Cymru i'w cau yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2026. Mae rhagor o fanylion, a'r gwersi a ddysgwyd o'r sampl o achosion hyn sydd wedi cau, ar gael yn yr adroddiad ansawdd cyfrinachol.

1.8 Digwyddiadau Byth

Dywedodd BIPBC fod un Digwyddiad Byth wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd hyn yn ymwneud â swab wedi'i gadw. Ar ben hynny, roedd digwyddiad arall, ym


mis Mawrth 2026, ond ni chafodd ei adrodd tan fis Ebrill 2026 yn dilyn histoleg, yn ymwneud â llawdriniaeth anghywir ar y safle.

Ni nodwyd dim Digwyddiadau Byth yn ystod mis Mai 2026.

1.9 Sylwch nad yw Beacon yn cynnwys data ar gyfer mis Mai 2026

BCU UHB Never Events occurring (by incident date, May-25 to Apr-26) as of 01/06/2026														
Year	2025							2026						
Never Event	May	Jun	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Apr		
Administration of medication by the wrong route	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Retained foreign object post procedure	0	0	0	1	0	0	1	0	0	0	0	0	1	
Wrong implant/prosthesis	0	0	0	0	0	1	0	0	0	1	0	0	0	
Wrong site surgery	0	1	0	0	0	1	0	1	0	0	2	0	0	
Total Never Events	1	1	0	1	0	2	1	1	0	1	2	1		

- 1.10 Mae nifer y Digwyddiadau Byth sy'n digwydd yn BIPBC yn dal i godi, gydag 11 adroddiad am Ddigwyddiadau Byth yn cael eu gwneud mewn cyfnod treigl, Mai 2025 i Ebrill 2026, gydag amser cyfyngedig rhwng digwyddiadau; y canolrif yw 33 diwrnod.



- 1.12 Mae'r Digwyddiadau Byth uchod yn mynd drwy'r broses ymchwilio lawn ar hyn o bryd. Mae rhagor o fanylion a'r gwersi cychwynnol a ddysgwyd ar gael yn yr adroddiad ansawdd cyfrinachol.

2. Rhybuddion Diogelwch Cleifion

- 2.1 Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion wedi dosbarthu 3 galwad yn ôl gan fferyllfeydd, 5 hysbysiad fferylliaeth, 2 hysbysiad diogelwch maes a 3 rhybudd mewnol. Ni chafwyd rhybuddion cenedlaethol newydd.
- 2.2 **PSA019 Oedi cyn rhoi Rasbricase:** Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r broses ddiwygiedig yng nghyfarfod canolog y gwasanaeth Llywodraethu Gwasanaethau Canser. Mae'r dogfennau gyda'r Fferyllfa ar hyn o bryd ar gyfer sylwadau terfynol a disgwylir iddynt gael eu cymeradwyo a'u dosbarthu yn dilyn y cyfarfod nesaf.
- 2.3 **PSA020 - Cofnodi Alergedd Penisilin yn erbyn Penisillamine yn anghywir:** Y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio yw 30/11/2026. Mae'r gwaith o weithredu ePMA

bellach wedi'i gwblhau. Rhybuddion system ac opsiynau adrodd yn cael eu harchwilio. Cyfarfod 15 Mai 2026, y cynnydd cychwynnol wedi'i wneud gan dîm ePMA a'r adroddiad wedi'i sefydlu ar gyfer adnabod cleifion yn BIPBC sydd ag alergedd i benisilin. Mae angen cysylltu â phractisau meddygon teulu ac adolygu systemau data eraill lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw.

2.4 **PSA021 - Risg sy'n gysylltiedig â Chylchedau Anadlu Oedolion Heb Lwybr Anadlu Patent:** Y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio yw 28/08/2026.


Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen ffurfiol bellach wedi cael ei sefydlu gyda Chylch Gorchwyl drafft y cytunwyd arno a chwmpas diffiniedig ar draws yr holl Gymunedau Iechyd Integredig a gwasanaethau perthnasol. Wedi cadarnhau'r Arweinydd Clinigol a'r Cadeirydd. Nodwyd aelodaeth ar draws y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canol, gyda chefnogaeth gorfforaethol gan y tîm Diogelwch Cleifion. Mae'r Gymuned Iechyd Integredig/meysydd gwasanaeth yn llunio datganiad sefyllfa ar un adeg i sefydlu llinell sylfaen o arferion, offer, hyfforddiant a risgiau cyfredol. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen nesaf yn ymgynnull ar 1 Gorffennaf 2026.

2.5 **Gosod Clun Profemur Newydd (DSI/2025/005):** Gosod Clun Profemur Cobalt Chrome Modiwlwr Newydd: Risg uwch na'r disgwyl o lawdriniaeth adolygu, effeithiau traul metel a thorasgwrn cydrannol. Galw Hysbysiad Diogelwch Maes yn ôl.

Mae rhaglen waith yn ei lle i nodi ac adolygu'r garfan o gleifion yr effeithir arni. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno drwy lwybrau llywodraethu sicrwydd ansawdd.

3. Crynodeb dysgu lefel uchel o Ddigwyddiadau a Adroddwyd yn Genedlaethol sydd wedi Cau

3.1 Cyflwynodd BIPBC gyfanswm o 37 o ffurflenni cau ar gyfer digwyddiadau sy'n adroddadwy yn ystod y cyfnod adrodd rhwng mis Ebrill a mis Mai 2026, ac roedd 23 ohonynt yn ffurflenni cyfuniad (ee cwympiadau a briwiau pwyso) a gyflwynwyd ar ddiwedd ymchwiliadau.



- 3.2 Caewyd cyfanswm o 14 o Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol yn ystod y cyfnod hwn ac fe'u cyflwynir fel crynodeb yn y papur cyfrinachol, sy'n amlinellu'r digwyddiad, y gwersi allweddol a ddysgwyd, a lefel niwed ar ôl ymchwiliad.
- 3.3 Mae'r themâu allweddol a nodwyd o'r digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys
- Methiant i gydnabod neu ymateb i ddirywiad yn brydlon
 - Bylchau mewn asesu clinigol, monitro ac uwchgyfeirio
 - Problemau o ran dogfennu a chyfathrebu ar draws timau
 - Diffyg ymlyniad wrth brotocolau a llwybrau clinigol sefydledig
 - Methiannau o ran adnabod a dilysu cleifion
 - Gwendidau tracio systemau a llwybrau
- 3.4 Mae camau gweithredu wedi cael eu nodi a'u rhoi ar waith ar draws gwasanaethau i fynd i'r afael â'r pwyntiau dysgu hyn, gan gynnwys atgyfnerthu protocolau, gwella safonau dogfennau, hyfforddiant wedi'i dargedu, a chryfhau goruchwyliaeth dulliau llywodraethu.

Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd

4. Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

- 4.1 **Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon [2026] UKSC 16**
Mae'r dyfarniad hwn gan Oruchaf Lys y DU a gyflwynwyd ar 2 Mehefin 2026 yn debygol o arwain at oblygiadau sylweddol a phwysig i ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- 4.2 Cefndir
Ers penderfyniad llys 2014 yng Ngorllewin Swydd Gaer, mae unigolyn fel arfer wedi cael ei drin fel rhywun sydd wedi colli ei ryddid at ddibenion Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) lle nad oes ganddo alluedd a'i fod "yn cael ei oruchwyllo a'i reoli'n barhaus ac nad yw'n rhydd i adael" (y "prawf asid" fel y'i gelwir). Mae hyn wedi bod yn sail i'r fframwaith Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid presennol ac wedi arwain at drin nifer fawr o unigolion mewn lleoliadau gofal fel rhai sydd angen awdurdodiad cyfreithiol ffurfiol.
- 4.3 Ystyriodd y Goruchaf Lys y mater hwn yn dilyn cyfeiriad gan Dwrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon ynghylch newidiadau arfaethedig i ganllawiau DoLS Gogledd Iwerddon a fyddai'n caniatáu i rai unigolion nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'w trefniadau gofal drwy "ddatganiad o'u dymuniadau a'u teimladau."
- 4.4 Canlyniad
Mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu'n bendant yn erbyn Gorllewin Swydd Gaer. Mae wedi symud oddi wrth y "prawf asid" ac wedi cadarnhau a fydd trefniadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid yn gofyn yn hytrach am asesiad ehangach, penodol i ffeithiau o sefyllfa'r unigolyn yn unol ag egwyddorion Erthygl 5.

4.5 Mae hyn yn cynrychioli newid sylweddol yn y fframwaith cyfreithiol ac mae iddo oblygiadau eang o bosibl, yn enwedig ar gyfer lleoliadau gofal iechyd cymunedol a pharhaus.

4.6 Sefyllfa

Mae'r dyfarniad yn gymhleth ac yn gofyn am ddadansoddiad cyfreithiol manwl. Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â'r gofynion statudol presennol, y gyfraith achosion a'r gweithdrefnau presennol. Er bod goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys yn cael eu hystyried, bydd newidiadau uniongyrchol i ymarfer lleol yn cael eu rhoi ar waith fel y cytunwyd arnynt gyda gwasanaethau Cyfreithiol a Risg BIPBC, mae'r dyletswyddau statudol presennol yn dal mewn grym ac nid yw canllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cael eu cyhoeddi eto.

4.7 Y Camau Nesaf

Mae'n cael ei roi ar wybod i'r Bwrdd bod barn y Llys Uchel ar gwarediad rhyddid yn cynrychioli newid sylweddol yn y fframwaith cyfreithiol. Er bod cyngor cyfreithiol ar unwaith wedi cael ei gael ac mae'r trefniadau statudol presennol yn parhau, nid yw effaith lawn yn hysbys eto. Gall y Bwrdd gymryd sicrwydd cyfyngedig bod rheolaethau dros dro priodol yn gweithredu, gyda llywodraethu, rheoli risg a threfniadau goruchwyllo yn cael eu cryfhau tra bydd canllawiau cenedlaethol pellach yn cael eu darparu.

Atal a Rheoli Heintiau

5. Nodau ar gyfer Gwelliannau Strategol (2025-2027)

5.1 Mae'r perfformiad yn erbyn nodau gwella HCAI yn gymysg, gyda 4 organeb yn is na'r trywydd ar hyn o bryd, 3 yn rhagori ar eu trywydd targed a 2 ar y trywydd iawn.


Maes y Nod	Targed	Statws Presennol o'i gymharu â'r Trywydd
E. coli (wedi dechrau yn yr ysbyty)	Gostyngiad o 10%	Is na'r trywydd (-6 achos)
MRSA	> Blwyddyn Flaenorol	Is na'r trywydd (-1 achos)
C. difficile	Gostyngiad o 25%	Ar y trywydd (mewn 44 o achosion)
Klebsiella (wedi dechrau yn yr ysbyty)	Gostyngiad o 10%	Is na'r trywydd (-1 achos)
Pseudomonas (wedi dechrau yn yr ysbyty)	Gostyngiad o 10%	Uwch na'r trywydd (+1 achos)
MSSA	Gostyngiad o 20%	Uwch na'r trywydd (+20 o achosion)

5.2 Disgwyliadau ychwanegol:

Maes y Nod	Targed	Statws Presennol o'i gymharu â'r Trywydd
------------	--------	--

Klebsiella (wedi dechrau yn y gymuned)	> Blwyddyn Flaenorol	Is na'r trywydd (-2 achos)
Pseudomonas (wedi dechrau yn y gymuned)	> Blwyddyn Flaenorol	Ar y trywydd (+8 o achosion)
Staphylococcus aureus	> Blwyddyn Flaenorol	Uwch na'r trywydd (20 o achosion)

5.3



- 5.4 Ar ben hynny, mae archwiliad dan arweiniad clinigwyr ar niwmonia a gafwyd yn yr ysbyty yn y camau gweithredu ar hyn o bryd.
- 5.5 Mae data Ch4 Gofal Sylfaenol ar gyfer 2025/26 a gyhoeddwyd gan AWTTC yn dangos bod BIPBC wedi gwneud cynnydd rhagorol yn erbyn targedau gwrthficrobaidd WHC. Mae'r defnydd cyffredinol o gyffuriau gwrthficrobaidd wedi gostwng yn sylweddol, gyda BIPBC bellach yr ail isaf yng Nghymru, y tu ôl i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- 5.6 O ran y targed i symud presgripsiynu tuag at gyrsiau byrrach, mae'r nod o ostwng 75% o bresgripsiynau docsiseiclin, amoxicillin a clarithromycin o 7 i 5 diwrnod ym maes Gofal Sylfaenol BIPBC wedi llwyddo i gyrraedd y targed 75% ar gyfer amoxicillin a doxycycline. Ar gyfer clarithromycin, cyrhaeddodd BIPBC 71.9%, sy'n golygu mai dyma'r bwrdd iechyd agosaf yng Nghymru at gyrraedd y targed o 75%. Mae ymgysylltiad gan bractisau ar draws BIPBC wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'n gam pwysig ymlaen o ran gwreiddio arferion stiwardiaeth wrthficrobaidd da (AMS).

6. Rheoli Achosion

- 6.1 Fe wnaeth gweithgarwch achosion leihau yn ystod mis Ebrill a mis Mai. Cofnodwyd 10 o achosion oherwydd C. diff (5), Norofeirws (4), a CPE (1).

Effaith:

- 1 ward wedi cau'n llawn a 5 bae wedi cau
- Collwyd 78 o ddiwrnodau gwely, gyda Norofeirws yn cyfrif am 81% (63 diwrnod)

7. Mentrau Gwella Allweddol

- 7.1 Er mwyn mynd i'r afael â bylchau perfformiad a nodwyd a chynnal cynnydd, mae rhaglen waith gynhwysfawr yn mynd rhagddi ar draws BIPBC. Mae'r rhaglen hon yn cyfuno gweithgarwch gwella ansawdd wedi'i dargedu, prosesau sicrwydd cryfach, a ffocws ar newid diwylliannol ac ymddygiadol.
- 7.2
- **Dadansoddiad o'r Bylchau yn y Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau**
Mae dadansoddiad cynhwysfawr o'r bylchau yn erbyn y Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2026) wedi cael ei gwblhau. Mae'r canfyddiadau'n llywio Rhaglen Waith Atal a Rheoli Heintiau BIPBC ar gyfer 2026-2028.
- 7.3
- **Cydweithrediad Cenedlaethol *C. difficile***
Mae BIPBC yn parhau i gymryd rhan weithredol yn y cydweithrediad *C. difficile* cenedlaethol, gan ddarparu tri Phrosiect Gwella Ansawdd sy'n canolbwyntio'n benodol ar Atal a Rheoli Heintiau (IPC). Mae'r mentrau hyn yn seiliedig ar egwyddorion gwyddor ymddygiad i sbarduno gwelliannau cynaliadwy mewn ymarfer a chydymffurfio. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â stiwardiaeth wrthficrobaidd i leihau ffactorau risg addasadwy sy'n gysylltiedig â haint.
- 7.4
- **Gwasanaeth Trawsblannu Microbiota Ysgarthol (FMT)**
Mae gwasanaeth FMT dan arweiniad nyrsys wedi'i sefydlu ac yn weithredol, gan ddarparu llwybr triniaeth effeithiol ar gyfer haint *C. difficile* rheolaidd. Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt i ehangu'r gwasanaeth hwn ar draws pob safle er mwyn gwella mynediad cyfartal a chanlyniadau i gleifion.
- 7.5
- **Capasiti Carfan a Datblygu Ystadau *C. difficile***
Mae uned carfan *C. difficile* dros dro wedi cael ei sefydlu yn Ysbyty Maelor Wrecsam i gefnogi'r gwaith o ynysu a rheoli achosion yn effeithiol. Ochr yn ochr â hyn, mae cynlluniau prosiect yn cael eu datblygu i sicrhau ateb carfanu parhaol drwy Gyllid Ystadau wedi'i Dargedu. Mae hyn yn rhan o strategaeth ystadau ehangach i wella cydymffurfiaid o ran Atal a Rheoli Heintiau, gan gynnwys mwy o gapasiti un ystafell, gwell llif cleifion, a gwell safonau amgylcheddol.
- 7.6
- **Gwylidwriaeth *Pseudomonas* ac Adolygiad Epidemiolegol**
Yn dilyn cynnydd cynharach mewn achosion *Pseudomonas*, cydnabuwyd nad yw cyfran sylweddol yn gysylltiedig â gofal iechyd ac felly mae'n anochel i

raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r broses Adolygu ar ôl Heintiau (PIR) wedi cael ei chryfhau i wella dealltwriaeth epidemiologol, nodi unrhyw dueddiadau neu ffactorau risg sy'n dod i'r amlwg, a sicrhau bod mesurau ataliol a rheoli priodol yn cael eu rhoi ar waith lle bo hynny'n bosibl.

- 7.7
- **Gwell Gwyliadwriaeth a Gwneud Penderfyniadau sy'n Canolbwyntio ar Ddata**
Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau systemau gwyliadwriaeth i gefnogi'r gwaith o ganfod tueddiadau'n gynharach, ymyrryd yn amserol, a thargedu adnoddau'n fwy effeithiol i feysydd risg uchel. Mae data'n cael ei ddefnyddio fwyfwy i lywio penderfyniadau, monitro gwelliannau a dangos effaith.
- 7.8
- **Datblygu'r Gweithlu, Arweinyddiaeth a Diwylliant**
Mae datblygu'r gweithlu yn dal yn flaenoriaeth allweddol, gan ganolbwyntio ar wreiddio dulliau gwyddor ymddygiad i wella cydymffurfiaeth ag Atal a Rheoli Heintiau a diwylliant sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys cryfhau arweinyddiaeth Atal a Rheoli Heintiau ar lefel ward ac uwch adran, cefnogi ymarferwyr cyswllt a hyrwyddwyr, a gwella cydymffurfiaeth hyfforddiant ac asesu cymhwysedd ar draws y gweithlu.
- 7.9
- **Archwilio, Cydymffurfio a Sicrwydd Trionglog**
Mae'r rhaglen archwilio Atal a Rheoli Heintiau yn parhau i gael ei chryfhau, gan ganolbwyntio mwy ar feysydd allweddol fel hylendid dwylo, glanweithdra amgylcheddol, ac arferion ynysu. Mae dull trionglog o ymdrin â sicrwydd wedi cael ei fabwysiadu, gan ddod â chanfyddiadau archwiliadau, data gwyliadwriaeth, adrodd ar ddigwyddiadau ac adborth at ei gilydd i ddarparu asesiad mwy cynhwysfawr a chadarn o berfformiad y rhaglen Atal a Rheoli Heintiau.
- 7.10
- **Safoni Prosesau Diheintio Lefel Uchel (HLD)**
Mae technoleg Diheintio Lefel Uchel wedi cael ei safoni ar draws BIPBC. Mae camau olaf yr hyfforddiant staff bron â chael eu cwblhau i sicrhau gweithrediad gweithredol llawn ac ymarfer cyson.
- 7.11
- **Glendid Amgylcheddol a Monitro ATP**
Mae technoleg monitro Adenosin Trifosffad (ATP) bellach yn cael ei defnyddio ar draws BIPBC, gan ddarparu sicrwydd meintiol o safonau glanhau a galluogi gwelliant wedi'i dargedu lle bo angen.
- 7.12
- **Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd**
Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd mewn Atal a Rheoli Heintiau, gan gynnwys datblygu deunyddiau a mentrau addysgol i hyrwyddo ymddygiad da o ran atal heintiau ymysg cleifion ac ymwelwyr.

- 7.13 • **Parodrwydd am Frigiad o Achosion a Gwydnwch Sefydliadol**
Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei drefniadau parodrwydd ar gyfer brigiad achosion drwy bolisïau wedi'u diweddarau, prosesau uwchgyfeirio clir, a dulliau dysgu sefydliadol parhaus. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer pwysau tymhorol fel y fflw a norofeirws.
- 7.14 • **Arloesi ac Ymarfer Cynaliadwy**
Mae cyfleoedd i fabwysiadu technolegau arloesol ac arferion Atal a Rheoli Heintiau mwy cynaliadwy yn cael eu harchwilio, gan gefnogi'r gwaith o wella ansawdd ac amcanion amgylcheddol.

Profiad Cleifion a Gofalwyr

8. Cwynion

- 8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o newidiadau i Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Gwneud lawn y GIG) (Cymru) 2011. Nod y newidiadau hyn yw moderneiddio sut mae pryderon a chwynion am ofal y GIG yn cael eu codi, sut yr ymchwilir iddynt a sut cânt eu datrys, gan sicrhau bod y system yn addas ar gyfer anghenion heddiw a'r dyfodol. Bydd y newid mewn deddfwriaeth – Gwrando ar Bobl: Daeth Proses Cwynion, Digwyddiadau a Gwneud lawn y GIG i rym ar 1^{af} Ebrill 2026.
- 8.2 Cafodd y fframwaith newydd Gwrando ar Bobl: Cwynion, Digwyddiadau a Gwneud lawn GIG Cymru ei lansio'n llwyddiannus ar 1 Ebrill 2026, a chafodd holl gerrig milltir allweddol y Cynllun Gweithredu eu cyflawni'n brydlon
- 8.3 Mae'r tabl canlynol yn dangos metrigau cwynion allweddol o 30 Mai 2026 ymlaen.

Metrig	Statws	Tuedd
Cyfanswm y Cwynion Agored	286	Gostyngiad o 311
Nifer sy'n Hwyr	83	Cynnydd o 69
Cydymffurfiad Cyffredinol (Targed 75%)	70.89%	Gostyngiad o 77.81%


- 8.4 Fel y rhagwelwyd, mae'r gyfradd gydymffurfio gyffredinol wedi gostwng, wedi'i sbarduno gan yr hen gwynion sy'n weddill o dan Gweithio i Wella. Mae ffocws parhaus ar waith i fynd i'r afael â'r holl hen gwynion erbyn diwedd Chwarter 1 2026/27.

Is-fath o Gŵyn	Cyfanswm	Yn hwyr	Cydymffurfio
Rheolir gan Gweithio i Wella	56	56	0.00% (Targed 75%)
Datrysiad Cynnar LTP	14	2	88.24% (Targed 40%)

LTP 30 WD	144	25	85.21% (Targed 75%)
LTP 60 WD	38	0	100% (Targed 75%)
LTP 90 WD	5	0	100% (Targed 75%)
LTP 120 WD	1	0	100% (Targed 75%)


8.5 Rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mai 2026, cafodd BIPBC 450 o gwynion, gostyngiad o 553 o gwynion yn y chwarter blaenorol, a chaewyd 515 o gwynion a oedd yn amrywiad cadarnhaol o 65.

Siart SPC y Cwynion a Dderbyniwyd



Pedair prif thema ac is-thema'r cwynion, mae'r meysydd yn dilyn

- Oedi / Diffyg Diagnosis
- Triniaeth neu Asesiad Anghywir / Annigonol
- Oedi / Diffyg Triniaeth neu Asesiad
- Cyfathrebu



8.6 Rhoddwyd cynnig ar sicrhau 108 o Ddatrysiadau Cynnar ynghylch Cwynion (10 diwrnod gwaith) rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mai, gyda 72 yn cael eu cwblhau o fewn yr amser (75%). Rhagwelir y bydd perfformiad yn cynyddu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, wrth i systemau a phrosesau newydd gael eu hymgorffori'n llawn. Mae'r arwyddion cynnar gan achwynwyr a staff yn dangos bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddatrys pryderon yn sicrhau bod pobl yn cael ymateb mwy prydlon a boddhaol i'w pryderon ar yr un pryd â lleihau baich gweinyddol ymchwiliad llawn. Er sicrwydd, mewn achosion lle honnir bod niwed, mae'r rhain i gyd yn destun ymchwiliad llawn.

8.7 Mae proses feincnodi BIPBC yn genedlaethol yn parhau i berfformio'n dda:

Amser Cau Cyfartalog: BIPBC yw'r bwrdd iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru, gan ddatrys cwynion o fewn 21 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Perfformiad Amser Real: Mae BIPBC wedi perfformio'n gyson well na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ar gyfer cau cwynion o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, ers mis Medi 2024, ac yn parhau i wneud hynny.

Cwynion sy'n Hwyr yn Cael eu Dirwyn i Ben: Mae perfformiad BIPBC o ran cwynion sy'n hwyr yn cael eu dirwyn i ben yn parhau fel y trydydd gorau yng Nghymru, ac mae'n sylweddol well na byrddau iechyd eraill o faint tebyg. Ar 31 Mawrth 2026 (y data diweddaraf sydd ar gael), dim ond 61 o gwynion o'r 1210 sy'n hwyr yn genedlaethol y mae BIPBC yn eu cyfrannu (5.04%)


8.8 **Cwynion sydd wedi'u hailagor:** Nid oes data ar gael yn genedlaethol i feincnodi cwynion sydd wedi'u hailagor.

- 8.9 Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd 41 o gwynion wedi'u hailagor ac mae 24 ohonynt yn hwyr (dros 30 diwrnod gwaith) (Cydymffurfio 41.46%) gydag amser ymateb cyfartalog o 65.41 diwrnod, y ddau o dan y targed, sef 75% o gwynion wedi'u hailagor i'w datrys o fewn 30 diwrnod gwaith.

Sylwch: Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw cwynion sydd wedi'u hailagor yn cael eu hystyried yn gwynion sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag anafodlonrwydd.

- 8.10 Pwrpas ail-agor cwyn yw nid yn unig gwella profiad cleifion, nid yw'n anarferol i gwestiynau ychwanegol gael eu gofyn ar ôl i ymateb gael ei ddarparu, neu mae angen mwy o eglurder ar yr achwynydd. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn lleihau atgyfeiriadau ac ymyriadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn lleihau llwythi gwaith yn nes ymlaen, ac yn gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein prosesau rheoli cwynion.


- 8.11 Siart SPC cwynion wedi'u hailagor



9 Adborth gan Gleifion

- 9.1 Roedd Gwasanaeth Ymholiadau a Datrys y Bobl (PEARS) yn cefnogi'r gwaith o ddatrys 939 o ymholiadau rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mai 2026.
- 9.2 Roedd y 3 prif thema ymholi yn cynnwys apwyntiadau, mynediad at wasanaethau, a chanlyniadau profion ac ymchwiliadau. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd y gwasanaeth hefyd 100 o ganmoliaeth ysgrifenedig yn canmol gofal a pharch cyffredinol a 9 awgrym ar gyfer gwella.
- 9.3 Mae canfyddiadau Arolwg Profiad Pobl Cymru Gyfan yn dal yn gadarnhaol iawn. Ar sail 10,617 o ymatebion, dywedodd 86.97% o gleifion fod eu profiad cyffredinol yn 'Dda (18.09%)' neu'n 'Dda iawn (68.88%)'. Roedd lefelau bodlonrwydd yn uchel gyda phobl yn dweud eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch 'bob amser'

(87.05%) a'u bod yn gallu cyfathrebu mewn dewis iaith (90.80%) a oedd yn uwch na'r meincnod cenedlaethol o 85% o ran bodlonrwydd.




9.4 Mae'r tabl canlynol yn dangos metrigau adborth allweddol ar gyfer y cyfnod adrodd:

Cwestiwn yr Arolwg	% o'r ymateb "bob amser"	Tuedd (o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol)
Yn teimlo eu bod wedi cael gofal da	75.49%	Cynnydd o 75.06%
Yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt	79.38%	Cynnydd o 78.46%
Yn rhan o benderfyniadau am ofal	77.76%	Cynnydd o 76.51%
Wedi'i egluro mewn ffordd ddealladwy	82.04%	Cynnydd o 80.27%

9.5 Cafwyd canlyniadau cadarnhaol hefyd o ran y fersiwn Hawdd ei Deall o Arolwg Profiad Pobl GIG Cymru, gyda 89.51% o'r ymatebwyr yn rhannu profiad cadarnhaol (17.74% da a 71.77% da iawn).

9.6 Adborth yr Adran Achosion Brys

Derbyniwyd cyfanswm o 2663 o Arolygon Profiad Pobl Cymru Gyfan yn ymwneud ag Adrannau Achosion Brys. Ar sail 2663 o ymatebion, dywedodd 74.22 % fod eu profiad cyffredinol yn gadarnhaol ym mis Ebrill ac fe wnaeth ostwng i 70.08% ym mis Mai.



9.7 Data adborth allweddol yr Adran Achosion Brys:

- Roedd 57.79% yn teimlo eu bod wedi cael gofal da “bob amser”
- Roedd 68.06% yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw “bob amser”
- Roedd 67.19% yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal “bob amser”
- Roedd 74.62% yn dweud bod pethau “bob amser” yn cael eu hegluro iddynt mewn ffordd y gallent ei deall
- Roedd 90.82% o bobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith “bob amser”
- Roedd 76.72% o bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch “bob amser”

9.8 Eiriolaeth a Chefnogaeth

Ymatebodd y Caplan a’r Gwasanaeth Gofal Ysbrydol i 154 o geisiadau am gymorth gan staff, cleifion, perthnasau ac arweinwyr ffydd cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r ffocws hwn ar brofiad y claf o ofal yn cael ei gyfateb gan ffocws cyfartal ar effeithiolrwydd y gofal clinigol a ddarperir.

10. Diweddariadau Eraill am Brofiad Cleifion

10.1 Sefydlwyd Gwasanaeth Profiad y Bobl (PES) ar 1 Ebrill 2026. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae Swyddogion Profiad y Bobl wedi ymweld ag 20 ward ar draws ysbytai aciwt a chymunedol yng Ngogledd Cymru, i gofnodi profiad cleifion mewn amser real drwy Care 2 Share - Discovery. Fel rhan o'r broses adborth hon, lluniwyd dull dysgu “Fe ddywedoch chi, Fe wnaethom ni” gyda staff y ward.

10.2 Themâu allweddol yr adborth:

- Staff cyfeillgar (cadarnhaol)
- Cyfathrebu (cadarnhaol)
- Glendid (cadarnhaol)
- Arlwyo (negyddol)
- Oedi cyn ateb y gloch alw (negyddol)

10.3 Darparwyd Hyfforddiant Profiad y Bobl i 184 aelod o staff gan gynnwys myfyrwyr nyrsio, a Nyrsys Ardal sy'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam.

Effeithiolrwydd Clinigol

11. Awdit Clinigol

- 11.1 Yn ystod mis Ebrill a mis Mai (Chwarter 1), cyhoeddwyd un archwiliad clinigol cenedlaethol Haen 1, y bwriedir adrodd arno yn ystod mis Gorffennaf 2026.
- 11.2 **Mae un adroddiad Archwilio Cenedlaethol wedi cael ei gyhoeddi yn Chwarter 1, ac roedd yn cynnwys data canfyddadwy PBC.** Mae'r tabl isod yn amlinellu'r wybodaeth meincnodi:

Haen 1 Cyfeirnod y prosiect	Teitl	Perfformiad yn erbyn	
		Meincnod Cenedlaethol	Adroddiad diwethaf PBC
NCAORP/ 2025-26-33	Rhaglen Archwilio Anadlol Genedlaethol (NRAP): Archwiliad Gofal Sylfaenol Cymru: Adroddiad Archwilio Clinigol 2026 (Cyfnod archwilio 2023-2025)	G	G


Allwedd	Cymhariaeth â'r Meincnod Cenedlaethol:	Cymhariaeth ag Adroddiad Diwethaf BIPBC:
R	Lle mae perfformiad a adroddir gan BIPBC yn cyrraedd neu'n rhagori ar y meincnod mewn llai na 50% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol	Lle mae perfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adroddwyd yn flaenorol wedi dirywio mewn mwy na 50% o'r dangosyddion perfformiad allweddol yn ôl yr Adroddiad Archwilio Cenedlaethol diweddaraf
A	Lle mae perfformiad a adroddir gan BIPBC yn cyrraedd neu'n rhagori ar y meincnod mewn 50% i 74% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol.	Lle mae perfformiad BIPBC a adroddwyd yn flaenorol wedi cael ei gynnal neu ei wella mewn 50% i 74% o'r dangosyddion perfformiad allweddol yn ystod y cyfnod adrodd diweddaraf.
G	Lle mae perfformiad a adroddir gan BIPBC yn cyrraedd neu'n rhagori ar y meincnod mewn 75% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol.	Lle bo BIPBC wedi cynnal neu wella mewn 75% neu fwy o Dangosyddion Perfformiad Allweddol ers y cyfnod adrodd blaenorol

12. Canllawiau NICE

- 12.1 Mae BIPBC yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwella'r gwaith o gofnodi a monitro cydymffurfiaeth â chanllawiau NICE, er bod problemau dros dro o ran adnoddau staff yn y

Tîm Effeithiolrwydd Clinigol ar hyn o bryd. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu'r cymorth parhaus a ddarperir i adrannau clinigol a'r gwaith llwyddiannus o wreiddio'r system Rheoli ac Olrhain Archwiliadau (AmaT) ar draws gwasanaethau.

12.2 Isod mae'r sefyllfa bresennol hyd at ddiwedd mis Mai 2026 o ran NICE ar draws BIPBC:



12.3 Mae achosion o gydymffurfiaeth '**Heb ei Chyflawni**' (lle **nad yw'r gwasanaeth wedi cyrraedd y safonau** y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) yn eu hargymell) bellach yn cael eu huwchgyfeirio'n fisol i'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol (SCEG) i ddarparu cymorth wedi'i dargedu a sbarduno gwelliannau mewn cydymffurfiaeth, sy'n dechrau dod i rym. Rhaid i'r gwasanaeth cyfrifol lunio cynllun gweithredu neu Dull Asesu Sylfaenol (BAT) i ddangos sut y maent yn bwriadu bodloni'r safon genedlaethol yn y dyfodol agos, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn. Mewn Archwiliad Mewnol diweddar ar gyfer NICE, nodwyd bod angen gwella'r maes hwn ymhellach o fewn gwasanaethau ac mae hyfforddiant wedi'i dargedu yn cael ei roi ar waith i gyflawni hyn.

12.4 Roedd yr archwiliad mewnol hwn hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai arweinwyr clinigol wedi gallu osgoi'r broses adolygu cydymffurfiaeth lawn drwy ddiystyru eu hymatebion yn AmaT. Mewn ymateb, mae AmaT yn gweithio ar gael gwared ar y swyddogaeth hon, a bydd tîm Effeithiolrwydd Clinigol NICE yn cysylltu â'r arweinwyr clinigol sydd wedi defnyddio'r broses ddiystyru i sicrhau bod yr adolygiadau cydymffurfio gofynnol yn cael eu cwblhau'n llawn. Mae neges safonol hefyd wedi cael ei pharatoi gan y tîm Effeithiolrwydd Clinigol a'i dosbarthu ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n gywir a dim ond gan y tîm Effeithiolrwydd Clinigol os oes angen nes bod y broblem yn cael ei datrys. Arweiniodd yr adolygiad Archwilio Mewnol at Sicrwydd Cyfyngedig, gan adlewyrchu cynnydd amlwg o ran cydymffurfiaeth NICE, ochr yn ochr â'r angen i wella sicrwydd drwy brosesau llywodraethu, goruchwyllo ac adrodd cryfach.




GIG
CYMRU
NHS
WALES


Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

13. Marwoldeb

- 13.1 **Adolygiad o Ddata Marwolaethau a gymerwyd o System iCompare CHKS (ar 22.05.2026):**
Cyfradd Marwolaethau Crai mewn Gofal Eilaidd - cyfartaledd treigl 12 mis - BIPBC o'i gymharu â Chymheiriaid (Pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru ac eithrio Powys):




- 13.2 Dadansoddiad fesul cymheiriaid:



- 13.3 Mae'r gyfradd marwolaethau crai yn BIPBC yn gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, er bod y bwlch wedi lleihau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae cyfraddau marwolaethau crai ar gyfer Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y graff uchod er mwyn gallu cymharu.
- 13.4 Nid yw marwolaethau crai yn cael eu haddasu o ran risg, a gall llawer o ffactorau effeithio arnynt. Bydd demograffeg y boblogaeth, gan gynnwys oedran, statws economaidd-gymdeithasol, iechyd y boblogaeth a chyfradd y clefyd cronig, yn effeithio ar y gyfradd marwolaethau crai.

- 13.5 Bydd nifer yr unigolion sy'n marw y tu allan i'r ysbyty aciwt hefyd yn effeithio ar farwolaethau crai mewn gofal eilaidd. Bydd capasiti mewn ysbytai cymunedol, cartrefi gofal a hosbisau, ochr yn ochr â'r pecynnau gofal cymdeithasol sydd ar gael yn effeithio ar hyd yr arhosiad ac yn cynyddu nifer y marwolaethau mewn gofal eilaidd lle mae diffyg capasiti ymhellach i lawr y gadwyn yn atal rhyddhau. Bydd hyn yn arwain at amrywiad rhwng Cymunedau Iechyd Integredig yn BIPBC ac mae angen ei ystyried wrth wneud cymhariaeth allanol â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.
- 13.6 Rydym yn parhau i fonitro metrigau marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg. Mae tuedd ar i lawr wedi bod yn y Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg (RAMI) yn BIPBC ers mis Mai 2025 sy'n gysylltiedig â chwblhau codau'n well fel y trafodwyd yn flaenorol.


13.7 **Tuedd dreigl 12 mis RAMI a welwyd o'i gymharu â marwolaethau disgwyliedig rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2026:**



RAMI = Nifer y marwolaethau a welwyd / Nifer y marwolaethau a ddisgwylir.

13.8 **RAMI (Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg) 2023 » Cyfnod treigl 12 mis BIPBC o'i gymharu â Chymheiriaid:**


RAMI (Risk Adjusted Mortality Index) 2023
Rolling 12 month Period



— BIPBC

Mae'r llinellau lliw eraill i gyd yn perthyn i gymheiriaid Bwrdd Iechyd Cymru

13.9 Marwolaeth 30 Diwrnod ar ôl Strôc:



— BIPBC

Mae'r llinellau lliw eraill i gyd yn perthyn i gymheiriaid Bwrdd Iechyd Cymru

13.10 Mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi cael ei nodi fel 'allanolyn ffiniol' ar gyfer marwolaethau wedi'u haddasu yn ôl cymysgedd achosion yn Archwiliad Cenedlaethol Strôc Sentinel, sy'n meincnodi cyfradd marwolaethau safonedig a dangosyddion perfformiad allweddol eraill mewn canolfannau ledled y DU. Er nad oes angen ymateb ffurfiol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae angen adolygiad manwl o'r garfan hon. Cytunir ar fethodoleg yn dilyn trafodaeth ragarweiniol gyda Thîm Archwilio SSNAP. Mae data CHKS hefyd yn dangos cynnydd mewn marwolaethau o fewn 30 diwrnod i gael eu derbyn gyda strôc. Cymerir cyngor gan ddarparwr sydd wedi cyflawni adolygiad tebyg.

13.11 Bydd triogli data marwoldeb â dangosyddion perfformiad allweddol eraill yn hanfodol ac fe'i hadlewyrchir yng nghylch gorchwyl Grŵp Llywodraethu Clinigol Strôc BIPBC sydd newydd ei ffurfio ac a fydd yn cael ei gadeirio i ddechrau gan y Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Marwoldeb.

13.12 Ffurflen Morbidrwydd a Marwoldeb, Dysgu a Phrosesau:

Mae Llywodraethu Clinigol a/neu gyfarfodydd penodol ar Farwoldeb a Morbidrwydd yn cynnig fforwm effeithiol ar gyfer myfyrio, trafod a dysgu i lywio datblygiad gwasanaethau ac ymarfer unigol. Mae'r arfer hwn yn cyd-fynd â'r gofynion presennol i glinigwyr fyfyrto ar bryderon a digwyddiadau arwyddocaol eraill yn eu harfarniad blynyddol. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhain ar waith yn gyson ar draws BIPBC ac nid yw methodoleg gyson y cytunwyd arni yn cael ei dilyn. Mae dull gweithredu ar draws BIPBC yn cael ei gyflwyno. Mae hyn yn cynnwys Ffurflen Marwoldeb a Morbidrwydd sy'n darparu strwythur ar gyfer adolygu a thrafod, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu atebol. Mae'n sicrhau y gwneir penderfyniad cyffredinol am ansawdd y gofal a ddarperir i'r claf. Bydd y ffurflenni hyn yn cael eu casglu gan Arweinwyr Marwoldeb ar y safle i sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal ac i ganiatáu dysgu ar y cyd.

13.13 Diweddariad Cyfradd Gwblhau MCCD:

Mae data dangosfwrdd MES yn dangos bod BIPBC yn perfformio'n dda o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill: yr amser cymedrig i gwblhau MCCD yw 7.19 diwrnod ar hyn o bryd.

13.14 **Dysgu**

Roedd yr achos a gyflwynwyd gan Gymuned Iechyd Integredig y Dwyrain yn y Grŵp Llywio Lleihau Marwolaethau y Gellir eu Hosgoi yn canolbwyntio ar ofal claf ag Anableddau Dysgu. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn cynnwys:

13.15 **Gofal Eilaidd**

- pwysigrwydd gwella capasiti'r system ar yr un pryd â chryfhau'r ffocws ar ofal personol a theg i bobl ag anableddau dysgu

Gofal Sylfaenol

- cyfathrebu â theuluoedd, oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth, gofal diwedd oes (yn enwedig rheoli poen) a materion cydlyn gofal

Mae camau gweithredu ar y gweill i rannu'r hyn a ddysgwyd a sicrhau gwelliannau, gan gynnwys gwers ddysgu bob mis i gleifion ag Anableddau Dysgu.

Sicrhau Ansawdd

14. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

14.1 Mae cynlluniau gweithredu arolygiadau AGIC yn dal i fynd rhagddynt, gyda rhai camau gweithredu hwyr angen cael eu monitro'r barhaus. Mae ceisiadau diweddar am sicrwydd yn ymwneud â staffio, diogelwch, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a materion amgylcheddol.

14.2 Mae'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn parhau i weithio gyda meysydd clinigol i fwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu AGIC. Mae'r isod i gyd yn gynlluniau gwella AGIC, gyda chynlluniau wedi'u targedu i fwrw ymlaen â'r gwaith o gwblhau.

14.3 **Arolygiad – Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd (14-16 Ebrill 2025)**

- **Statws:** Wedi cwblhau
- **Argymhellion:** 28
- **Camau Gweithredu:** 66 i gyd; 66 wedi'u cwblhau (100%)
- **Heb gwblhau:** Dim
- **Dyddiad Cau:** Wedi cwblhau
- **Llywodraethiant:** Monitro parhaus drwy Gyfarfod Adolygu AGIC Lleol, y Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio (RAG), a'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol (EQDG).

14.4 **Archwiliad - Ward Pantomeim, Ysbyty Maelor (14 i 16 Hydref 2025)**

- **Statws:** Wedi cwblhau
- **Argymhellion:** 18
- **Camau Gweithredu:** 42 i gyd; 42 wedi'u cwblhau (100%)
- **Dyddiad Cau:** 5 Mai 2026
- **Llywodraethiant:** Monitro cynnydd drwy Gyfarfod Adolygu AGIC Lleol, Grŵp Cyflawni Ansawdd Diogelwch Cleifion y Dwyrain, Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol.

14.5 **Arolygiad - Tîm Anableddau Dysgu Conwy, Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru/Arolygiaeth Gofal Cymru (9 i 11 Chwefror 2026)**

- **Statws:** Yn hwyr
- **Argymhellion:** 16
- **Camau Gweithredu:** 51 i gyd, 19 wedi'u cwblhau (37%)
- **Heb gwblhau:** 32 o gamau gweithredu ar ôl (un wedi'i gwblhau'n rhannol, yn hwyr)
- **Dyddiad Cau:** I'w gadarnhau
- **Llywodraethiant:** Monitro parhaus drwy Gyfarfod Adolygu AGIC Lleol, y Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio (RAG), a'r Grŵp Cyflawni Ansawdd Gweithredol (EQDG).

14.6 **Arolygiad - Uned Ablett, YGC (27 i 29 Ebrill 2026)**

Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno ei gynllun gwella i AGIC. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn y llythyr yn cadarnhau bod y cynllun gwella wedi cael ei derbyn.

14.7 **Arolygiad AGIC - Adran Achosion Brys, YGC (5 i 7 Mai 2026)**

AGIC wedi amlinellu Camau Gweithredu ar Unwaith ac wedi'u huwchgysfeirio i'r Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol.

Mae'r pryderon a godwyd y mae angen Gweithredu arnynt ar unwaith yn cynnwys:

- Cryfhau dulliau arweinyddiaeth a llywodraethu ar y safle a'r Gymuned Iechyd Integredig gyda llwybrau uwchgysfeirio clir er mwyn gallu ymateb fel safle cyfan i gefnogi'r Adran Achosion Brys.
- Ymchwiliad brys a chymorth i fynd i'r afael â phryderon a nodwyd am ddiwylliant a lles staff yn yr adran. Mae hyn yn cynnwys llwybrau ac ymatebion clir i staff allu uwchgysfeirio pryderon, yn ddienw os dymunir.
- Cynnydd yn nifer y nyrsys pediatriig hyfforddedig sydd ar ddyletswydd gyda rhai newidiadau i gynllun yr Adran Achosion Brys bediatrig.
- Gwella gofal i gleifion yn yr ystafelloedd aros.
- Sicrhau bod yr holl feddyginiaeth a chyfarpar yn gyfredol ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Mae cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion y camau a gymerwyd eisoes a metrigau clir i fesur gwelliant wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan AGIC. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gydag AGIC. Mae Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam hefyd yn hunanasesu yn erbyn canfyddiadau a byddant yn cael eu hadolygu gan gymheiriaid.

Disgwylir adroddiad llawn dros yr haf a datblygir cynllun gweithredu pellach i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ychwanegol.

14.8 **Ceisiadau am Sicrwydd:** Ymatebodd BIPBC i geisiadau am sicrwydd gan AGIC ynghylch Nant y Glyn, Uned Iechyd Meddwl Cymunedol Conwy, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Wrecsam a'r Uned Babanod Newydd-anedig yn YGC

Ym mhob achos, cafodd y camau gwella eu nodi'n fanwl a chafodd AGIC sicrwydd gan ymatebion BIPBC.

14.9 Pryderon / Ceisiadau am Sicrwydd (3)

- **Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Nant-y-Glyn (Ebrill 2026)**

Cais am sicrwydd gan AGIC yn dilyn pryderon a gafwyd drwy neges llais gan fam unigolyn yn mynegi pryderon am ei hiechyd meddwl a'i diogelwch. Roedd hefyd yn tynnu sylw at broblemau cyfathrebu â'r gwasanaeth Does dim byd yn y nodiadau clinigol na mewn e-byst y dderbynfa yn dangos bod galwadau wedi cael eu derbyn a bod y CMHT heb ymateb. Mae'r nodiadau'n dangos bod cysylltiad wedi'i wneud ddwywaith drwy'r dderbynfa, ac ar y ddwy achlysur, cafodd Ymarferydd gysylltiad.

14.10 • **Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Wrecsam (Ebrill 2026)**

Roedd cais am sicrwydd gan AGIC yn tynnu sylw at bryderon ynghylch anfodlonrwydd claf â'r ffordd yr oedd ei asesiad seiciatrig yn cael ei reoli. Mae'r e-bost hefyd yn sôn am benderfyniad y claf i roi'r gorau i'w feddyginiaeth ragnodedig. Roedd arwydd bod y claf yn peri risg uchel i'w ddiogelwch a'i les personol. Rhoddodd y gwasanaeth ddiweddariad pellach i AGIC fis ar ôl y pryder cychwynnol, er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch gofal y claf.

14.11 • **Adran Babanod Newydd-anedig Ysbyty Glan Clwyd, Cymuned Iechyd Integredig y Canol (Ebrill 2026)**

Cais am sicrwydd gan AGIC ynghylch pryderon a ddaeth i law gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yng nghyswllt yr Uned Babanod Newydd-anedig yn ysbyty Glan Clwyd. Mae'r pryderon a gyflwynwyd yn ymwneud â diogelwch, safonau gofal ac amgylchedd gwaith yr Uned, Gwnaed adolygiad llawn gan y gwasanaeth, a bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro cyflawni gweithredoedd trwy brosesau llywodraethu sefydledig i sicrhau gwelliant parhaol a dysgu sefydliadol.

15. Arolygiaeth Gofal Cymru

15.1 Ni chanfu arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddim pryderon uniongyrchol ac mae'r cynlluniau gwella yn dal ar y trywydd iawn.

16. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

16.1 Mae BIPBC wedi parhau i gydymffurfio â gofynion yr Ombwdsmon, gyda chydymffuriad cyffredinol yn erbyn argymhellion ar 92%. Mae ymgysylltu â swyddfa'r Ombwdsmon wedi cryfhau, gan gefnogi prosesau datrys amserol a gwell sicrwydd.

16.2 Ar hyn o bryd mae gan BIPBC 50 o achosion Ombwdsmon ar agor.

Hysbysiad o Ymchwiliadau Llawn Newydd	2
Aros am Adroddiad Drafft	18
Adroddiad Drafft wedi'i Dderbyn	1
Aros am yr Adroddiad Terfynol	2
Wedi derbyn yr Adroddiad Terfynol ac yn gweithio ar gynlluniau gweithredu	9
Cynigion Datrys Cynnar	12
Wedi gofyn am ragor o wybodaeth yn ystod yr ymchwiliad	5
Ymholiadau	3
Wedi gofyn am ragor o dystiolaeth i Gymeradwyo	1
Cyfanswm yr Achosion sydd ar Agor	50

16.3 Adroddiadau Budd y Cyhoedd

Mae'r Ombwdsmon yn ystyried yr achosion hyn i godi materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, yn amodol ar unrhyw sylwadau gan y Bwrdd Iechyd neu'r achwynydd.

16.4 • Adroddiad Budd y Cyhoedd Terfynol 202301141

Ystyriodd ymchwiliad yr Ombwdsmon y canlynol:

- Adolygiad a thriniaeth briodol ar gyfer casgliadau hylif a sepsis pelfig ar ôl llawdriniaeth proctectomi yn 2019, gan gynnwys mewnbwn gynaecolegol digonol.
- Digon o amser a gwybodaeth i ddeall ac ystyried risgiau'r broses lawfeddygol o dynnu casgliadau hylif ar ôl llawdriniaeth, ac i roi caniatâd gwybodus llawn cyn i'r llawdriniaeth hon gael ei chynnal.
- Ymchwiliad a thriniaeth brydlon a phriodol ar gyfer poen a'r ffaith bod llai o weithrediad yn yr arennau ar ôl llawdriniaeth ym mis Mawrth 2022.
- Gwybodaeth brydlon a phriodol am yr hysterectomi, gan gynnwys cyngor ar wella ar ôl llawdriniaeth, y menopos ac opsiynau ar gyfer therapi amnewid hormonau.

Mae'r Adroddiad Budd y Cyhoedd hwn yn dal ar agor oherwydd cam gweithredu eithriadol ar y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu (CAF). Cytunwyd ar ddyddiad cau, sef 31 Ionawr 2026, gyda'r Ombwdsmon. Mae'r CAF wedi cael ei gymeradwyo drwy brosesau llywodraethu a bydd y camau gweithredu sy'n weddill nawr yn symud ymlaen i'w cau.

Mae'r holl dystiolaeth o gydymffurfiaeth bellach wedi cael ei rhannu â'r Ombwdsmon. Mae'r gydymffurfiaeth wedi'i bodloni a chafodd yr achos ei gau ar 25 Mehefin 2026.

16.5 • Adroddiad Budd y Cyhoedd Terfynol 202404388

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon wedi ystyried y canlynol:

Y gofal a'r driniaeth a gafodd y claf, yn dilyn ei ddiagnosis o ganser y prostad, rhwng mis Medi 2023 a mis Gorffennaf 2024. Yn benodol, arwyddocâd yr oedi cyn iddo gael sgan PET ac oestrogen, ac a effeithiodd hyn ar ledaeniad ei ganser.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 4 Mawrth 2026.

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â'r holl gamau gweithredu sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2026 wedi cael ei rhannu â'r Ombwdsmon.

Mae llythyr ymddiheuro wedi cael ei gyhoeddi. Mae adroddiad yr Ombwdsmon wedi cael ei rannu â'r clinigwyr hynny sy'n ymwneud â gofal y claf er mwyn gallu ystyried a thrafod y canfyddiadau. Mae'r adroddiad hefyd wedi cael ei rannu â'r staff sy'n delio â chwynion ynghylch yr angen am ymchwiliadau manwl a chadarn.

Mae'r holl gamau gweithredu sy'n weddill erbyn mis Medi 2026 yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad o lwybr lleol canser y prostad y Bwrdd Iechyd, ac mae archwiliad ar y gweill ar hyn o bryd i ddangos tystiolaeth o effaith unrhyw newidiadau a wnaethpwyd. Mae'r achos hefyd yn cael ei adolygu yn unol â'i ofynion cyfreithiol o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd i benderfynu sut roedd taith y llwybr canser wedi cymryd mwy na 180 diwrnod.

Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi cwblhau archwiliad o'r cleifion hynny yr oedd angen sgan PET arnynt yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â swyddfa'r Ombwdsmon. Targed y Cyd-bwyllgor Comisiynu ar gyfer sganiau PET yw 10 diwrnod ac mae amseroedd aros presennol y Byrddau Iechyd (dechrau mis Gorffennaf 2026) o fewn targed y Cyd-bwyllgor Comisiynu.

16.6 Adroddiad Budd y Cyhoedd Terfynol 202501841

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon wedi ystyried y canlynol:

- a) A oedd yn glinigol briodol presgripsiynu Sevredol (sylffad morffin).
- b) A roddwyd digon o wybodaeth a chefnogaeth i'r claf a'r teulu i leihau'r risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â rhagnodi Sevredol.

Cafodd hwn ei gyhoeddi ar 17 Mehefin 2026.

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â'r holl gamau gweithredu sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2026 wedi cael ei rhannu â'r Ombwdsmon.

Mae llythyr ymddiheuro wedi cael ei anfon ynghyd â thaliad iawndal ariannol o £2,000 i adlewyrchu'r anghyfiawnderau a achoswyd. Mae adroddiad yr Ombwdsmon wedi cael ei rannu â'r holl staff meddygol a fferylliaeth i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau yn unol â chanllawiau cyffuriau a reolir NICE a Pholisi Meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad hefyd wedi cael ei rannu â'r Ymgynghorydd at ddibenion myfyrio fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae hefyd wedi cael ei rannu â thîm ymchwilio'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r ffordd mae'n cynnal ei ymchwiliad yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac i nodi pwyntiau dysgu. Mae'r holl dystiolaeth wedi cael ei rhannu â'r Ombwdsmon.

Mae'r holl gamau gweithredu sy'n weddill erbyn mis Rhagfyr 2026 yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad o broses ac ymarfer yn y timau meddygol a fferylliaeth i fynd i'r afael â'r holl fethiannau a nodwyd. Mae archwiliad hefyd ar y gweill o'r broses o ryddhau cleifion ar hap o'r Uned

Feddygol Aciwt (AMU) yn ystod 6 mis diwethaf i benderfynu a oedd y presgripsiynau a ddarparwyd wrth ryddhau cleifion yn destun archwiliadau mewnol ac allanol priodol.

17. Y Ddyletswydd Gonestrwydd

- 17.1 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi ymrwymo i gynnal y Ddyletswydd Gonestrwydd statudol a sicrhau cydymffurfiaid â'r holl ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol cysylltiedig. Mae'r sefydliad yn parhau i hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, yn dryloyw ac yn onest ym mhob agwedd ar ddarparu gofal, gan roi cleifion, teuluoedd a gofalwyr wrth galon ei ddull gweithredu.
- 17.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i gefnogi'r gwaith o ganfod, adrodd a rheoli digwyddiadau diogelwch cleifion hysbysadwy yn briodol. Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gwreiddio mewn prosesau adrodd am ddigwyddiadau, ymchwilio iddynt a phryderon, gan sicrhau bod unigolion y mae niwed yn effeithio arnynt yn cael gwybod mewn modd amserol, tosturiol a strwythuredig.
- 17.3 Mae BIPBC yn cydnabod pwysigrwydd dysgu a gwella'n barhaus. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen pwrpasol ar waith ar hyn o bryd i adolygu cydymffurfiaid y sefydliad â gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae'r grŵp hwn wrthi'n asesu arferion cyfredol, yn nodi unrhyw fylchau o ran cydymffurfio, ac yn goruchwyllo'r gwaith o roi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith. Mae'r gwaith hwn yn sicrhau bod Dyletswydd Gonestrwydd yn parhau'n flaenoriaeth strategol a gweithredol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 17.4 Mae dysgu o ddigwyddiadau a phryderon yn elfen allweddol o'r dull hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddefnyddio gwybodaeth o ymchwiliadau ac adolygiadau i gryfhau diogelwch cleifion, gwella'r modd y darperir gwasanaethau, ac atgyfnerthu diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn agored ac yn onest.
- 17.5 Drwy'r ymdrechion parhaus hyn, nod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw sicrhau bod y Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei defnyddio'n gyson, bod cleifion a theuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod dysgu sefydliadol yn sbarduno gwelliant ystyrlon a pharhaus.
- 17.6 Ar hyn o bryd mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn adolygu'r ffordd mae data'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gasglu er mwyn gallu darparu data llawn gwybodaeth ar gyfer adrodd. Mae hyn yn cael ei wneud gyda fforymau Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Byrddau Iechyd eraill ledled Cymru.

18. Dysgu Sefydliadol

- 18.1 Mae'r Is-adran Iechyd Meddwl bellach wedi cyfrannu ei allbwn dysgu cyntaf i'r Storfa Dysgu Digidol, gydag ail yn cael ei datblygu, gan nodi cam sylweddol tuag at wreiddio'r storfa fel adnodd craidd ar gyfer dysgu sefydliadol. Mae eu hymgyssylltiad cynnar yn

adlewyrchu hyder cynyddol ar draws gwasanaethau wrth ddefnyddio'r llwyfan i rannu dulliau dysgu dilys o ansawdd uchel sy'n cefnogi dull cyson o wella diogelwch cleifion. Mae gwaith hefyd wedi dechrau i gryfhau prosesau sicrhau ansawdd a dysgu gyda gwasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau bod mewnwelediadau o bob rhan o'r system ehangach yn cael eu cofnodi a'u cysoni â fframwaith dysgu sefydliadol BIPBC wrth i'r maes hwn ddatblygu ymhellach.

Cyfraith Gofal Iechyd

19. Crwner a Chwestau

- 19.1 Adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD)
Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oedd unrhyw PFD newydd nac ymatebion i PFD.
- 19.2 Ymateb i bryderon eraill y Crwner
Cafwyd cais am ragor o sicrwydd gan y crwner yn dilyn cwest, gan ofyn am wybodaeth am yr amseroedd aros presennol ar gyfer llawdriniaeth ddewisol ar goden y bustl a'r camau gweithredu sydd ar waith lle gallai amseroedd aros estynedig beri risg bosibl. Mewn ymateb, mae BIPBC wedi darparu data cyfredol am amseroedd aros, gan gydnabod bod amseroedd aros yn hir mewn rhai achosion, ac wedi amlinellu'r mesurau sydd ar waith i reoli a lleihau'r amseroedd aros hyn. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau cryfach i reoli rhestrau aros, manteisio i'r eithaf ar gapasiti theatrau, prosesau dilysu, a defnyddio contractau mewnol ac allanol, wedi'u cefnogi gan drefniadau llywodraethu a goruchwylio perfformiad sefydledig.

20. Hawliadau Atebolrwydd

- 20.1 Mae BIPBC yn parhau i gadw golwg benodol ar Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau (LFER) sy'n ofynnol gan Gronfa Risg Cymru. Ar sail y sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd 13 LFER hwyr.
- 20.2 Mae'r perfformiad cyffredinol wedi gwella o un flwyddyn i'r llall, gyda gostyngiad parhaus yn nifer y cyflwyniadau hwyr a chyfran yr achosion sy'n cael eu cosbi. Roedd 29 o gosbau ym mlwyddyn ariannol 2025-2026, o'i gymharu â 66 o gosbau ym mlwyddyn ariannol 2024/2025.
- 20.3 Mae'r rhan fwyaf o'r oedi'n ymwneud â gohirio Cronfa Risg Cymru er mwyn cael rhagor o dystiolaeth neu eglurhad, yn hytrach na pheidio â chyflwyno, ac mae'n ymwneud yn bennaf â Chymunedau Iechyd Integredig y Canol a'r Dwyrain.
- 20.4 Mae gwelliannau i brosesau yn dal ar waith, gan gynnwys dyddiad cau cynharach ar gyfer sicrwydd mewnol cyn cyflwyno i Gronfa Risg Cymru, sydd wedi'i ddylunio i gryfhau ansawdd a lleihau gohiriadau y gellir eu hosgoi.



Adroddiad Materion Allweddol y Bwrdd Iechyd

Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026
Dyddiad y Pwyllgor	23/06/2026	Adroddiad: Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Cafwyd cworwm:		Do
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIGC) yn parhau i gyfarfod yn ddeufisol. Gwnaeth y Pwyllgor ystyried agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor PFIG - BIPBC
2a	Rhybudd	Mae'r Pwyllgor PFIG yn dymuno Rhybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Mae adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn parhau i fod oddi ar y trywydd cywir, ac erys pryderon penodol ynghylch arosiadau o 104 wythnos: mae hyder cyfyngedig o ran y gallu i gyflawni'r deiliant gofynnol. - Mae perfformiad Gofal Brys a Gofal Argyfwng yn parhau i fod yn fregus, yn cynnwys heriau parhaus o ran llif cleifion, oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty ac anghysondeb wrth sicrhau gwelliannau ar draws safleoedd. - Mae cyflawni cyllideb gytbwys yn parhau i fod yn heriol, ac mae bwlch sylweddol o ran arbedion cyraeddadwy a phwysau cynyddol ynghylch diffygion: mae'r arbedion sydd wedi'u canfod hyd yma yn deillio o waith gwerth a chynaliadwyedd, yn bennaf.
2b	Sicrwydd	Mae'r Pwyllgor PFIG yn dymuno rhoi Sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Mae dull diwygiedig ar gyfer adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys arweinyddiaeth gryfach, model dan arweiniad arbenigeddau a gwell aliniad rhwng cynllunio gweithredol ac ariannol. - Mae rhai arwyddion cynnar o welliant yn dod i'r amlwg, gan gynnwys gostyngiadau o ran yr arosiadau hiraf a gwell gafael gweithredol o ran rhai gwasanaethau, wedi'u hategu gan lywodraethu cryfach ym maes adfer. - Mae fframwaith Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith, yn cynnwys piblinell diffiniedig o gyfleoedd a ffocws ar gynhyrchiant, effeithlonrwydd a chanlyniadau. Bydd y Pwyllgor yn cael sesiwn ddatblygu'n ymwneud â hyn yn benodol. - Mae dull diwygiedig ar gyfer llywodraethu achos busnes yn cael ei roi ar waith, gan atgyfnerthu blaenoriaethu, alinio cynigion â chynllunio a therfynau cyllid sydd ar

		gael, a chan ganiatáu gwell perchnogaeth leol o benderfyniadau'n ymwneud ag adnoddau er mwyn lleihau dibyniaeth ddiangen ar achosion busnes ffurfiol. Mae hyn i hyn gael ei ategu trwy symleiddio'r broses ECR ac adolygu dulliau penderfynu canolog yn ymwneud â rhai mathau o wariant hyd yn oed pan fo'r rhain o fewn cyllidebau datganoledig.
2c	Cynghori	Mae'r Pwyllgor PFIG yn dymuno cynghori aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Mae'n rhaid i'r sefydliad gyflymu o ran cyflawni gwelliannau systemig, yn enwedig yn ymwneud â chynhyrchiant (e.e. theatrau, diagnosteg a defnyddio'r gweithlu). • Mae ymgysylltu clinigol a pherchnogaeth cryfach yn hollbwysig er mwyn cyflawni gwelliant cynaliadwy a sicrhau newidiadau ar sail gwerth: unwaith eto, bydd mwy o hyblygrwydd wrth gymhwyso rheolyddion canolog ac wrth ymdrin ag achosion busnes lle bo angen y rhain yn bwysig er mwyn sicrhau bod eraill yn ymrwymo i hyn. • Derbyniwyd y fersiwn newydd o'r Adroddiad Perfformiad Integredig am y tro cyntaf, roedd y Pwyllgor yn falch gyda'r fformat newydd ond erys pryderon sylweddol ynghylch llawer o agweddau ar berfformiad.
2d	Adolygu Risgiau	Cafodd y risgiau y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am eu goruchwyllo eu hadolygu a nododd y Pwyllgor fod archwiliadau dwfn yn parhau.
2e	Rhannu gwersi a ddysgwyd	Nid oedd unrhyw eitemau dysgu penodol i dynnu sylw'r Bwrdd atynt ar yr achlysur hwn.
3	Camau gweithredu i'w hystyried gan	Pwyllgor Pobl a Diwylliant i adolygu gwaith sydd ar y gweill i symleiddio'r broses ECR.

Bwrdd Iechyd**ADRODDIAD CYLLID PBC 2026-27 – MIS 3 (MEHEFIN)**

Dyddiad y Cyfarfod	30 Gorffennaf 2026
Statws Cyhoeddi	Agored / Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad	Michelle Jones, Pennaeth Adroddiadau Ariannol Daniel Eyre, Pennaeth Datblygu Cyfalaf
Enw a theitl yr Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol	Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.

Pwrpas yr Adroddiad	I'w Nodi
----------------------------	----------

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd Mis 3 (Mehefin 2026) ac mae'n cynnwys diweddariad ar gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf gymeradwy a sicrhau Arbedion yn unol â'r targed.

Adroddiad Cyllid

Mae'r sefyllfa hyd yma yn nodi diffyg o £17.1m, sef £6.4m yn waeth na'r diffyg cynlluniedig o £10.8m ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r amrywiad anffafriol yn erbyn y cynllun yn dangos y gyfradd rhedeg sy'n fwy na'r cynllun o tua £2m y mis, gyda'r sefyllfa anffafriol yn cael ei gyrru gan ddiffyg yn y gwaith o gyflawni arbedion. Mae'r sefyllfa yn ystod y mis (Mehefin 2026) yn dangos diffyg o £6.2m ar gyfer y mis.

Cyfanswm yr arbedion a dargedwyd i'w cyflawni yn chwarter 1 yw £11.4m (3/12fed o'r targed blynyddol o £46m) gyda'r arbedion a gyflawnwyd hyd yma yn £8.1m. Fodd bynnag, o'r arbedion hyn, mae £2.1m yn cael ei ryddhau o'r gyllideb sy'n arwain at ddiffyg o £9.4m yn yr arbedion y gellir eu hechdynnu o'r gyllideb o'i gymharu â'r targed ar gyfer y flwyddyn hyd yma.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiad gwirioneddol a'r amrywiad a ragwelir bob mis ar gyfer 2026/27:

	2026/27 Monthly Variance													
	Actual			Forecast										
	April	May	June	July	August	Sept	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Year to Date Position	Full Year Forecast Outturn Position
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Total Monthly Surplus/ (Deficit)	(5.4)	(5.6)	(6.2)	(4.5)	(4.0)	(3.0)	(2.5)	(2.5)	(2.5)	(2.5)	(2.2)	(2.2)	(17.1)	(43.0)

Y sefyllfa a ragwelir ar gyfer 2026/27 yw cyflawni'r diffyg arfaethedig o £43m, sy'n cyd-fynd â'r cynllun ariannol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r sefyllfa a ragwelir yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'n llawn yr holl ddyfarniadau cyflog a'r codiadau cyflog cysylltiedig yn 2026/27, ynghyd â derbyn yr holl incwm a ragwelir.

Bydd y ffocws yn parhau ar gyfyngu ar or-redeg costau ac adfer y diffyg yn ystod y mis. Bydd camau ychwanegol Gafael a Rheoli a roddwyd ar waith yn ystod 2025-26 yn parhau yn 2026-27, gan gynnwys:

- **Rheolaethau Caffael a Gwariant ac eithrio Cyflog** lle nad yw hyn yn effeithio ar ofal clinigol uniongyrchol, gyda chymeradwyaethau gwell ar gyfer ceisiadau
- **Cyflogau** – Goruchwyliaeth a rheolaethau a roddir ar recriwtio allanol
- **Gweithlu Dros Dro** – Goruchwyllo'r Arweinyddiaeth Weithredol Glinigol

Risgiau

Mae nodi arbedion i gyflawni'r cynllun ar gyfer 2026/27 ac yna ymestyn y gofyn i gyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol bellach yn angenrheidiol. Bydd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i ni gyfyngu ar or-redeg costau'n gynharach a'i wrthbwysu, gyda'r risg i gyflawni cynllun ariannol 2026/27 yn cael ei hasesu'n oddeutu £108.0m (gyda'r posibilrwydd o golli £82m o incwm yn ystod y flwyddyn ar gyfer y cyllid cylchol amodol).

Arian parod

Y balans arian terfynol ar gyfer mis Mehefin oedd £5.4m, gan gynnwys £2.3m o arian a oedd yn cael ei gadw ar gyfer gwariant refeniw a £3.1m ar gyfer prosiectau cyfalaf. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld balans arian parod terfynol ar gyfer 2026-27 o (£35.1m) sy'n cynnwys (£40.5m) o arian refeniw a £5.5m o arian cyfalaf.

Arbedion

Mae cynllun ariannol y Bwrdd Iechyd yn gofyn am darged arbedion o £46.0m i'w gyflawni yn 2026/27, a datblygu prosesau i nodi, adrodd a monitro arbedion drwy'r model thematig Gwerth a Chynaliadwyedd. Mae'r targed arbedion wedi'i osod ar 2.4% ar sail cyllidebau rheolaidd nad ydynt yn cynnwys cyllidebau wedi'u neilltuo. Mae'r dull Gwerth a Chynaliadwyedd yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau ym meysydd craidd Gwerth Clinigol, y Gweithlu, Gofal Iechyd Parhaus, Rheoli Meddyginiaethau ac Elfennau Nad Ydynt yn Ymwneud â Chyflog a Chaffael. Mae'r targed o £46.0m yn cael ei broffilio ar sail deuddeg cyfartal.

Ar ddiwedd mis Mehefin (Mis 3), mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau cynilo Gwyrdd gwerth £24.1m, sy'n gynydd o £10.8m ers y mis blaenorol. O'r arbedion hyn, nodwyd bod £13.5m yn gylchol, gydag effaith blwyddyn gyfan o £19.9m, a £10.6m yn cael ei nodi fel arbedion nad ydynt yn gylchol. Ym Mis 3, nodir bod £20.8m yn rhyddhau arian, £2.4m o enillion cyfrifyddu a £0.9m o incwm wedi'i gynhyrchu a chynlluniau osgoi costau.

£5.4m yw'r arbedion a gyflawnwyd yn ystod y mis a £8.1m yw'r arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn hyd yma. Mae £2.1m o'r arbedion hyn yn rhyddhau cyllideb, gan arwain at effaith o £9.4m ar y sefyllfa.

Cyfanswm gwerth cynlluniau blwyddyn lawn y Cynlluniau Coch ac ar y gweill yw £19.5m. Mae'n hanfodol bwysig bod y cyfleoedd a nodwyd yn cael eu trosi'n gynlluniau gwyrdd yn gyflym, er mwyn peidio ag arwain at berfformiad niweidiol yn gynnar yn 2026/27, ac osgoi'r angen am gamau adfer ychwanegol yn y misoedd i ddod.

Mae angen canolbwyntio ar gyflymu'r broses o symud y cynlluniau arbedion a nodwyd i statws gwyrdd ac i statws cyflawni sy'n rhyddhau'r gyllideb. I gefnogi hyn, mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi trefnu cyfarfodydd craffu wedi'u huwchgyfeirio gyda Chyfarwyddwyr y Gymuned Iechyd Integredig unigol ac Arweinwyr Gwerth a Chynaliadwyedd rhwng 15 a 21 Gorffennaf i ddileu rhwystrau i gynydd cynlluniau presennol a nodi cynlluniau amgen i, o leiaf, ategu'r targed arbedion ar gyfer adrodd Mis 4.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r ddyletswydd allweddol gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno cynllun cytbwys, a fyddai'n gofyn am gyflawni targed arbedion estynedig o £63m (£17m yn ychwanegol i'r £46m sydd yn y cynllun). Byddai cyflawni'r cynllun yn golygu bod £26m o gostau Cronfa Risg Cymru yn cael ei liniaru drwy allu'r tîm Cenedlaethol a'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno cynllun cytbwys ar gyfer 2026/27 a chyflawni'r ddyletswydd statudol allweddol o fantoli'r gyllideb.

Rhaglen Gyfalaf

Y Terfyn Adnoddau Cyfalaf cymeradwy ar gyfer 2026/27 yw £58.577m. Yr alldro rhagolwg blwyddyn lawn presennol yw £58.550m, sy'n adlewyrchu'r amrywiad o £0.027m ar gyfer Cyllid Digidol Diwedd Blwyddyn.

Fel y cytunwyd yn flaenorol gyda Llywodraeth Cymru, bydd gwariant y flwyddyn flaenorol o £1.377m ar gyfer Ysbyty Brenhinol Alexander – Cam 1 yn cael ei ail-ddarparu yn ôl disgrisiwn o ddyraniad Cymru gyfan.

Adroddwyd bod £0.800m o incwm a roddwyd ym Mis 3. Bydd rhagor o incwm a roddwyd mewn perthynas â Helipad Ysbyty Gwynedd yn cael ei adrodd o Fis 4 ymlaen i gyd-fynd ag Adroddiad Cynnydd y Prosiect.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r strategaeth ystadau gyffredinol.

Yr ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion	Dyddiad	Canlyniad, Tystiolaeth a Data

Acronymau / Rhestr Termiau

IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
CRL	Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Adroddiad Cyllid M3 2026-27 PBC

Gweler Atodiad A – Adroddiad Cyllid M03 PBC 2026/27 – Mehefin 2026

ASESIAD

Cysylltiad â'r Blaenoriaethau Strategol



1. Creu sefydliad effeithiol

Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:

Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r nod strategol o sicrhau cydbwysedd ariannol ac mae'n ategu nifer o flaenoriaethau sefydliadol.

Egwyddorion Cynllunio

Gwario Doeth

Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd) Atodiad A Risgiau BAF BAF SP14 – Ystadau a Chyfalaf <i>(Mae risg o fethu cyflawni a darparu amgylchedd adeiledig, offer a chyd-destun digidol diogel a chydymffurfiol oherwydd cyfyngiadau o ran cyllid cyfalaf, a allai effeithio'n niweidiol ar allu'r Bwrdd Iechyd i weithredu gwasanaethau diogel a chynaliadwy drwy raglen adnewyddu briodol, ac arwain at niwed y byddai modd ei osgoi i gleifion, staff a'r cyhoedd, a niwed i enw da ac ymglyfreitha.)</i> BAF24-03 – Cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd Ariannol <i>(Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu sicrhau dyraniadau rheolaidd (untro) cyfredol mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, gan fod y dyraniadau hyn yn amodol ar fodloni cynlluniau ariannol y cytunwyd arnynt. Os na lwyddir i sicrhau'r adnodd hwn, bydd yn rhaid i wasanaethau weithredu o fewn amlen ariannol lai o lawer. Yr amcan yw sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor neu sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'i wariant).</i> Dolen i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol: CRR24-06 Addasrwydd a Diogelwch Safleoedd CRR26/27-Fin-01 Cyflawni Cynllun Ariannol a Chynaliadwyedd Ariannol 2026/27
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant</u>	Cymru Gydnherth Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:

ASESIADAU O'R EFFAITH		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi ymgymryd ag Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	Ddim yn berthnasol
	Os naddo, nodwch y rhesymeg:	
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i asesu'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith Gymdeithasol ac Economaidd fesul prosiect.



<u>Ansawdd</u> <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Galluogwyr Ansawdd Data i Wybodaeth	Meysydd Ansawdd Effeithiol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
<u>Deddf Llesiant</u> <u>Cenedlaethau'r Dyfodol –</u> <u>Nodau Llesiant</u>	Cymru Gydnerth	

Effaith Amgylcheddol/Cynaliadwyedd (5R)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
Y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog <i>Ydych chi wedi ystyried y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog?</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	Na - Ddim yn berthnasol
	Os naddo, nodwch y rhesymeg:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do: ☒	Naddo: ☐
	Canlyniad:	Dim data personol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.
	Os naddo, nodwch y rhesymeg:	
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll</i>	Do: ☒	Naddo: ☐
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	
Materion Cyfreithiol	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw da	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Goblygiadau dirywiad y rhagolwg i enw da.	
Effaith ar Adnoddau	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	

(Pobl / Ariannol)

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael £82 miliwn o gyllid cylchol amodol gan Lywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflawni cynllun 2025/26 (a) sicrhau balans ariannol £40 miliwn a (b) isgyfeirio o Fesurau Arbennig £42 miliwn er mwyn i'r cronfeydd hyn gael eu derbyn yn rheolaidd (ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol).

Os na fydd y cynllun yn cael ei wella a'i gyflawni, bydd y cyllid o £82m mewn perygl o gael ei adfachu gan Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn peryglu cynaliadwyedd y modelau gwasanaeth presennol.

Mae cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol hefyd yn ofyniad i'r Bwrdd Iechyd dderbyn cyllid i gefnogi'r costau uwch sy'n gysylltiedig â Chronfa Risg Cymru o £26m. Yn gwyno, mae £108m o fesurau lliniaru costau neu incwm mewn perygl os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni'r ddyletswydd statudol allweddol i fantoli'r gyllideb.

Bwrdd Iechyd

YMATEB I FODIWLAU 2, 3 A 4 YMCHWILIAD COVID-19 Y DU: SEFYLLFA A DYSGU'R BWRDD IECHYD

Dyddiad y Cyfarfod Dyddiad y Cyfarfod	30 July 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored / Cyhoeddus
	Statws Drafft – Bydd y Fersiwn Derfynol yn cael ei Chyhoeddi
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Reena Cartmell, Cyfarwyddwr Sicrhau Ansawdd a Dysgu Nyrsio Glesni Driver, Pennaeth Cydymffurfiaeth ac Ymchwiliadau Statudol
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w Nodi

Crynodeb Gweithredol Crynodeb Gweithredol

Mae Modiwl Ymchwiliad Covid-19 y DU rhif 2: (Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu Gwleidyddol Craidd y DU), rhif 3: (Effaith ar Systemau Gofal Iechyd) a rhif 4 (Brechlynnau a Therapiwteg) yn darparu dysgu pwysig i wasanaethau iechyd ledled y DU. Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd parodrwydd, gwydnwch, llywodraethu effeithiol, cynaliadwyedd y gweithlu, gwybodaeth o ansawdd uchel, mynediad teg at wasanaethau, ymgysylltu â'r gymuned a dysgu sefydliadol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu canfyddiadau'r tri modiwl ac wedi ystyried eu perthnasedd i wasanaethau lleol, gan gydnabod bod llawer o'r materion a nodwyd yn adlewyrchu heriau ehangach ar lefel genedlaethol a lefel system. Serch hynny, mae'r canfyddiadau'n gyfle pwysig i fyfrio ar barodrwydd sefydliadol, gwydnwch ac effeithiolrwydd y trefniadau presennol i ymateb i argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad wedi nodi nifer o themâu sy'n gyson â blaenoriaethau sefydliadol presennol, gan gynnwys parodrwydd, llywodraethu a gwneud penderfyniadau mewn argyfwng, gwydnwch y gweithlu, gwybodaeth am iechyd y boblogaeth,



anghydraddoldebau iechyd, atal a rheoli heintiau, cyfathrebu ac ymgysylltu, parodrwydd brechu, gweithio mewn partneriaeth a dysgu sefydliadol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi nodi cyfleoedd i gryfhau sicrwydd mewn nifer o'r meysydd hyn drwy weithgarwch gwella parhaus ac integreiddio dysgu o fewn rhaglenni gwaith presennol.

Ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried ym mis Mai 2026, mae dull strwythuredig o ddysgu sefydliadol yn cael ei gydlynw drwy Swyddfa'r Nyrs Weithredol, gyda goruchwyliaeth drwy'r Fforwm Dysgu Sefydliadol a threfniadau llywodraethiant sefydledig. Bydd hyn yn sicrhau bod argymhellion perthnasol, themâu dysgu a gofynion cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hadolygu, eu blaenoriaethu a'u gwreiddio'n systematig yn y fframweithiau strategol, gweithredol a sicrwydd presennol.

Gall y Bwrdd gael sicrwydd rhesymol bod trefniadau'n cael eu sefydlu i nodi, asesu a gwreiddio'r dysgu sy'n deillio o Fodiwlau 2, 3 a 4 yr Ymchwiliad. Bydd rhagor o waith yn parhau i sicrhau bod y dysgu hwn yn cael ei drosi'n welliannau cynaliadwy o ran gwydnwch sefydliadol, trefniadau parodrwydd ac ymateb i argyfwng yn y dyfodol, gyda chynnydd yn cael ei fonitro drwy'r prosesau llywodraethu presennol.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn		

Acronymau / Rhestr Termiau
Acronyms / Glossary of Terms

BCUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
PPE	Cyfarpar Diogelu Personol
IPC	Rheoli ac Atal Heintiau
OLF	Fforwm Dysgu Sefydliadol

YMATEB I YMCHWILIAD COVID-19 Y DU (MODIWL3): SEFYLLFA A DYSGU'R BWRDD IECHYD

1. Y SEFYLLFA SITUATION

- 1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch ystyriaeth y Bwrdd Iechyd o'r hyn a ddysgwyd o Fodiwlau 2, 3 a 4 Ymchwiliad Covid19 y DU ac mae'n nodi'r trefniadau a sefydlwyd i sicrhau bod canfyddiadau perthnasol yn cael eu hadolygu, eu hystyried a'u gwreiddio'n systematig o fewn blaenoriaethau sefydliadol a fframweithiau llywodraethu presennol.
- 1.2 Gyda'i gilydd, mae tri modiwl yr Ymchwiliad yn archwilio agweddau allweddol ar ymateb y DU i bandemig Covid-19, gan gynnwys gwneud penderfyniadau a llywodraethu (Modiwl 2), yr effaith ar systemau gofal iechyd (Modiwl 3), a datblygu, defnyddio a darparu brechlynnau a therapiwteg (Modiwl 4). Gyda'i gilydd, maent yn nodi themâu cyffredin sy'n ymwneud â pharodrwydd a gwydnwch, arweinyddiaeth a llywodraethu, cynaliadwyedd y gweithlu, data a gwybodaeth, diogelu poblogaethau agored i niwed, cyfathrebu ac ymddiriedaeth y cyhoedd, anghydraddoldebau iechyd, gweithio mewn partneriaeth a dysgu sefydliadol.
- 1.3 Er bod llawer o'r materion a nodwyd gan yr Ymchwiliad yn adlewyrchu heriau ehangach ar lefel system a phenderfyniadau polisi cenedlaethol, mae'r canfyddiadau'n darparu dysgu pwysig i holl sefydliadau'r GIG. Felly, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o'r themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws y tri modiwl er mwyn deall eu perthnasedd i wasanaethau lleol, nodi meysydd o gryfder sefydliadol, a phenderfynu lle gallai fod angen rhagor o ddatblygu neu sicrwydd.
- 1.4 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod parodrwydd effeithiol ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol yn ymestyn y tu hwnt i drefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng yn unig, ac mae angen dull system gyfan sy'n integreiddio llywodraethu, gwybodaeth am iechyd y boblogaeth, gwydnwch y gweithlu, atal a rheoli heintiau, ymgysylltu â'r gymuned, mynediad teg at wasanaethau, ymchwil ac arloesi, a gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau sefydliadol.
- 1.5 Felly, mae'r papur hwn yn amlinellu sefyllfa'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r dysgu a nodwyd drwy Fodiwlau 2, 3 a 4 yr Ymchwiliad, ac mae'n disgrifio'r trefniadau sy'n cael eu datblygu drwy Swyddfa'r Nyrs Weithredol a'r Fforwm Dysgu Sefydliadol i sicrhau bod dysgu perthnasol yn cael ei ymgorffori mewn gweithgareddau gwella, sicrwydd a pharodrwydd presennol.

2. Y CEFNDIR BACKGROUND

- 2.1 Cafodd ymchwiliad Covid-19 y DU ei sefydlu i archwilio parodrwydd ac ymateb y DU i bandemig Covid-19, ac i ddysgu gwersi ar gyfer cryfhau gwydnwch yn y dyfodol. Mae'r papur hwn yn ystyried y canfyddiadau sy'n deillio o Fodiwl 2 (Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu Gwleidyddol Craidd y DU), Modiwl 3 (Effaith ar Systemau Gofal Iechyd) a Modiwl 4 (Brechlynnau a Therapiwteg). Mae pob un ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i sefydliadau'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus.
- 2.2 Roedd Modiwl 2 yn edrych ar benderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Daeth yr Ymchwiliad i'r casgliad bod y canlynol wedi effeithio ar yr ymateb i'r pandemig: oedi wrth uwchgyfeirio, cyfyngiadau mewn cynlluniau parodrwydd, gwendidau mewn trefniadau data a gwybodaeth a bod prosesau gwneud penderfyniadau ddim wedi rhoi sylw dyledus i grwpiau agored i niwed. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd prosesau llywodraethu cryf, atebolrwydd clir, gwybodaeth o ansawdd uchel, cyfathrebu effeithiol, gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau amserol yn ystod argyfyngau.
- 2.3 Roedd Modiwl 3 yn edrych ar effaith y pandemig ar systemau gofal iechyd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Canfu'r Ymchwiliad fod systemau gofal iechyd wedi ymuno â'r pandemig gyda phwysau sylweddol arnynt yn barod, gan gynnwys prinder gweithlu, diffyg capasiti, seilwaith sy'n heneiddio a gwydnwch cyfyngedig. Er bod gwasanaethau'n cael eu cynnal drwy ymdrechion eithriadol gan weithwyr gofal iechyd, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ddysgu pwysig yn ymwneud â llesiant y gweithlu, atal a rheoli heintiau, gofal brys ac argyfwng, diogelwch cleifion, capasiti gofal iechyd ac anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau.
- 2.4 Roedd Modiwl 4 yn edrych ar ddatblygu, caffael, rheoleiddio, darparu a defnyddio brechlynnau a therapiwteg. Roedd yr Ymchwiliad yn cydnabod bod y rhaglen frechu a'r ymateb therapiwtig yn gyflawniadau sylweddol ond nododd gyfleoedd i gryfhau parodrwydd ar gyfer y dyfodol drwy ymgysylltu'n well â'r gymuned, sicrhau mwy o ymddiriedaeth gan y cyhoedd, gwell defnydd o ddata, adnabod poblogaethau agored i niwed yn well, mynediad teg at wasanaethau a threfniadau cryfach ar gyfer ymchwil, arloesi a threialon clinigol. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau bod ymatebion i bandemig yn y dyfodol yn seiliedig ar wybodaeth gadarn am iechyd y boblogaeth.

- 2.5 Ar draws y tri modiwl, mae sawl thema gyffredin yn dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am fwy o barodrwydd a gwydnwch, gwell defnydd o wybodaeth a data, systemau arwain a llywodraethu effeithiol, cynaliadwyedd y gweithlu, diogelu poblogaethau agored i niwed, mynediad teg at wasanaethau, cyfathrebu, ymgysylltu â'r gymuned a dysgu sefydliadol clir a hygyrch. Mae'r Ymchwiliad yn pwysleisio'n gyson bod gwydnwch yn y dyfodol yn dibynnu nid yn unig ar drefniadau ymateb i argyfwng ond ar ddull system gyfan sy'n integreiddio gwasanaethau iechyd, iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol, cymunedau a sefydliadau partner.
- 2.6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod llawer o'r materion a nodwyd gan yr Ymchwiliad yn ymwneud â heriau ehangach ar draws y system ac yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n gyfle pwysig i fyfyrario brofiad lleol, asesu trefniadau presennol a nodi cyfleoedd i gryfhau parodrwydd, gwydnwch gwasanaethau a dysgu sefydliadol. Felly, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r dysgu ar y cyd sy'n deillio o Fodiwlau 2, 3 a 4 ac wedi ystyried sut y dylai lywio gweithgarwch gwella, trefniadau sicrwydd a chynllunio strategol yn y dyfodol.

3. **MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED** **SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION**

3.1 **Dull Gweithredu**

- 3.1.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y canfyddiadau sy'n deillio o Fodiwlau 2, 3 a 4 Ymchwiliad Covid-19 y DU gyda'i gilydd, gan gydnabod bod yr adroddiadau'n gydgyssylltiedig ac yn darparu dysgu ategol ar draws prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, gwydnwch y system gofal iechyd a datblygu a darparu brechlynnau a therapiwteg.
- 3.1.2 Er bod llawer o'r materion a nodwyd yn systemig ac yn genedlaethol eu natur, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Ymchwiliad ar y sail bod cyfrifoldeb o hyd i ddeall effaith leol, nodi cyfleoedd i wella a sicrhau bod dysgu perthnasol yn cael ei wreiddio mewn ymarfer sefydliadol.
- 3.1.3 Mae strwythur thematig y papur hwn yn adlewyrchu'r prif feysydd dysgu sy'n dod i'r amlwg yn gyson ar draws tri modiwl yr Ymchwiliad. Mae'r rhain yn cynnwys parodrwydd a gwydnwch, llywodraethu a gwneud penderfyniadau, cynaliadwyedd y gweithlu, data a gwybodaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu, diogelu poblogaethau agored i niwed, mynediad teg at wasanaethau, atal a rheoli heintiau, capasiti gofal iechyd, ymchwil ac arloesi, ymddiriedaeth y gymuned a dysgu sefydliadol.

3.1.4 Mae'r dull hwn yn cefnogi asesiad system gyfan o wydnwch sefydliadol ac yn sicrhau bod dysgu'n cael ei ystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau sefydliadol cyfredol, trefniadau llywodraethu presennol a chynllunio parodrwydd ar gyfer y dyfodol.

3.2 Ymateb i Themâu Allweddol

3.2.1 Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng

3.2.1.1 Ar draws y tri modiwl, pwysleisiodd yr Ymchwiliad bwysigrwydd parodrwydd, gwydnwch a'r gallu i ymateb yn gyflym i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg. Dangosodd y Bwrdd Iechyd ystywythder sefydliadol sylweddol yn ystod y pandemig drwy sefydlu strwythurau trefn rheoli, ad-drefnu gwasanaethau, rhaglenni darparu brechlynnau a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r Ymchwiliad yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal trefniadau cadarn ar gyfer parodrwydd am argyfwng, cryfhau gwydnwch sefydliadol a sicrhau parodrwydd ar gyfer amrywiaeth o senarios yn y dyfodol.

3.2.2 Llywodraethu, Arwain a Gwneud Penderfyniadau

3.2.2.1 Roedd Modiwl 2 yn tynnu sylw at bwysigrwydd trefniadau llywodraethu clir, herio effeithiol, atebolrwydd cadarn a gwneud penderfyniadau amserol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi myfyrio ar ei drefniadau llywodraethu yn ystod gweithgareddau ymateb i argyfwng ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnal strwythurau rheoli clir, dogfennu prosesau gwneud penderfyniadau a goruchwyllo sefydliadol effeithiol yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol parhaus.

3.2.3 Gwydnwch a Chynaliadwyedd y Gweithlu

3.2.3.1 Nododd yr Ymchwiliad fod gwasanaethau gofal iechyd yn dibynnu'n drwm ar ymrwymiad, hyblygrwydd a gwydnwch staff drwy gydol y pandemig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydnabod pwysigrwydd llesiant y gweithlu, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynaliadwyedd y gweithlu a threfniadau cymorth seicolegol fel elfennau allweddol o wydnwch yn y dyfodol

3.2.4 **Data, Gwybodaeth ac Iechyd y Boblogaeth**

3.2.4.1 Nododd y tri modiwl bwysigrwydd gwybodaeth a data o ansawdd uchel i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, nodi poblogaethau agored i niwed a thargedu ymyriadau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi myfyrio ar bwysigrwydd cryfhau prosesau integreiddio data, gwybodaeth am iechyd y boblogaeth a defnyddio data i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol, clinigol a strategol. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i wella gwelededd anghydraddoldebau iechyd, grwpiau agored i niwed a'r galw am wasanaethau ar draws y boblogaeth a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd.

3.2.5 **Diogelu Poblogaethau Agored i Niwed ac Anghydraddoldebau Iechyd**

3.2.5.1 Thema gyffredin ar draws adroddiadau'r Ymchwiliad oedd effaith anghymesur y pandemig ar boblogaethau agored i niwed. Nododd yr Ymchwiliad yr angen i nodi grwpiau agored i niwed yn gynharach a rhoi mwy o ystyriaeth i anghydraddoldebau wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau dulliau ymdrin ag iechyd y boblogaeth, gwella'r broses o nodi grwpiau sydd mewn perygl a sicrhau bod cynllunio ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol yn ymgorffori anghydraddoldebau iechyd, effeithiau ar gydraddoldeb ac ystyriaethau diogelu o'r cychwyn cyntaf.

3.2.6 **Cyfathrebu, Ymgysylltu â'r Gymuned ac Ymddiriedaeth y Cyhoedd**

3.2.6.1 Tynnodd yr Ymchwiliad sylw at bwysigrwydd cyfathrebu clir, hygyrch a chyson yn ystod argyfyngau iechyd y cyhoedd. Roedd Modiwl 4 yn benodol yn nodi'r berthynas rhwng ymddiriedaeth, ymgysylltu â'r gymuned a defnyddio ymyriadau iechyd y cyhoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i gynnal trefniadau cyfathrebu effeithiol, gwybodaeth hygyrch a pherthnasoedd cryf â chymunedau a sefydliadau partner i gefnogi hyder, ymgysylltiad a mynediad cyfartal at wasanaethau.

3.2.7 **Capasiti Gofal Iechyd, Atal Heintiau a Gofal Diogel**

3.2.7.1 Roedd Modiwl 3 yn tynnu sylw at y pwysau a brofir ar draws systemau gofal iechyd mewn perthynas ag argaeledd y gweithlu, gofal brys a gofal argyfwng, atal a rheoli heintiau, seilwaith a chapasiti ysbytai. Er bod gwasanaethau'n cael eu cynnal o dan bwysau eithriadol, mae'r Ymchwiliad yn atgyfnerthu'r angen i gryfhau gwydnwch sefydliadol, amgylcheddau diogel a threfniadau ymchwydd. Mae'r rhain yn parhau i fod yn feysydd pwysig o weithgarwch gwella parhaus yn y Bwrdd Iechyd.

3.2.8 Brechlynnau, Therapiwteg a Mynediad at Wasanaethau

- 3.2.8.1 Roedd Modiwl 4 yn cydnabod llwyddiant rhaglenni brechu a therapiwtig ar yr un pryd â nodi cyfleoedd i gryfhau parodrwydd ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd mynediad teg, llwybrau cyflawni clir, ymgysylltu â'r gymuned a systemau data cadarn i gefnogi rhaglenni brechu a thriniaeth yn y dyfodol. Bydd yr hyn a ddysgir o'r Ymchwiliad yn sail i drefniadau parodrwydd a chynllunio iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.

3.2.9 Ymchwil, Arloesi a Dysgu Sefydliadol

- 3.2.9.1 Tynnodd yr Ymchwiliad sylw at werth seilwaith ymchwil sefydledig, arloesi a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymateb i Covid-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi gwasanaethau sy'n seiliedig ar yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf, cynnal cysylltiadau â phartneriaid academaidd a gwreiddio dysgu sefydliadol mewn trefniadau llywodraethu a gwella arferol.

3.2.10 Asesiad cyffredinol

- 3.2.10.1 Gyda'i gilydd, mae Modiwlau 2, 3 a 4 yn dangos bod parodrwydd effeithiol ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol yn gofyn am ddull system gyfan sy'n ymestyn y tu hwnt i drefniadau cynllunio brys traddodiadol. Mae'r Ymchwiliad yn tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd parodrwydd, arweinyddiaeth, llywodraethu cadarn, gwydnwch y gweithlu, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, ymddiriedaeth y cyhoedd, darparu gwasanaethau'n deg a gweithio mewn partneriaeth.
- 3.2.10.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod llawer o'r heriau a ddisgrifiwyd gan yr Ymchwiliad yn adlewyrchu cyfyngiadau ehangach ar lefel system. Serch hynny, dangosodd y sefydliad ymrwymiad, hyblygrwydd a gwydnwch sylweddol drwy gydol y pandemig. Mae canfyddiadau'r Ymchwiliad yn gyfle pwysig i gryfhau parodrwydd, gwydnwch a dysgu sefydliadol ymhellach.
- 3.2.10.3 Felly, gall y Bwrdd fod yn sicr bod trefniadau'n cael eu sefydlu i sicrhau bod yr hyn a ddysgir ym Modiwlau 2, 3 a 4 yn cael ei adolygu, ei flaenoriaethu a'i wreiddio'n systematig yn y fframweithiau llywodraethu, gwella a pharodrwydd presennol.
- ### 3.2.11 Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Dysgu o'r Ymchwiliad
- 3.2.11.1 Mewn ymateb i'r camau gweithredu y cytunodd y Pwyllgor Gwaith arnynt, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu dull dysgu sefydliadol, cydlynol dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth drwy Swyddfa'r Nyrs Weithredol.

- 3.2.11.2 Bydd y dull hwn yn cwmpasu dysgu sy'n deillio o Fodiwlau 2, 3 a 4 a bydd yn cael ei oruchwyllo drwy'r Fforwm Dysgu Sefydliadol, gan sicrhau bod themâu perthnasol yn cael eu hadolygu, eu hasesu a'u hymgorffori'n systematig yn y trefniadau gwella a sicrwydd presennol.
- 3.2.11.3 Bydd fforwm dysgu amlddisgyblaethol am gyfnod penodol yn dod ag arweinwyr clinigol, gweithredol a chorfforaethol at ei gilydd i ystyried canfyddiadau'r Ymchwiliad yng nghyd-destun sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd, nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a sicrhau bod y dysgu'n cael ei integreiddio o fewn rhaglenni gwaith presennol.
- 3.2.11.4 Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar wreiddio dysgu o fewn blaenoriaethau sefydliadol sefydledig gan gynnwys parodrwydd am argyfwng, llywodraethu, gwydnwch y gweithlu, atal a rheoli heintiau, gofal brys a gofal argyfwng, iechyd y boblogaeth, anghydraddoldebau iechyd, cyfathrebu, ymchwil a dysgu sefydliadol.
- 3.2.11.5 Bydd Swyddfa'r Nyrs Weithredol yn cydlynu'r gwaith o weithredu a goruchwyllo, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd drwy drefniadau llywodraethu sefydledig gan gynnwys y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

4 **RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO** **KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION**

- 4.1 Er nad oes argymhellion wedi'u neilltuo'n uniongyrchol i Fyrddau Iechyd ym Modiwlau 2, 3 na 4 Ymchwiliad Covid-19 y DU, mae'n debygol y bydd disgwyl i sefydliadau'r GIG gyfrannu at fframweithiau, safonau, canllawiau a threfniadau parodrwydd cenedlaethol diwygiedig sy'n deillio o argymhellion yr Ymchwiliad, a gweithredu oddi mewn iddynt. Gellir bwrw ymlaen â'r rhain drwy Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, GIG Cymru ac asiantaethau perthnasol eraill. Felly, rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod yn barod i ymateb i ofynion sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod ei weithgarwch parodrwydd a gwella ei hun yn parhau i gyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol.

- 4.2 Mae risg nad yw'r dysgu sy'n deillio o'r Ymchwiliad yn cael ei nodi, ei gydlyn, ei flaenoriaethu, ei wreiddio na'i weld yn llawn ar draws y sefydliad oherwydd blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, cyfyngiadau capasiti a dibyniaeth ar drefniadau llywodraethu presennol. Gallai methu â gweithredu a chynnal dysgu yn effeithiol leihau gwydnwch sefydliadol a chyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddangos ei fod wedi ystyried ac ymateb yn briodol i ganfyddiadau'r Ymchwiliad.
- 4.3 Mae'r Ymchwiliad yn tynnu sylw at bwysigrwydd parodrwydd, llywodraethu effeithiol a gwneud penderfyniadau amserol yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Felly, mae risg y gallai gwendidau mewn gwybodaeth sefydliadol, trefniadau uwchgyfeirio, dogfennu'r broses o wneud penderfyniadau neu brosesau parodrwydd am argyfwng leihau gallu'r Bwrdd Iechyd i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau mawr neu argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.
- 4.4 Nododd yr Ymchwiliad hefyd effaith anghymesur y pandemig ar boblogaethau agored i niwed a difreintiedig. Mae risg y gallai diffyg gwybodaeth am iechyd y boblogaeth, ansawdd data neu nodi grwpiau agored i niwed leihau gallu'r Bwrdd Iechyd i dargedu cymorth yn effeithiol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau yn ystod argyfyngau yn y dyfodol.
- 4.5 Mae Modiwlau 3 a 4 yn tynnu sylw ymhellach at risgiau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd y gweithlu, capasiti gofal iechyd, atal a rheoli heintiau, cyfathrebu, ymddiriedaeth y gymuned a mynediad at ofal. Gall methu â chryfhau gwydnwch ar draws y meysydd hyn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau, diogelu cleifion a staff a darparu ymyriadau iechyd y cyhoedd effeithiol yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol sylweddol yn y dyfodol.
- 4.6 Mae risg hefyd na fanteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gryfhau gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu â'r gymuned, gallu i ymchwilio, parodrwydd ar gyfer rhaglenni brechu a llwybrau therapiwtig. Gallai methu â gwreiddio dysgu yn y meysydd hyn gyfyngu ar barodrwydd sefydliadau ar gyfer achosion o glefydau heintus yn y dyfodol a lleihau effeithiolrwydd trefniadau ymateb yn y dyfodol.

4.7 Asesu Risg Cyffredinol

- 4.7.1 Y prif risg strategol sy'n deillio o Fodiwlau 2, 3 a 4 yw nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwreiddio'n ddigonol y gwersi a ddysgwyd ar y cyd o ran parodrwydd, llywodraethu, gwydnwch y gweithlu, gwybodaeth am iechyd y boblogaeth, anghydraddoldebau iechyd, cyfathrebu, brechlynnau a therapiwteg. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg mewn gwydnwch sefydliadol a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol. Bwriad y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yw lliniaru'r risg hon drwy adolygu, goruchwyllo ac integreiddio dysgu'n systematig o fewn blaenoriaethau sefydliadol a fframweithiau sicrwydd presennol.

5 ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor/Cyfarfod/Grŵp:
The Committee/Meeting/Group is asked to:

- **NODI/NOTE** canfyddiadau Adroddiadau Modiwlau 2, 3 a 4 Ymchwiliad Covid19 y DU
- **CYDNABOD/ACKNOWLEDGE** y gwahaniaeth rhwng cyfyngiadau -ar draws y system ac ymateb sefydliadol
- **CYDNABOD/RECOGNISE** cryfderau a ddangoswyd gan BIPBC
- **CYMERADWYO/ENDORSE** dull dysgu sefydliadol dan arweiniad Nyrs Weithredol
- **CEFNOGI/SUPPORT** y trefniadau llywodraethu a'r camau nesaf.

ATODIAD 1 – CYSONI DYSGU O'R YMCHWILIAD AG ASESIAD BIPBC

Diben

Mae'r atodiad hwn yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi cysoni ei asesiad â'r themâu dysgu allweddol sy'n dod i'r amlwg ar draws Modiwlau 2 Ymchwiliad Covid-19 y DU (Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu Gwleidyddol Craidd y DU), 3 (Effaith ar Systemau Gofal Iechyd) a 4 (Brechlynnau a Therapiwteg). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio fframwaith thematig trawsbynciol i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o'r tri modiwl wedi cael ei ystyried mewn ffordd gyson ac integredig, gan roi sicrwydd bod canfyddiadau perthnasol wedi cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau'r sefydliad, trefniadau parodwydd a gweithgarwch gwella.

Thema Dysgu Drawsbynciol o'r Ymchwiliad	Prif Fodiwl(au)	Crynodeb o'r Sefyllfa
Parodwydd a Gwydnwch Sefydliadol	2, 3, 4	Trefniadau gwydnwch a pharodwydd yn cael eu hadolygu'n barhaus
Llywodraethiant a Gwneud Penderfyniadau Strategol	2	Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn parhau i gael eu cryfhau
Gwydnwch a Chynaliadwyedd y Gweithlu	2, 3	Mae llesiant a chynaliadwyedd y gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol
Data, Gwybodaeth ac Iechyd y Boblogaeth	2, 4	Angen mwy o integreiddio a dealltwriaeth o iechyd y boblogaeth
Capasiti Gofal Iechyd a Llif y System	3	Cydnabuwyd pwysau sylweddol; gwaith gwella'n mynd rhagddo
Atal Heintiau ac Amgylcheddau Diogel	3	Trefniadau llywodraethu cadarn gyda datblygiad parhaus
Poblogaethau Agored i Niwed ac Anghydraddoldebau Iechyd	2, 3, 4	Dulliau wedi'u targedu a gwybodaeth am iechyd y boblogaeth yn datblygu
Cyfathrebu, Ymgysylltu â'r Gymuned ac Ymddiriedaeth y Cyhoedd	2, 4	Cyfathrebu hygyrch a chryfhau cysylltiadau cymunedol
Parodwydd ar gyfer Brechlynnau a Therapiwteg	4	Wedi nodi blaenoriaethau o ran parodwydd ar gyfer y dyfodol a mynediad teg
Ymchwil, Arloesi ac Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth	4	Cydnabod y gallu presennol a'i gynnal
Gweithio Amlasiantaethol a Thrawsffiniol	2	Partneriaethau cryf wedi'u cynnal a datblygiad pellach wedi'i gynllunio
Dysgu Sefydliadol a Gwelliant Parhaus	2, 3, 4	Dysgu i'w wreiddio drwy drefniadau llywodraethu sefydledig

ATODIAD 2 - THEMÂU DYSGU BLAENORIAETH TRAWSBYNCIOL O FODIWLAU 2, 3 A 4 YR YMCHWILIAD

1 PWRPAS

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r themâu dysgu allweddol ym Modiwlau 2 Ymchwiliad Covid-19 y DU (Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu Gwleidyddol Craidd y DU), 3 (Effaith ar Systemau Gofal Iechyd) a 4 (Brechlynnau a Therapiwteg). Bydd y themâu hyn yn llywio dull y Bwrdd Iechyd o ddysgu sefydliadol ac yn cefnogi'r gwaith o integreiddio canfyddiadau perthnasol o fewn trefniadau llywodraethu, gwella a pharodrwydd presennol.

2 THEMÂU DYSGU BLAENORIAETH

Bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

2.1 Parodrwydd a Gwydnwch Sefydliadol

Sicrhau bod trefniadau parodrwydd am argyfwng yn cael eu hadolygu, eu profi'n rheolaidd a'u bod yn gallu cefnogi ymateb cyflym a pharhaus i argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.

2.2 Llywodraethiant a Gwneud Penderfyniadau Strategol

Cryfhau trefniadau llywodraethu, atebolrwydd, dogfennu'r broses o wneud penderfyniadau, prosesau uwchgyfeirio a goruchwyliaeth sefydliadol yn ystod cyfnodau o bwysau gweithredol sylweddol.

2.3 Gwydnwch a Chynaliadwydd y Gweithlu

Cefnogi llesiant y gweithlu, cadw staff, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynyddu capasiti a gwydnwch y gweithlu yn y tymor hir.

2.4 Data, Gwybodaeth ac Iechyd y Boblogaeth

Gwella systemau gwybodaeth, integreiddio data a defnyddio gwybodaeth am iechyd y boblogaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol, clinigol a strategol.

2.5 Capasiti Gofal Iechyd a Llif y System

Cryfhau gwydnwch y system iechyd drwy welliannau mewn gofal brys a gofal argyfwng, capasiti ysbytai, llif cleifion a threfniadau parhad gwasanaethau.

2.6 Atal Heintiau ac Amgylcheddau Gofal Diogel

Ymgorffori dysgu sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau, awyru, amgylcheddau diogel a pharodrwydd ar gyfer clefydau heintus sy'n dod i'r amlwg.

2.7 Diogelu Poblogaethau Agored i Niwed ac Anghydraddoldebau Iechyd

Gwella'r broses o nodi grwpiau agored i niwed a sicrhau bod cydraddoldeb, anghydraddoldeb iechyd ac ystyriaethau diogelu yn rhan annatod o gynllunio, gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.

2.8 Cyfathrebu, Ymgysylltu â'r Gymuned ac Ymddiriedaeth y Cyhoedd

Cryfhau cyfathrebu hygyrch, ymgysylltu â'r gymuned a pherthnasoedd â rhanddeiliaid i gefnogi hyder, ymddiriedaeth ac ymyriadau iechyd y cyhoedd effeithiol.

2.9 Parodrwydd ar gyfer Brechlynnau a Therapiwteg

Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys mynediad teg at raglenni brechu a thriniaeth, wedi'u hategu gan lwybrau cyflawni clir a gwybodaeth am iechyd y boblogaeth.

2.10 Ymchwil, Arloesi ac Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

Cynnal y gallu i ymchwilio, cefnogi arloesi a sicrhau bod y sefydliad yn gallu cyfrannu'n effeithiol at weithgarwch ymchwil yn y dyfodol a chynhyrchu tystiolaeth yn ystod argyfyngau.

2.11 Cydweithio Amlasiantaethol a Thrawsffiniol

Cryfhau'r cydweithio ag awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau GIG Cymru, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill i gefnogi trefniadau ymateb i argyfwng cydlynol.

2.12 Dysgu Sefydliadol a Gwelliant Parhaus

Sicrhau bod yr hyn a ddysgir o'r Ymchwiliad yn cael ei adolygu, ei flaenoriaethu, ei wreiddio a'i ddangos yn systematig drwy fframweithiau llywodraethu, sicrwydd a gwella presennol.

3 CRYNODEB

Mae'r dysgu sy'n deillio o Fodiwlau 2, 3 a 4 yn tynnu sylw at yr angen am ddull system gyfan o ran parodrwydd, gwydnwch a darparu gwasanaethau. Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau'r Ymchwiliad yn tynnu sylw at brosesau llywodraethu effeithiol, gwneud penderfyniadau amserol, cynaliadwyedd y gweithlu, gwybodaeth o ansawdd uchel, mynediad teg at wasanaethau, ymddiriedaeth y gymuned a dysgu sefydliadol.

Mae'r themâu blaenoriaeth hyn yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer gwreiddio dysgu ar draws y Bwrdd Iechyd a byddant yn cael eu datblygu drwy ddull gweithredu cydlynol dan arweiniad Swyddfa'r Nyrs Weithredol, gyda goruchwyliaeth drwy'r Fforwm Dysgu Sefydliadol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol presennol, trefniadau sicrwydd a rhaglenni gwella.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	    
	3. Gwell Myneuriad, Canlyniadau a Ffiofiadau Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Ddim yn berthnasol

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol): Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [Html] LLYW.CYMRU	Ydy/Yes: ☒	Nac ydy/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?	Do/Yes: ☒	Nac ydy/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	

<i>Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?</i> Templed WP8a	Canlyniad/Outcome: Ydw/Yes:	Naddo/No:
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Hawliau Dynol <i>A yw pryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn cael sylw yn Wp8a?</i>	Do/Yes: ☒	Nac ydy/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg? <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?</i>	Os nad ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Nac ydy/No: ☐
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cydymffurfiad o ran rhoi 'Sylw Dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog</i>	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
Ansawdd <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> Ansawdd <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Do/Yes: ☒	Nac ydy/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Dysgu, Gwellu ac Ymchwil	

	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u>	Ddim yn berthnasol	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do/Yes: ☒	Nac ydy/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll</i>	Do/Yes: ☒	Nac ydy/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	Dim effaith
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Effaith ar Adnoddau
(Pobl / Ariannol)
Effaith ar Adnoddau
(Pobl / Ariannol)

Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.



Trugaredd
Compassion



Agored
Openness



Parch
Respect

f

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	30 Gorffennaf 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored / Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Philippa Peake-Jones, Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Ennyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd

Crynodeb Gweithredol **Executive Summary**

Mae'r Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol hwn yn rhoi diweddariad cynhwysfawr i'r Bwrdd ar weithgareddau llywodraethu allweddol a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan ddangos bod trefniadau llywodraethu'n parhau i gael eu cryfhau tra bo'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn Mesurau Arbennig. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gofynion statudol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni drwy roi Rheolau Sefydlog ar waith yn effeithiol, defnyddio Camau Gweithredu'r Cadeirydd yn briodol, ac adrodd yn dryloyw ar benderfyniadau a gafodd eu gwneud mewn sesiwn breifat.

Cyflwynir y Polisi Rheoli Polisi Corfforaethol i'r Bwrdd i'w gadarnhau, ynghyd â'r Weithdrefn Rheoli Polisi Corfforaethol yn dilyn ymgynghoriad ar draws y Bwrdd Iechyd ac adolygiad drwy'r llwybr llywodraethu priodol. Mae'r Polisi'n sefydlu fframwaith clir a chyson ar gyfer datblygu, cymeradwyo, cyhoeddi, adolygu a rheoli dogfennau sy'n ymwneud â pholisi corfforaethol ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol a rheoleiddiol a chryfhau llywodraethiant sefydliadol. Mae'r Weithdrefn gysylltiedig yn darparu'r prosesau a'r canllawiau manwl i helpu i weithredu a rheoli dogfennau sy'n ymwneud â pholisi, yn barhaus ar draws y sefydliad.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Amherthnasol		

Acronymau / Rhestr Termiau
Acronyms / Glossary of Terms

DoT	Datganiad o Ymddiriedaeth
SO	Rheolau Sefydlog
SoRD	Cynllun Cadw a Dirprwyo
CHC	Gofal Iechyd Parhaus
RLW	Cyflog Byw Gwirioneddol
PPO	Gorchymyn Taliad Cyfnodol
CBSW	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
APB	Bwrdd Cynllunio Aardal
BCUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
IIAST	Adnodd Sgrinio Asesiadau Effaith Integredig
PGD	Cyfarwydddeb Grŵp Cleifion
DTG	Grŵp Cyffuriau a Therapiwteg

ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

1. Y SEFYLLFA SITUATION

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n berthnasol i lywodraethiant corfforaethol.

2 Y CEFNDIR BACKGROUND

- 2.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â'i Reolau Sefydlog. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â hyn.
- 2.2 Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol a gallai methu â gwneud hynny gael goblygiadau cyfreithiol i'r Bwrdd Iechyd.

3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

3.1 CRYNODEB O'R BUSNES A DRAFODWYD YN SESIWN BREIFAT Y BWRDD IECHYD AR 28 MAI 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 7.5.3, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi adroddiad ar unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat i gyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.

Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod cyfarfod preifat y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Mai 2026:

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
26.116	Gosod Ffioedd Gofal Iechyd Parhaus	CYMERADWYWYD yr argymhellion canlynol, gan gydnabod yr ystyriaethau sylweddol, yn gyfreithiol, ariannol, gweithredol ac o ran chynaliadwyedd y farchnad, sy'n gysylltiedig â gosod ffioedd Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer 2026/27. ➤ Cymeradwyo'r Ymgodiad Cyllid i Ofal	Sensitif i Fusnes

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		Iechyd Parhaus ar gyfer 2026/27 Cytuno i roi ymgodiad o 5.7% i ffioedd Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer 2026/27, ar sail y dyfarniad cyflog cenedlaethol, gofynion Cyflog Byw Gwirioneddol a phwysau chwyddiant, gyda chyfraddau gofal cartref yn cael eu haddasu i adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r Cyflog Byw Go lawn yn llawn, gan gydnabod yr angen ar unwaith i gefnogi sefydlogrwydd darparwyr, diogelwch cleifion a llif y system. ➤ Cadarnhau Cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol Nodi bod y dull arfaethedig ar gyfer yr ymgodiad a phennu ffioedd wedi cael ei ddatblygu'n benodol gan gyfeirio at y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer (2024), yn enwedig Safonau 7 ac 8, a chytuno bod angen camau gweithredu parhaus a gwell i gryfhau cydymffurfiaeth amlwg ymhellach.	

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		➤ Cydnabod a Derbyn y Proffil Risg Parhaus Nodi'n ffurfiol y lefel uchel barhaus o risg, gan gynnwys y risg sylweddol uwch o adolygiad barnwrol, ansefydlogrwydd y farchnad a'r effaith ar lif cleifion, a derbyn nad yw cymeradwyo'r ymgodiad yn dileu'r risgiau hynny yn y tymor byr, ond yn hytrach yn helpu i'w lliniaru. ➤ Cymeradwyo Dulliau Parhaus i Liniaru Risg, a Champau Comisiynu Strategol Cefnogi camau lliniaru parhaus ac arfaethedig, gan gynnwys: ▪ trefniadau ffioedd amrywiol a phwrpasol lle gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol gan aciwtedd, cymhlethdod neu ddarpariaeth arbenigol; ▪ parhau i ddatblygu Strategaeth Gomisiynu Gofal Iechyd Parhaus, gan gynnwys swmp-brynu a chomisiynu ar sail canlyniadau; ▪ llywodraethu cadarn drwy'r Panel Gofal Iechyd Parhaus Cymhleth / Cost Uchel;	

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		cymryd rhan weithredol mewn gwaith cenedlaethol ar offer comisiynu, tariffau a gweithredu Taliadau Uniongyrchol.	
26.117	Adolygiad Edrych yn Ôl Gwyliadwriaeth Oesoffagws Barrett (Iechyd Gofal Integredig – Gorllewin)	➤ RHODDWDYD SYLWADAU ar y risgiau a nodwyd a'r trefniadau lliniaru arfaethedig ar gyfer adolygiad edrych yn ôl gwyliadwriaeth oesoffagws Barrett. ➤ CEFNOGWYD parhad yr adolygiad edrych yn ôl yn unol â'r protocol y cytunwyd arno, gan gynnwys datrysiadau o ran capasiti ac adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gwblhau archwiliad, adalw a rheoli data'n ddiogel. ➤ CYTUNWYD ar oruchwyliaeth barhaus y Bwrdd, gan gynnwys derbyn diweddariadau cynnydd rheolaidd ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon sylweddol ynghylch diogelwch cleifion, capasiti neu sicrwydd.	Statws Drafft
26.118	Adroddiad Cymeradwyo Contractau a Thendrau	➤ NODWYD yr adroddiad. ➤ CYMERADWYWYD y Dyfarniad Contract ar gyfer Darpariaeth Diogelwch Safle Ffisegol gyda chyfanswm cost o	Sensitif i Fusnes

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		£4,095,002.88 heb gynnwys TAW am 3 blynedd ac estyniad dewisol o 1 flwyddyn. ➤ CYMERADWYWYD yr estyniad i Gontract Cyflenwi Endosgopi i uchafswm o £3.5m. ➤ CYMERADWYWYD Hwb Gohebiaeth y Post Brenhinol £1,4000,000.00 Heb gynnwys TAW am flwyddyn.	
26.119	Cymeradwyo Contractau ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru, Lleihau Niwed a Gwella Bywydau	➤ CYMERADWYWYD y Cytundeb Cynhyrchu Incwm rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW), yn gweithredu ar ran Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) Gogledd Cymru. ➤ AWDURDOD DIRPRWYEDIG i Gyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol, i lofnodi'r contract ar ran y Bwrdd Iechyd.	Sensitif i Fusnes
26.120	Adroddiad Ansawdd Cyfrinachol	➤ NODWYD cynnwys yr adroddiad.	Person y gellir ei adnabod
26.121	Hawliadau Uchel eu Gwerth	➤ CYMERADWYO awdurdod i negodi setliad iawndal llawn a	Gwybodaeth bersonol y

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		therfynol o hyd at uchafswm o £7,000,000. Gall y setliad terfynol gynnwys cyfandaliad neu gyfuniad o gyfandaliad a Gorchymyn Taliad Cyfnodol (PPO) neu Ddirprwyaeth, yn amodol ar gytundeb yng Nghyfarfod y Bwrdd Crwn (CN21-995) ➤ CYMERADWYO awdurdod i setlo iawndal hyd at £30,000,000, gan nodi y bydd y setliad yn cynnwys cyfuniad o gyfandaliad a Gorchymyn Taliad Cyfnodol (PPO) yn unol â chynghor y Cwnsler (CN11-430) ➤ CYMERADWYO taliad interim pellach oherwydd costau hyd at £150,000, os oes angen yng Nghyfarfod y Bwrdd Crwn (CN11-430) ➤ CYMERADWYO awdurdod i negodi setliad iawndal llawn a therfynol o hyd at uchafswm o £1,000,000 (CN23-1494) ➤ CYMERADWYO awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau	gellir ei hadnabod

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		Cyfreithiol i gytuno ar gostau rhesymol a gwneud taliadau interim oherwydd costau ac i gytuno ar setliad rhesymol o'r costau yn unol â chyngor Cyfreithiwr Costau Arbenigol. ➤ CYMERADWYO awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer costau amddiffyn angenrheidiol.	
26.122	Y Pwyllgor Gweithredol	Penderfynwyd bod y Bwrdd yn: ➤ NODI adroddiad y Pwyllgor Gweithredol.	Eitemau Cyfrinachol wedi'u rhannu
26.123	Achos y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	Dim datrysiad – cafwyd gwybodaeth frifio ar lafar	Eitemau Cyfrinachol wedi'u rhannu

3.2 BWRDD ANFFURFIOL – 25 MEHEFIN 2026

Cyfarfu'r Bwrdd mewn sesiwn ddatblygu anffurfiol ar 25 Mehefin 2026. Yn ystod y sesiwn, cymerodd yr aelodau ran mewn trafodaeth wedi'i hwyluso gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd leuenctid, gan gael cyfle i ddeall yn well beth yw profiadau a safbwyntiau pobl ifanc ledled Gogledd Cymru. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried y Cynllun Arbedion Ariannol yn fanwl, gan adolygu'r heriau, y risgiau a'r mesurau lliniaru arfaethedig sy'n gysylltiedig â sicrhau'r arbedion gofynnol. Ar ben hynny, cytunodd yr aelodau ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2026/27, gan sicrhau ffocws ar feysydd o'r pwysigrwydd strategol mwyaf a risg sefydliadol.

3.3 GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae angen adroddiad rheolaidd ar ddogfennau y gosodwyd y sêl gyffredin arnynt. Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod Sêl y Bwrdd Iechyd wedi'i gosod ar y dogfennau a restrir isod.

Rhif	Teitl	Llwybr Cymeradwyo	Dyddiad Llofnodi a Selio	Rhif y Sêl
246	Adnewyddu Hosbis Sant Cyndeyrn	Cymeradwywyd yn CIG 07.09.23	15.06.26	729
247	Prosiect Gofal Iechyd Cymuned Gogledd Sir Ddinbych - RAH Cam 1 Adeiladu - Cam 1 - Cytundeb Gwasanaeth Cyn Adeiladu JCT	Bwrdd Iechyd 25.09.2025 a dyfarniad cyllid Llywodraeth Cymru 13.02.26	2 gopi – 15.06.26 a 25.06.26	730 a 733
248	Prosiect Gofal Iechyd Cymuned Gogledd Sir Ddinbych - RAH Cam 1 Adeiladu - Cam 2 - Contractau Dylunio ac Adeiladu JCT	Bwrdd Iechyd 25.09.2025 a dyfarniad cyllid Llywodraeth Cymru 13.02.26	2 gopi – 15.06.26	731 a 732
249	Datganiad o Ymddiriedaeth - Elusen PBC	Bwrdd Iechyd 28.05.26	25.06.26	734

3.4 RHEOLI POLISI CORFFORAETHOL

Mae'r Polisi Rheoli Polisi Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gadarnhau yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd, yn dilyn datblygiad helaeth, adolygiad llywodraethu, ac ymgynghoriad ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Polisi'n sefydlu fframwaith cyson a chadarn ar gyfer datblygu, cymeradwyo, cyhoeddi, adolygu a rheoli'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â pholisi corfforaethol ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol, rheoleiddiol a chenedlaethol tra'n cefnogi llywodraethiant sefydliadol effeithiol. Mae'n cyflwyno trefniadau clir ar gyfer perchnogaeth polisi, atebolrwydd gweithredol, ymgynghori (gan gynnwys ymgysylltu ag Undebau Llafur), asesiadau effaith gorfodol, llwybrau cymeradwyo, a monitro ac adolygu parhaus, wedi'i gefnogi gan reolaeth ganolog ar ddogfennau drwy'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae'r Polisi wedi dilyn llwybr llywodraethu cynhwysfawr, gan gynnwys ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio, ymgynghori drwy BetsiNet, a chymeradwyaeth gan y Grŵp Goruchwyllo Polisi Gweithredol, gydag adborth yn cael ei ymgorffori yn y fersiwn derfynol. Mae'r Weithdrefn



Rheoli Polisi Corfforaethol sy'n cyd-fynd â hi yn darparu'r broses weithredol fanwl a'r canllawiau ar gyfer datblygu, cymeradwyo, gweithredu, cyhoeddi, adolygu a rheoli dogfennau sy'n ymwneud â pholisi corfforaethol. Gyda'i gilydd, bydd y Polisi a'r Weithdrefn yn cryfhau trefniadau llywodraethu, yn lleihau risgiau gweithredol a chydymffurfio, ac yn hyrwyddo dull safonol, hygyrch sy'n seiliedig ar dystiolaeth o reoli polisi ar draws y sefydliad. Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol drwy'r asesiadau effaith gofynnol.

Mae copi o'r Polisi a'i Weithdrefn gysylltiedig wedi'u cynnwys yn Atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno.

3.5 **CLINIGWYR CYMERADWY A MEDDYGON ADRAN 12(2)**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â gofynion Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru "Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy", Cyfarwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl GIG Cymru 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 a "Dogfen Meini Prawf a Phroses Adran 12(2) Cymru Gyfan ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2)".

Mae'r atodiadau canlynol wedi'u cynnwys yn y pecyn ategol.

Atodiad 3.1: Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)

Atodiad 3.2: Meddygon Adran 12(2) (Cymru Gyfan).

3.6 **PWYLLGOR PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU**

Yn Atodiad 4 mae'r Adroddiad Sicrwydd o'r cyfarfodydd ar 14 Mai a 25 Mehefin 2026 o Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasaethau

3.7 **ADRODD LOG TROSGLWYDDO**

I wella tryloywder a chryfhau arolygiaeth y Bwrdd dros faterion a ystyrir gan ei pwyllgorau, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi datblygu proses Log Trosglwyddo ffurfiol. Mae'r Log Trosglwyddo yn darparu mecanwaith i pwyllgorau godi materion, risgiau, penderfyniadau a materion sylweddol sydd angen sylw'r Bwrdd, tra hefyd galluogi'r Bwrdd i gyfeirio materion i pwyllgorau ar gyfer ystyriaeth bellach lle bo'n briodol. Ar ôl cyfnod o ddatblygu a gweithredu, caiff Logiau Trosglwyddo eu cyflwyno i'r Bwrdd fel atodiad i Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol o Fedi 2026 ymlaen. Bydd hyn yn rhoi golwg i Aelodau'r Bwrdd o bynciau allweddol a drosglwyddwyd rhwng y pwyllgorau a'r Bwrdd, gan gefnogi sicrwydd effeithiol, lleihau dyblygiad adrodd, ac yn gwella gwelededd gweithredoedd a phenderfyniadau ledled pwyllgorau'r Bwrdd.

3.8 **PROTOCOL AR GYFER DELIO Â CHWESTIYNAU GAN AELODAU'R CYHOEDD**

Mae Protocol ar gyfer Delio â Chwestiynau gan Aelodau'r Cyhoedd wedi cael ei ddatblygu er mwyn sefydlu proses ffurfiol a thryloyw yn ymwneud â derbyn, ystyried ac ateb cwestiynau a gyflwynir i'r Bwrdd Iechyd, y Bwrdd ac Aelodau Unigol o'r Bwrdd. Mae'r protocol yn amlinellu cyfrifoldebau, trefniadau llywodraethu a therfynau amser clir, gan gynnwys cynnal a chadw Cofnod Cwestiynau Cyhoeddus canolog i roi goruchwyliaeth, atebolrwydd a chofnod archwiliadwy o ymholiadau a chamau gweithredu. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, bydd y protocol yn ategu delio â chwestiynau'r cyhoedd yn gyson ac yn atgyfnerthu trefniadau'n ymwneud ag adrodd ar themâu, tueddiadau a pherfformiad trwy'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol i'r Bwrdd.

4 **RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO** **KEY RISKS BOARD ASSURANCE FRAMEWORK / MATTERS FOR ESCALATION**

Does dim risgiau na materion i'w huwchgyfeirio.

5 **ARGYMHELLION** **RECOMMENDATIONS**

5.1 Gofynnir i'r aelodau:

- **NODI** cynnwys yr Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol;
- **NODI'R** penderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat a gosod y Sêl Gyffredin;
- **CADARNHAU** cymeradwyaethau o ran Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yn unol â gofynion cenedlaethol;
- **NODI'R** sicrwydd a ddarperir drwy Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- **CADARNHAU'R** Polisi Rheoli Polisi Corfforaethol fel y nodir yn Atodiad 1, gan nodi ei fod wedi cwblhau'r llwybr llywodraethu, y broses ymgynghori a'r gymeradwyaeth ofynnol drwy'r Grŵp Goruchwyllo Polisi Gweithredol.
- **NODI'R** Weithdrefn Rheoli Polisi Corfforaethol sydd ynghlwm yn Atodiad 2, sy'n darparu'r fframwaith gweithredol sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi ar draws y Bwrdd Iechyd.
- **CADARNHAU'R** Protocol ar gyfer Delio â Chwestiynau gan Aelodau'r Cyhoedd, ynghlwm fel Atodiad 5.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	BAF24-01 Creu Sefydliad Effeithiol ac Atebol CRR-16 – Arweinyddiaeth/Mesurau Arbennig

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os nac ydych, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Arweinyddiaeth	Meysydd Ansawdd Domains of Quality Mae pob un yn berthnasol

<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u>	Ddim yn berthnasol	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluedd Arfog <i>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluedd Arfog:</i> Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn



Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
Cyfreithiol Legal	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Mae goblygiadau cyfreithiol yn yr eitemau Hawliadau Uchel eu Gwerth yr adroddwyd arnynt	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i>	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol

Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026	
Dyddiad y Pwyllgor	14/07/2026	Adroddiad:	Pwyllgor Taliadau
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor Taliadau ar 14.07.26. Cynhelir pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau mewn sesiwn breifat oherwydd bod pynciau personol y gellir eu hadnabod yn cael eu trafod.	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Taliadau rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Roedd angen cytuno ar weithgarwch recriwtio ar gyfer 4 swydd sefydliadol uwch er mwyn sicrhau bod gallu parhaus a chytbwys o fewn y Tîm Gweithredol a rolau cyflawni strategol bwysig eraill 2. Cytunwyd i gymeradwyo penodiadau i rôl y Cyfarwyddwr dros dro ar Adfer Gofal a Gynlluniwyd a rôl dros dro'r Cyfarwyddwr Adfer Gofal Brys ac Argyfwng 3. Trafodwyd y posibilrwydd o roi estyniadau i rolau uwch er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwaith ymgynghori a gweithredu rhaglen Sylfeini ar gyfer Dyfodol y sefydliad.	
2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Taliadau sicrhau'r canlynol i aelodau'r Bwrdd 1. Cynhaliwyd trafodaethau ystyrlon i wneud y canlynol 1.1. Cytuno ar benodi asiantaeth recriwtio allanol 1.2. Rhoi cyfle i gynnig atebion amgen posibl i rolau rheoli a chymorth ar lefel uchel iawn	
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Taliadau, hysbysu aelodau'r Bwrdd o'r canlynol 1. Rhannwyd y newyddion diweddaraf am weithgarwch recriwtio mewn perthynas â'r rolau canlynol a chytunwyd ar gymeradwyaeth lle bo hynny'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau dros dro lle bo angen. 1.1. Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 1.2. Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad 1.3. Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid 1.4. Prif Swyddog Gweithredu 1.5. Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol 2. Cytunwyd i ymestyn y trefniadau dros dro: 2.1. Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg 3. Cymeradwywyd cyfleoedd Interim a Secondiad mewn perthynas â'r rolau canlynol 3.1. Cyfarwyddwr Adrannol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu 3.2. Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio	

2d	Adolygu Risgiau	Trafodwyd risgiau mewn perthynas â • bylchau posibl o ran capasiti mewn rolau tîm gweithredol hanfodol pe na bai ystyriaeth recriwtio amserol a llwyddiannus yn cael ei rhoi. • Cymorth i rolau uchel iawn • Recriwtio a chadw staff ar ôl i Lywodraeth Cymru gomisiynu Adolygiad dan Arweiniad ac ymyriad gweinidogol wedi'i dargedu.
2e	Rhannu gwersi	Dim
3	Camau i'w hystyried gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	Cynllunio olyniaeth sefydliadol



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		02/07/2026	Adroddiad: Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
Cyfarfu'r Cworwm:		Do	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau - BIPBC	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae oedi ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch rhaglenni'r Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) a'r Cofnod Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl (MHEHR) yn parhau i beri risg sylweddol i drawsnewid gwasanaethau, galluogi digidol a gwelliannau i ddiogelwch cleifion. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch diffyg cadarnhad cyllid ar gyfer MHEHR, er gwaethaf ymrwymïadau blaenorol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gyflawni rhaglenni. 2. Nododd yr ymgysylltu clinigol a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol bryderon yn ymwneud â diwylliant sefydliadol a allai lesteirio'r broses o drawsnewid ac ailgynllunio gwasanaethau. Mae'r pryderon hynny'n cynnwys canfyddiadau o awdurdod dirprwyedig cyfyngedig, osgoi risg, trefniadau llywodraethu cymhleth a phrosesau araf o ran gwneud penderfyniadau. 3. Cafodd y Pwyllgor adolygiad o drefniadau addasu i'r hinsawdd a datgarboneiddio. Nodwyd bod enghreifftiau o arferion da ar draws y sefydliad, ar hyn o bryd nid oes fframwaith sefydliadol cyffredinol nac adnodd pwrpasol i gydlynu gweithgarwch a chefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion datgarboneiddio ac addasu i'r hinsawdd statudol.	
2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran datblygu'r Strategaeth 10 Mlynedd, y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r fframwaith cynllunio ategol, gan gynnwys cwblhau'r cam darganfod strategol, sefydlu trefniadau ymgysylltu clinigol a datblygu fframwaith gwasanaethau	

		bregus i gefnogi'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau. 2. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod yr hyn a ddysgwyd o'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig 2025/26 yn cael ei adolygu a'i ymgorffori'n systematig mewn trefniadau cynllunio yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gryfhau'r integreiddio rhwng cynllunio, cyllid, y gweithlu, perfformiad a chyflawni. 3. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod rhaglenni iechyd y boblogaeth a grantiau atal a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gael eu rheoli'n weithredol, gyda threfniadau goruchwyllo cryfach, systemau llywodraethu grantiau gwell a chyflawni mentrau atal allweddol ledled Gogledd Cymru.
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau hysbysu'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae angen gweithredu'n gyflym i sicrhau bod sefyllfa gyllid EHR ac MHEHR yn cael ei datrys, gan gynnwys uwchgyfeirio drwy drefniadau llywodraethu presennol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ac ystyried opsiynau wrth gefn os bydd penderfyniadau cenedlaethol yn dal heb eu datrys. 2. Mae angen i'r Bwrdd drefnu trafodaeth strategol ynghylch y rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol i benderfynu pa elfennau ddylai fynd rhagddynt yn y tymor byr i fynd i'r afael â materion hanfodol o ran capasiti sefydliadol, arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau. 3. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu dull sefydliadol cydlynol o fynd i'r afael â datgarboneiddio ac addasu i'r hinsawdd, gan gynnwys ystyried trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a gofynion adnoddau.
2d	Adolygu Risgiau	1. Mae Risg 2503 (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid Gwasanaethau) wedi cael ei hadnewyddu i gyd-fynd yn well â chynllunio strategol, cynllunio gwasanaethau clinigol a rhaglenni newid sefydliadol y Bwrdd Iechyd. Nododd y Pwyllgor gamau gweithredu ac amserlenni diwygiedig. 2. Mae Risg 2504 (Clefydau Trosglwyddadwy a Pharodrwydd Iechyd y Cyhoedd) yn parhau i fod yn faes ffocws sylweddol. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod gweithgarwch parodrwydd yn mynd rhagddo, gan gynnwys cynllunio ar gyfer clefydau heintus â chanlyniadau pellgyrhaeddol, ond nododd waith parhaus i gryfhau trefniadau cydymffurfio ac atebolrwydd sefydliadol. 3. Trafododd yr aelodau'r angen am fwy o oruchwyliaeth gorfforaethol ar drefniadau rheoli risg i sicrhau bod

		camau gweithredu'n mynd rhagddynt yn ddigonol i leihau'r risg dros amser
2e	Rhannu gwersi	Amh.
3	Camau i'w hystyried gan Bwyllgorau eraill	1. Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant i adolygu'r canfyddiad nad yw staff yn teimlo eu bod yn cael eu galluogi i wneud y trawsnewid sydd ei angen i newid gwasanaethau clinigol. 2. Mae angen i'r Bwrdd drefnu trafodaeth strategol ynghylch y rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol i drafod a fyddai'n bosibl parhau â'r Rhaglen Newid Sefydliadol lawn neu symud yn gyflymach gyda rhai newidiadau i sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd a chapasiti ar gyfer perfformiad a gwella a newid gwasanaethau. 3. Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth i edrych ar gyllidebu sylfaen sero i sicrhau bod cyllidebau'n addas i'r diben wrth symud ymlaen ac ystyried sefyllfa Archwilio Cymru. 4. Y Pwyllgor Gweithredol i ystyried y Strategaeth Datgarboneiddio a dychwelyd i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau gydag awgrym o ffordd ymlaen.



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		28/05/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		09/04/2026	Adroddiad: Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Cyfarfu'r Cworwm:		Do	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant - BIPBC	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae adborth o weithgarwch ymgysylltu â staff, gan gynnwys Arolwg Staff GIG Cymru a chyflwyniad profiad staff, yn dangos bod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau hyder wrth godi llais a gwreiddio ymddygiadau arwain a rheoli cadarnhaol yn gyson. 2. Mae angen cynnal momentwm a gwelededd clir y camau gweithredu sy'n deillio o Arolwg Staff GIG Cymru 2025, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau proffesiynol, llesiant staff, llwyth gwaith ac ymgysylltu ag arweinwyr. 3. Mae graddfa'r newid sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn gofyn am gynllunio ac ymgysylltu'n ofalus â'r gweithlu i gefnogi llesiant a morâl staff drwy gydol y cyfnod cyflawni.	
2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant roi sicrwydd i'r aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae gwaith ymgysylltu a gwella cadarn yn mynd rhagddo mewn ymateb i Arolwg Staff GIG Cymru 2025, gyda chynlluniau ar gyfer dadansoddi pellach, triangli data, ac adrodd i'r Bwrdd. 2. Mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran cryfhau'r Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu, gan gynnwys mwy o berchnogaeth weithredol, atebolrwydd cliriach, a gwaith wedi'i hwyluso gan Ddatblygiad Sefydliadol i wella mesuradwyedd a bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hyn yn cyd-fynd â cham gweithredu 25/210.1 gan y Bwrdd lle gofynnwyd i'r Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tair Blynedd gael ei ddatblygu ymhellach a bod cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant i roi sicrwydd i'r Bwrdd. 3. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y cynnydd sy'n gysylltiedig â Chynllunio Swyddi Ymgynghorwyr, gan	

		gynnwys datblygu protocolau ar y cyd a monitro parhaus fel mecanwaith allweddol i sicrhau'r gweithlu.
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod yn Bartner Maethu Cymru (Lefel 2) a chefnogi symud ymlaen i gael cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Mai 2026, yn unol â rôl Sefydliad Angori'r sefydliad. 2. Bydd y Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu diwygiedig yn dychwelyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2026 am sicrwydd cyn ystyried llywodraethu ehangach. 3. Bydd adroddiadau sicrwydd parhaus yn parhau ar Gynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol o ystyried ei bwysigrwydd strategol i gynaliadwyedd y gweithlu a darparu gwasanaethau. 4. Mae canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth yn dal yn flaenoriaeth uchel, gan fod hyn yn sbardun allweddol i gefnogi diwylliant sefydliadol gwell sy'n cyd-fynd â gwerthoedd. Mae'r cyfle i weithio gydag ysgol fusnes prifysgol i gyd-lunio hyfforddiant a datblygiad academaidd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau strategol o dan Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn cael ei ystyried.
2d	Adolygu Risgiau	Ni thynnwyd sylw'n benodol at unrhyw risgiau yn y cyfarfod.
2e	Rhannu gwersi	Roedd yr hyn a ddysgwyd o Stori'r Staff - Codi Llais heb Ofn wedi amlygu pwysigrwydd hanfodol ymddygiadau arwain, diogelwch seicolegol, ac ymatebion sefydliadol cyson i bryderon a godwyd gan staff.
3	Camau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gweithredol	Cafodd y Pwyllgor y diweddaraf am Gynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol, a chytunodd y dylai sicrwydd ar gynnydd yn y maes hwn barhau, gyda gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r fframwaith sicrwydd ehangach

Adroddiad Materion Allweddol y Bwrdd Iechyd

Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		02/06/2026	Adroddiad: Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
Cafwyd cworwm:		Do	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (CFC) yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Gwnaeth y Pwyllgor ystyried agenda sydd ynghlwm: Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
2a	Rhybudd	Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn awyddus i Rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad pwerus ar yr effaith yr oedd cyllid yn ei chael ar weithgarwch Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. • Mae rhai ymrwymïadau elusennol cymeradwy yn parhau i gael eu tanddefnyddio neu heb eu cyflawni, yn cynnwys enghreifftiau o gyllid yn cael ei ddychwelyd, gan amlygu risgiau o ran effaith a gwerth am arian. • Mae rhoddion yn parhau i gael eu cyfeirio'n anghymesur at wasanaethau proffil uchel, gan leihau hyblygrwydd i ategu blaenoriaethau sefydliadol ehangach. • Gwnaeth y Pwyllgor nodi'r angen am flaengynllunio cliriach er mwyn sicrhau bod cronfeydd ariannol wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol (oddeutu £2.4m).	
2b	Sicrwydd	Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn awyddus i roi Sicrwydd i aelodau'r Bwrdd ynghylch y canlynol: • Mae cyllid elusennol yn cyflawni effaith amlwg, yn enwedig o ran lles staff, cydraddoldeb a chynhwysiant, yn cynnwys tystiolaeth o well profiad a dulliau ymgysylltu â staff. • Mae effaith sylweddol wedi'i chyflawni trwy'r canlynol: ○ Mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth ○ Datblygu hyfforddiant a phecyn offer niwroamrywiaeth ○ Hyfforddiant atal hunanladdiad ○ Datblygu rhwydweithiau staff • Mae llywodraethu ariannol yn parhau i fod yn gadarn, ac mae asedau net yn cynyddu (oddeutu £14.4m), twf o ran incwm buddsoddi, a monitro gwariant ac ymrwymïadau'n weithredol.	

		Mae trefniadau rheoli buddsoddiadau'n parhau i roi goruchwyliaeth a sefydlogrwydd hirdymor, a chaiff perfformiad ei fonitro er gwaethaf anwadalrwydd y farchnad.
2c	Cynghori	Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn awyddus i Gyngori aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Mae strategaeth cronfeydd elusennol yn y tymor canolig (2-3 blynedd) yn ofynnol er mwyn sicrhau bod gwariant, incwm a buddsoddi'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. - Mae angen gwella hyblygrwydd o ran trefniadau cyllid, gan gynnwys defnyddio cronfeydd at ddibenion cyffredinol i ategu blaenoriaethau trawsbynciol megis lles staff. - Byddai gwell gwelededd a hybu effaith elusennol yn ategu ymgysylltu a chreu incwm yn y dyfodol. - Dylai cyllid elusennol gael ei alinio ymhellach â blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a blaenoriaethau'r sefydliad.
2d	Adolygu Risgiau	Ni chafodd unrhyw risgiau eu nodi ar wahân i'r rhai a nodwyd yn yr Adroddiad Rheoli Buddsoddiadau.
2e	Rhannu gwersi i'w dysgu	Dim gwersi i'w rhannu.
3	Camau gweithredu i gael eu hystyried	Dim camau gweithredu i'w rhannu.



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		01/06/2026	Adroddiad: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
A oedd Cworwm:		Na	
1	Agenda	Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
2a	Rhybuddio	Dymuna'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: Thema'r cyfarfod oedd pwysigrwydd sefydlu gwell cysylltiadau gydag awdurdodau lleol i sicrhau mwy o gyfranogiad.	
2b	Sicrwydd	Dymuna'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Dangosodd y cyfarfod symudiad clir tuag at atal, anghydraddoldebau ac iechyd y boblogaeth. - Cydweithio a chydgyhyrchu ar draws y system - Cynllunio parhaus sy'n seiliedig ar ddata i sicrhau bod cynlluniau'n troi'n gamau gweithredu gweladwy	
2c	Hysbysu	Dymuna'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid gynghori aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Cadarnhau mai Gareth Jones yw'r Is-gadeirydd. - Bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth go iawn a pharhaus a mynd i'r afael â chyfyngiadau o ran capasiti, y gweithlu a seilwaith - Nodi hybiau cymunedol fel ateb allweddol ar gyfer darparu'n lleol	
2d	Adolygu Risgiau	Amh	
2e	Rhannu gwersi	Amh	
3	Camau i'w hystyried gan	Dim camau i'w hystyried gan y Bwrdd na Phwyllgorau eraill.	

Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		30/07/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		05/06/2026	Adroddiad: Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Mae'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (y Fforwm) yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol - Agenda: 5 Mehefin 2026	
2a	Rhybuddio	Dymuna'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae'r pryderon am ryngwyneb gofal sylfaenol/eilaidd yn parhau, yn enwedig cyfrifoldebau presgripsiynu aneglur a bylchau mewn llwybrau; pryderon bod angen ystyried y materion hyn ymhellach fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol 2. Mae diddymu grwpiau gofal llygaid lleol yn creu risgiau llywodraethu a diogelwch cleifion, heb unrhyw ymgysylltu strwythuredig rhwng Optometreg ac Offthalmoleg 3. Pryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr Fferylliaeth Gymunedol ac Aciwt ynghylch materion parhaus yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a'r costau uwch sy'n deillio o hynny 4. Pryderon parhaus ynghylch cynaliadwyedd deintyddiaeth y GIG yn y dyfodol 5. Tynnodd cynrychiolydd AHP sylw at risgiau posibl sy'n gysylltiedig â llai o gomisiynau hyfforddi ac absenoldeb Prif Swyddog AHP cenedlaethol	
2b	Sicrwydd	Dymuna'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol sicrhau aelodau'r Bwrdd am y canlynol: 1. Mae trawsnewid digidol yn mynd rhagddo'n dda, gan gynnwys EPMA, RISP a BadgerNet sydd ar fin mynd yn fyw ym maes Mamolaeth er gwaethaf pwysau staff. 2. Mae arloesi ar lwybrau strôc (rhaglenni adsefydlu yn y gymuned) yn cael effaith gadarnhaol er bod y gweithlu'n dal yn fregus. 3. Mae crynodebau rhyddhau electronig bellach yn gwella'r prosesau Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR) ar draws Fferylliaeth Gymunedol. 4. Tynnodd cynrychiolydd fferylliaeth gymunedol sylw at nifer o ddatblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys:	

		- Cydnabyddiaeth genedlaethol i staff fferylliaeth sy'n cyflwyno yn y Gyngres Fferylliaeth Glinigol. - Datblygu partneriaethau Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Bangor. - Mwy o ymgysylltu ag ysgolion a mentrau gweithlu'r dyfodol. 5. Mae ymdrechion parhaus i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu sy'n weddill o ran Cynrychiolaeth Gofal Arbenigol a Thrydyddol.
2c	Hysbysu	Dymuna'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Er bod gwelliannau digidol wedi cael eu croesawu ac wedi arwain at nifer o newidiadau cadarnhaol, mae pryderon sylweddol o hyd ar draws nifer o wasanaethau ynghylch swyddogaethau, integreiddio a risgiau diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu anghyson ar draws sefydliadau. - Yr angen am ymgysylltu cryfach ag arweinwyr clinigol ynghylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r rhaglen Sylfeini'r Dyfodol. - Mae'r Fforwm yn ceisio ymwneud yn gynnar â datblygu'r strategaeth Gwasanaethau Pobl. - Aelodau o'r Fforwm i edrych ar gyfleoedd i gefnogi ehangu rolau academiaidd clinigol a rolau ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Brifysgol
2d	Adolygu Risgiau	- Mae'r risg dadwenwyno cleifion mewnol yn dangos bod angen cynllunio mesurau lliniaru yn yr interim ar frys er mwyn osgoi tarfu ar wasanaethau. - Mae bregusrwydd y gweithlu adsefydlu ar ôl strôc, orthoteg a meysydd eraill yn dal yn bryder sy'n effeithio ar wydnwch gwasanaethau. - Mae problemau diwylliannol yn parhau ar draws gwasanaethau, sy'n golygu bod angen triogli gwybodaeth yn well er mwyn canfod mannau problemus a thargeddu ymyriadau.
2e	Rhannu gwersi	- Mae dysgu o Fesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMs) cenedlaethol ac asesiadau sicrwydd amenedigol yn parhau i arwain at weithgarwch gwella yn y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. - Mae Cymunedol o'r Cychwyn yn dal i ddatblygu ac yn darparu enghreifftiau o arferion da effeithiol. - Cydnabod llwyddiannau sylweddol, gan gynnwys prosiectau Enghreifftiol Bevan a chwblhau Hyfforddiant Gwyddonwyr Arbenigol Uwch.
3	Camau i'w hystyried gan Pwyllgor Gweithredol	- Uwchgyfeirio pryderon ynghylch gwelededd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol o fewn prosesau cynllunio ac amlygrwydd cyfyngedig gofal sylfaenol - Uwchgyfeirio pryderon arweinyddiaeth Optometreg/Offthalmoleg hirsefydlog.

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD PWYLLGOR GWEITHGOR

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	30 July 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Cyhoeddus
	Not Applicable
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Catrin Williams
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w nodi
---	----------

Crynodeb Gweithredol **Executive Summary**

Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ymgynnull ar 6 Mai, 20 Mai, 3 Mehefin a 18 Mehefin a 1 Gorffennaf. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau gwasanaethau strategol, gwelliannau llywodraethu, a goruchwyliaeth ariannol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn breifat ac felly efallai y bydd rhai eitemau busnes sy'n cael eu hystyried yn gyfrinachol yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) **Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)**

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Not applicable for this report		

Acronymau / Rhestr Termiau



Acronyms / Glossary of Terms

ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHGOR

Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ymgynnull ar 6 Mai, 20 Mai, 3 Mehefin a 18 Mehefin a 1 Gorffennaf. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau gwasanaethau strategol, gwelliannau llywodraethu, a goruchwyliaeth ariannol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn breifat ac felly efallai y bydd rhai eitemau busnes sy'n cael eu hystyried yn gyfrinachol yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

1.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai

1.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat

1.2 Llywodraethiant a Risg

1.2.1 Adroddiad Archwilio Mewnol – Siarad yn Ddiogel

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol a dderbyniodd sgôr Sicrwydd Cyfyngedig. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddiwylliant sefydliadol, diogelwch seicolegol a gwella hyder staff wrth godi pryderon. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chefnogodd gyflawni'r cynllun gwella cysylltiedig.

1.3 Adroddiadau Ansawdd

Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau ansawdd gan gynnwys digwyddiadau, cwynion, achosion Ombwdsmon, ymchwiliadau digwyddiadau a threfniadau llywodraethu ansawdd. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddysgu sefydliadol, sicrhau ansawdd a gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau a chefnogodd waith pellach i gryfhau trefniadau llywodraethu ac adrodd ansawdd.

1.4 Adroddiad Sicrwydd Blynnyddol Lefelau Staffio Nyrsys

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Sicrwydd Blynnyddol statudol ar Lefelau Staffio Nyrsys ac ystyriodd ganlyniad asesiadau staffio a gynhaliwyd ar draws meysydd cleifion mewnol perthnasol. Darparwyd sicrwydd bod lefelau staffio yn parhau i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac yn cefnogi gofal diogel. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

1.5 Aliniad Sefydliad Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig – Graddedigion Medi 2026

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i wneud y mwyaf o gyfleoedd recriwtio ar gyfer nyrsys a bydwreigedd sydd newydd gymhwyso a lleihau dibyniaeth ar drefniadau staffio dros dro. Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r dull arfaethedig o'r gweithlu fel ffordd gynaliadwy o gryfhau'r cyflenwad gweithlu yn y dyfodol. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y trefniadau alinio recriwtio a sefydlu arfaethedig.

1.6 Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar berfformiad gofal brys ac argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys amrywiad mewn perfformiad rhwng safleoedd ac effaith pwysau'r system ar ddarparu gwasanaethau. Gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiad ar gyfer y Bwrdd ddangos tystiolaeth gliriach o lwybr perfformiad, dangosyddion ansawdd ac effaith camau gwella. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei ddatblygu i'w ystyried gan y Bwrdd.

1.7 Sganio am ddiogelwch (*Scan for Safety*)

Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd mewn perthynas â *Scan for Safety* ac ystyriodd gynigion i gryfhau trefniadau perchnogaeth, llywodraethu a gweithredu. Roedd yr aelodau yn cydnabod y manteision posibl ar gyfer diogelwch cleifion, safoni ac olrhain dyfeisiau. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull gweithredu arfaethedig a'r trefniadau llywodraethu.

1.8 Diwygio Contract Meddygon Preswyl a Gweithredu Lleol

Adolygodd y Pwyllgor y risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â gweithredu Diwygio Contract Meddygon Preswyl. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar lefel y risg sefydliadol a'r angen am oruchwyliaeth barhaus. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y sefyllfa a chytunodd y byddai'r gweithredu yn parhau o dan oruchwyliaeth rheolaidd y Pwyllgor Gwaith.

1.9 Themâu sy'n dod i'r amlwg o Arolwg Staff GIG Cymru 2025

Ystyriodd y Pwyllgor themâu sy'n dod i'r amlwg sy'n deillio o adborth arolygon staff a thrafododd gyfleoedd i wella ymgysylltiad staff a diwylliant sefydliadol. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cyfieithu adborth yn gamau gwella mesuradwy. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y canfyddiadau a chefnogodd ddatblygu cynlluniau gweithredu y gyfarwyddiaeth.

1.10 Gosod ffioedd gofal iechyd parhaus

Ystyriodd y Pwyllgor y codiad ffioedd Gofal Iechyd Parhaus arfaethedig ar gyfer 2026/27. Trafododd yr aelodau fforddiadwyedd, amodau'r farchnad ac aliniad â dulliau

sy'n cael eu datblygu mewn mannau eraill yng Nghymru. Penderfyniad: Cymeradwydd y Pwyllgor y codiad ffioedd arfaethedig i'w ystyried gan y Bwrdd.

2.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai

2.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat

2.2 Llywodraethiant a Risg

2.2.1 Diweddariad Ymchwiliad Covid-19

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Ymchwiliad Covid-19 y DU ac ystyriodd oblygiadau i'r Bwrdd Iechyd. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar barodrwydd, gwytnwch y gweithlu, cynllunio argyfwng a dysgu sefydliadol. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd y dylid datblygu ymateb sefydliadol cydgysylltiedig.

2.2.2 Cofrestr Risg Corfforaethol

Adolygodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol a thrafododd bryderon bod risgiau yn cael eu hadrodd heb dystiolaeth ddigonol o leihau risg. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen am weithgarwch lliniaru cryfach a chysylltiadau cliriach rhwng risgiau a chynlluniau cyflawni. Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor dull o reoli risg sy'n canolbwyntio fwy ar weithredu.

2.3 Ymgysylltu â Staff – Byrddau Arddangos ar draws Safleoedd Allweddol

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i gyflwyno byrddau arddangos cydnabyddiaeth staff ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd i gefnogi ymgysylltu a chydabyddiaeth staff. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd arddangos cynnwys cyfredol a sicrhau bod y fenter yn rhan o raglen ymgysylltu ehangach. Penderfyniad: Cymeradwydd y Pwyllgor y cynnig a chefnogodd ddatblygiad atebion digidol yn y dyfodol.

2.4 Ymgysylltu â Staff – Dull Cydnabod Gwasanaeth Hir

Ystyriodd y Pwyllgor ddull diwygiedig o gydnabod gwasanaeth hir wedi ei gynllunio i wella cysondeb a phrofiad staff. Roedd yr aelodau yn cefnogi proses fwy teg, gan gynnwys adnabod staff cymwys yn awtomatig a digwyddiadau cydnabod parhaus. Penderfyniad: Cymeradwydd y Pwyllgor y dull cydnabod gwasanaeth hir diwygiedig.

2.5 Adolygiad o'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol

Adolygodd y Pwyllgor safbwynt y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol ac ystyriodd feysydd blaenoriaeth i'w gwella. Pwysleisiodd yr aelodau y

dylai diogelwch cleifion gael ei ymgorffori mewn trefniadau rheoli ansawdd ehangach yn hytrach na chyflawni trwy raglen annibynnol. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y blaenoriaethau a nodwyd a chefnogodd ddatblygu cynllun gweithredu manwl.

2.6 Cefnogi cyflawni Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i gefnogi gweithredu Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru o fewn y dyraniad cyllid sydd ar gael. Roedd yr aelodau yn cefnogi datblygu model cynaliadwy "hwb heb waliau" wedi'i ymgorffori mewn gwasanaethau presennol. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y rhaglen i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru a chefnogodd ddatblygu model cynaliadwy tymor hwy.

2.7 Rhaglen Newid Mawr Gofal Cynlluniedig

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Rhaglen Newid Mawr Gofal Cynlluniedig ac adolygodd y cynnydd yn erbyn amcanion strategol. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar gynhyrchiant theatr, effaith rhaglenni a chryfhau trefniadau adrodd. Penderfyniad: Gofynnodd y Pwyllgor am waith pellach i wella adroddiadau sicrwydd a diffinio ymagwedd y sefydliad at ddefnyddio theatr.

2.8 Rhaglen Newid Mawr Gofal Brys ac Argyfwng

Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd wrth ddatblygu'r Rhaglen Newid Mawr Gofal Brys ac Argyfwng. Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen am wahaniaeth gliriach rhwng gweithgarwch perfformiad gweithredol a blaenoriaethau trawsnewid tymor hwy. Penderfyniad: Gofynnodd y Pwyllgor am ddatblygu cwmpas, strwythur a threfniadau adrodd y rhaglen ymhellach.

2.9 Grŵp Cyflenwi Goruchwylio Iechyd Meddwl

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y Grŵp Cyflawni Goruchwylio Iechyd Meddwl a ffrydiau gwaith sy'n dod i'r amlwg. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gryfhau adrodd perfformiad, mesur canlyniadau a deall effaith therapïau seicolegol. Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor ddatblygiad pellach o adrodd ar berfformiad a chanlyniadau.

2.10 Digwyddiad Iechyd Rhywiol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Adolygodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd mewn ymateb i ddigwyddiad Iechyd Rhywiol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r argymhellion cysylltiedig. Derbyniodd yr aelodau sicrwydd ynghylch camau gweithredu a gwblhawyd yn lleol wrth fynegi pryderon parhaus am drefniadau llywodraethu data cenedlaethol. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd ac yn cefnogi cynnydd parhaus mewn pryderon trwy drefniadau ymgysylltu.

3.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin

3.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

Eitemau a adroddwyd mewn papur preifat

3.2 Llywodraethiant a Risg

3.2.1 Adroddiad Ansawdd Blynyddol

Adolygodd y Pwyllgor yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol drafft cyn ei ystyried trwy lwybrau llywodraethu ffurfiol. Gofynnodd yr Aelodau am fireinio ymhellach i sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu'n gywir cynnydd a heriau parhaus. Penderfyniad: Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a chefnogodd mireinio pellach cyn y gymeradwyaeth derfynol.

3.2.2 Adolygiad Archwilio Allanol Llywodraethu Ansawdd

Ystyriodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu ansawdd. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gryfhau goruchwyliaeth, blaenoriaethau ansawdd sefydliadol a pherchnogaeth weithredol ar y cyd o wella ansawdd. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y canfyddiadau a chytunodd y byddai cryfhau llywodraethu ansawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

3.3 Diwygio Contract Meddygon Preswyl a Gweithredu Lleol

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar weithredu'r Contract Meddygon Preswyl newydd a risgiau cydymffurfio sy'n dod i'r amlwg ar draws gwasanaethau. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar oblygiadau'r gweithlu, risg weithredol ac ansicrwydd ynghylch effaith ariannol. Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Rhaglen ffurfiol Cydymffurfio a Gweithlu Rota a gofynnodd am ddiweddariadau pellach.

3.4 Blaenoriaethu Prosiectau Digidol, Data a Thechnoleg

Adolygodd y Pwyllgor y fframwaith a'r portffolio blaenoriaethu Digidol, Data a Thechnoleg arfaethedig ar gyfer 2026/27. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar allu cyflawni, aliniad strategol a sicrhau bod adnoddau yn parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau sefydliadol. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y fframwaith blaenoriaethu a'r blaenoriaethau cyflawni cysylltiedig.

3.5 Dull Achosion Busnes

Adolygodd y Pwyllgor gynigion i gryfhau'r broses achos busnes sefydliadol a threfniadau llywodraethu. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar wella blaenoriaethu, eglurder ariannol ac aliniad â phrosesau cynllunio. Penderfyniad: Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cyfeiriad teithio arfaethedig yn amodol ar fireinio ymhellach.

3.6 Mân Gyfleuster Gweithredu Canolfan Iechyd Cei Connah

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i ddefnyddio'r Mân Gyfleuster Gweithredu i gynyddu capasiti gofal wedi'i gynllunio mewnol. Roedd yr Aelodau yn cydnabod y cyfle i leihau amseroedd aros a dibyniaeth ar ddarparwyr allanol tra bod rhagor o waith yn cael ei wneud ar y model tymor hwy. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor gyllid cyfyngedig o amser am gyfnod o 12 mis.

4.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin

4.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat

4.2 Llywodraethiant a Risg

4.2.1 Adroddiad Blynyddol

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd cyn ystyried y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd. Nododd yr Aelodau y broses adolygu naratif ac archwilio gytbwys a gynhaliwyd yn ystod y datblygiad. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

4.2.2 Cofrestr Risg Gorfforaethol

Adolygodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r datblygiadau parhaus i gryfhau trefniadau rheoli risg. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ail-fframio risg, lliniaru a sesiynau datblygu Bwrdd yn y dyfodol. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac adolygu digonolrwydd rheolaethau a chymau lliniaru.

4.2.3 Adolygiad Archwilio Mewnol Safonau Ymddygiad Busnes

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adolygiad Archwilio Mewnol drwy'r broses agenda cydsynio. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol a'r canfyddiadau cysylltiedig.

4.2.4 Archwilio Mewnol y Pwyllgor Gweithredol

Adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Archwilio Mewnol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gweithredol. Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor y rhaglen waith arfaethedig i gryfhau trefniadau llywodraethu a sicrwydd.

4.3 Adroddiad Swyddog Atebol Cyffuriau a Reolir

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad statudol blynyddol ar drefniadau llywodraethu Cyffuriau a Reolir. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddysgu o ddigwyddiadau, cryfhau sicrwydd system gyfan a chynnal gwelliannau mewn prosesau llywodraethu. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd ar y blaenoriaethau gwella arfaethedig ar gyfer 2026/27

4.4 Achos Busnes yr Adran Achosion Brys

Ystyriodd y Pwyllgor achos busnes gyda'r nod o wella sefydlogrwydd y gweithlu o fewn Adrannau Brys. Roedd yr Aelodau yn cydnabod y risgiau diogelwch cleifion a gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trefniadau staffio presennol. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr opsiwn a ffefrir mewn egwyddor a gofynnodd am gynnig diwygiedig cyn ystyried y Bwrdd

4.5 Asesiad *Grip and Control*

Adolygodd y Pwyllgor yr asesiad *Grip and Control* a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Roedd yr Aelodau yn teimlo bod angen trafodaeth Weithredol fanylach i gefnogi dealltwriaeth a sicrwydd. Penderfyniad: Gohiriodd y Pwyllgor yr ystyriaeth a gofynnodd am sesiwn Weithredol bwrpasol.

4.6 Adolygiad Allanol o Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i gomisiynu adolygiad allanol o drefniadau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adolygiad allanol a nododd ddatblygiad y Cylch Gorchwyl cysylltiedig.

4.7 Adroddiad Materion Allweddol Bwrdd y Rhaglen Gofal Cynlluniedig

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Bwrdd y Rhaglen Gofal Cynlluniedig ac ystyriodd risgiau, rhybuddion a sicrwyddau allweddol. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

5.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf

5.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat

5.3 Cynnig ar gyfer Defnyddio Rhaglen Strategol ar gyfer Cyllid Gofal Sylfaenol

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i ddefnyddio gyllid gofal sylfaenol strategol sy'n weddill i gefnogi datblygu'r rhaglen Gymuned trwy Ddylunio. Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r bwriad strategol tra'n cydnabod bod angen rhagor o waith ynglŷn â threfniadau defnyddio manwl. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor ddyrannu cyllid a sefydlu swydd Cyfarwyddwr Rhaglen.

5.4 Diweddariad LIMS 2.0

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar oedi parhaus sy'n effeithio ar y rhaglen genedlaethol LIMS 2.0 a'r risgiau cysylltiedig i wasanaethau Trallwys Gwaed. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gynllunio wrth gefn a threfniadau parhad gwasanaeth. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor gyllid interim, estyniadau contract a datblygu opsiynau wrth gefn.

5.5 Adroddiadau Ansawdd a Diogelwch

Derbyniodd y Pwyllgor gyfres o adroddiadau ansawdd a diogelwch, gan gynnwys canfyddiadau'r Ombwdsmon, arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, diweddariadau llywodraethu ansawdd a metrigau sicrwydd adrannau brys. Canolbwyntiodd yr aelodau ar gryfhau trefniadau dysgu, sicrwydd a goruchwyllo ansawdd sefydliadol. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau a chefnogodd ddatblygiad parhaus o drefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd.

5.6 Diwygio Contract Meddygon Preswyl a Gweithredu Lleol

Ailystyriodd y Pwyllgor yr heriau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Contract Meddygon Preswyl. Nid oedd yr aelodau yn fodlon bod yr effeithiau ariannol, gweithlu a gwasanaeth yn ddigon clir i gymeradwyo'r opsiwn a ffefrir. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor rotas cydymffurfiol nad oedd angen unrhyw adnoddau ychwanegol a gofynnodd am gynnig diwygiedig i'w ystyried ymhellach.

5.7 Protocol Cynllunio Swyddi – Talu Sesiynau Rhan

Ystyriodd y Pwyllgor gynigion yn ymwneud â thalu sesiynau rhan o fewn y Protocol Cynllunio Swyddi ehangach. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gydymffurfiaeth cynllunio swyddi, cynhyrchiant a threfniadau llywodraethu. Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor y cynnig mewn egwyddor a gofynnodd am waith pellach ynghylch gweithredu a chymeradwyaethau.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	    
	1. Building an effective organisation
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:

Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Simplify, Standardise, and Adopt Best Practices Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	<i>Not Applicable</i>
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd- Gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>Have you undertaken a Socio- Economic Impact Assessment</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	<i>Not Applicable</i>
<u>Answdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Answdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Galluogwyr Answdd Enablers of Quality All Apply	Meysydd Answdd Domains of Quality Choose an item.
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals	Choose an item.
---	-----------------

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: Choose an item.
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog: Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Do/Yes: ☐ Naddo/No: ☐ Canlyniad/Outcome:
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:
Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data? Data Protection Impact Assessment Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?	Do/Yes: ☐ Naddo/No: ☐ Canlyniad/Outcome:
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:
Asesiad o Effaith ar Atal Twyll A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll? Counter Fraud Impact Assessment Have you considered the counter fraud impacts	Do/Yes: ☐ Naddo/No: ☒ Canlyniad/Outcome:
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:
	Not Applicable

Cyfreithiol Legal	There are no specific legal implications related to the activity outlined in this report.
Enw Da Reputational	There is no direct impact on the reputation of the Health Board as a result of the activity outlined in this report.
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report.